

**Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith
Gymraeg a Datblygu Economaidd
Galw am Dystiolaeth – Ymatebion**

Ionawr 2014



Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government

	Tudalen
1. Dyfodol i'r Iaith	1
2. Cymdeithas yr Iaith	7
3. Gwyn Jones	14
4. Christopher David	15
5. Eiry Thomas	16
6. Y Ganolfan Cynllunio Iaith	19
7. Medi Jones	22
8. David Ludlow	23
9. Clive James	26
10. Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	27
11. Tinoplois	29
12. Welsh Music Foundation	34
13. Cyngor Llyfrau Cymru	37
14. Gwyn Roberts	39
15. RWE	41
16. Enw wedi dal yn ôl	44
17. Biopower UK	47
18. Dalen Newydd	49
19. John Walker	52
20. David Wyn Williams	56
21. Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr	60
22. Uned Technolegau Iaith, Prifysgol Bangor	63
23. UCAC	66
24. Business in Focus	67
25. S4C	69
26. Huw Marshall	76
27. Comisynydd y Gymraeg	77
28. Mentrau Iaith Cymru	83
29. CBI	87
30. Menter a Busnes	93
31. Cwmni Theatr Arad Goch	103
32. Ceir Cymru, Bethel	106

Sylwadau i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Y Gymraeg a Datblygu Economaidd

Dr Heini Gruffudd – Dyfodol I'r Iaith

Y Gymraeg a Datblygu Economaidd

Mae Dyfodol i'r iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod ymudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisïau cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol. Mae Dyfodol i'r iaith yn croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd.

CRYNODEB

Cwestiwn 1

Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

- i. Cysylltiad 'micro' a 'macro': ni bydd busnesau unigol yn llwyddo yn y cyd-destun hwn oni bai bod polisïau cenedlaethol ar waith
- ii. Sylw i fusnesau sy'n darparu gwasanaeth Cymraeg: yr angen i godi proffil busnesau sy'n rhoi gwasanaeth Cymraeg
- iii. Gwasanaeth cyfieithu am ddim: i hwyluso defnydd o'r Gymraeg
- iv. Arwyddion amlwg ar ddrysau a ffenestri busnesau a siopau: i ddenu cwsmeriaid Cymraeg

Cwestiwn 2

Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

- i. Angen arweiniad Llywodraeth: i wneud defnyddio'r Gymraeg yn norm
- ii. Tendro a chaffael sy'n cefnogi'r lleol: i gefnogi seiliau cymunedol cadarn
- iii. Adeiledd economaidd cefn gwlad: yn allweddol i lwyddiant busnesau
- iv. Cynllunio datblygiadau tai yn ddoeth: fel bod economi lleol yn cyfrannu at gynaliadwyedd iaith
- v. Datblygu marchnad lafur cyfrwng Cymraeg: i gysylltu swyddi ac iaith gan ddatblygu rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant iaith

vi. Twf trefol: dewis mannau penodol i'w datblygu er mwyn creu trefi Cymraeg deniadol

vii. Creu swyddi: trwy adleoli; trwy ddarparu pecynnau ariannol a chynllunio ffafriol

Cwestiwn 3

Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

i. Symud allan o Gaerdydd: adleoli a datganoli sefydliadau

ii. Y gwasanaeth addysg: cyfraniad datganoledig allweddol, ac angen ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg

iii. Gweinyddu yn Gymraeg: mae angen i awdurdodau lleol ddatblygu hyn

iv. Sbarduno twf naturiol: nid yw cynllunio'n ateb popeth. Mae angen cefnogi delwedd sy'n ysgogi cysyniad deniadol o drefi Cymraeg

Cefndir hanesyddol

Un o'r rhesymau tebygol dros pam y mae'r Gymraeg wedi bod yn fwy llwyddiannus na'r ieithoedd. Celtaidd eraill yw ei bod hi wedi bod yn iaith gymunedol gref mewn ardaloedd lle bu datblygu economaidd a diwydiannol sylweddol, gan gynnwys yn arbennig yn y meysydd glo a'r gweithfeydd dur yn y De a'r Gogledd- Ddwyrain, ac ardaloedd chwarelyddol Gwynedd. Pan lifodd pobl o bob cwr o Ynysoedd Prydain a gweddill Ewrop i mewn i'r ardaloedd hynny er mwyn cael gwaith, bu i lawer iawn ohonynt gymhathu i'r gymuned leol, a dod yn siaradwyr Cymraeg. Dyma un rheswm pam bod gan gymaint o bobl sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf gyfenwau nodweddiadol Seisnig, Gwyddelig, Albanaid, Eidalaid ac ati. Mae'r amrywiaeth tarddiad yma yn nodwedd i'w dathlu, ac yn fodd i wrthbrofi honiadau rhai pobl sy'n elyniaethus i'r iaith mai ffenomen gul, gaeedig, gyfyng ei gornelion yw hi.

Roedd llwyddiant a thwf yr iaith yn rhannol i'w priodoli i'r ffaith mai'r Gymraeg oedd iaith naturiol y gweithle. Adlewyrchir hyn, er enghraifft, yn narpariaeth Adran 171 y Mines and Quarries Act 1954 (sy'n dal mewn grym), sy'n datgan: Where the natural language of communication of the persons employed at a mine . . . or of a substantial number of those persons is Welsh, then, in considering the qualification of candidates for appointments required, by or by virtue of this Act, to be made in the case of that mine . . ., regard shall be had to the possession of a knowledge of the language.

Heb fod ganddi ardaloedd daearyddol lle mae'r Gymraeg yn iaith gymunedol gref, nid oes llawer o obaith i'r Gymraeg barhau fel iaith hyfyw. Mae bodolaeth a pharhad ardaloedd o'r fath yn dibynnu yn eu tro ar eu ffyniant economaidd. Mae angen blaenoriaethu buddsoddi yn yr ardaloedd hynny, law-ynllaw a pholisïau a mesurau

sydd wedi eu targedu at gynnal yr iaith, megis meithrin gweithleoedd Cymraeg, galluogi rhai sy'n symud i mewn i weithio i ennill sgiliau iaith.

Cwestiwn 1

Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

i. Cysylltiad 'micro' a 'macro'

Mae'r cwestiynau a ofynnir yn cymysgu rhai lefel micro (am ymddygiad busnesau unigol) a rhai macro (am bolisi economaidd eang). Ychydig iawn mae modd ei gyflawni ar lefel cwmnïau unigol heb fod y polisiâu ehangach yn eu lle. Mae'n dda gweld cwmnïau'n defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith, ond i hyn fod yn wirioneddol effeithiol mae'n rhaid iddyn nhw weithredu mewn awyrgylch sy'n caniatáu defnyddio'r Gymraeg, ar lefel busnes i fusnes, ond hefyd ar lefel busnes i lywodraeth.

ii. Sylw i fusnesau sy'n darparu gwasanaeth Cymraeg

Ar lefel leol a phersonol, mae'n gallu bod yn atyniadol bod cwmni'n darparu gwasanaeth Cymraeg. Mae hyn yn hybu rhwydwaith cymunedau Cymraeg. I hyn fod yn llwyddiannus byddai'n dda bod sylw'n cael ei dynnu at gwmnïau sy'n gallu darparu gwasanaeth Cymraeg, bod ar lafar neu'n ysgrifenedig. Gallai hyn fod yn darged priodol i'r Comisiynydd Iaith a hefyd i'r Mentrau Iaith, fel bod gwybodaeth rhwydd ar gael i gwsmeriaid a busnesau am y Gymraeg mewn busnes. Gellid hyrwyddo cyswllt a masnach rhwng busnesau Cymraeg trwy greu gwefan 'Busnes i Fusnes' Cymraeg.

iii. Gwasanaeth cyfieithu am ddim

I hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn busnesau, byddai'n dda i Lywodraeth Cymru neu i'r Comisiynydd Iaith ddarparu gwasanaeth cyfieithu am ddim ar gyfer arwyddion a dogfennau.

iv. Arwyddion amlwg ar ddrysau a ffenestri busnesau a siopau

Mae'n ddigwyddiad llawer rhy aml nad yw cwsmeriaid yn gwybod bod modd i fusnes neu siop ddarparu gwasanaeth Cymraeg. Er bod arwyddion Cymraeg ar gael gan y Comisiynydd Iaith, ni chafwyd ymgyrch ag iddi dargedau i ddsbarthu'r rhain. Mae eu diben hefyd yn aneglur o bellter. Dylai'r arwyddion hyn fod mor amlwg â'r arwyddion am lendid yn ffenestri bwytai, a dylai gweithwyr Cymraeg wisgo bathodynau clir. Bydd hyn yn debygol o gynyddu cefnogaeth ymysg siaradwyr Cymraeg a rhoi gwerth ar y Gymraeg yn y busnes.

Cwestiwn 2

Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

viii. Angen arweiniad Llywodraeth

Yn gyffredinol, oni bai bod busnes mewn ardal eitha Cymraeg, neu yn gwasanaethu cynulleidfa Gymraeg (e.e. gwasg), dyw busnes ddim yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg am resymau ariannol pur. Mae angen i'r Llywodraeth greu "ethos" o blaid y Gymraeg trwy fabwysiadu polisïau o blaid y Gymraeg ar draws meysydd cynllunio, y cyfryngau, addysg a'r economi. Bydd busnesau wedyn yn awyddus i fod yn fwy Cymreigaidd, ac yn gweld nad yw hynny'n gwrthdaro â'u hunan-les. Fel hyn bydd defnyddio'r Gymraeg yn datblygu'n norm, a pheidio â'i defnyddio'n arfer llai dymunol.

ix. Tendro a chaffael sy'n cefnogi'r lleol

Rhaid i bolisïau eang economaidd Llywodraeth Cymru (e.e. ym maes grantiau, tendro) ystyried lles yr iaith. Mae sawl enghraifft o gwmnïau lleol yn methu â chael busnes am fod yr awdurdodau'n honni bod eu dwylo'n gaeth yn sgil canllawiau tendro a dderbyniwyd gan y Llywodraeth. Mae hyn yn ddiweddar yn cynnwys llaeth i ysgolion Sir Gaerfyrddin, ac ychydig yn ôl gwasanaeth torri gwair yn ysgolion Môn. Mae angen creu amodau tendro sy'n goresgyn yr angen i ddenu cwmnïau mawr pellennig.

x. Adeiledd economaidd cefn gwlad

Mae Carter ac Aitchison yn gweld bod anawsterau penodol i'w hwynebu wrth ddatblygu'r economi mewn ardaloedd cymharol Gymraeg. Dadleuir ganddynt bod cau siopau, ysgolion, llysoedd, canolfannau hamdden, pyllau nofio a gwasanaethau meddygol yng nghefn gwlad yn gwanhau hyfywedd economaidd ardaloedd gwledig, gan arwain at allfudo ymysg yr ifanc a'r rhai sy'n weithgar yn economaidd, a hyn yn ei dro'n ei gwneud yn anodd i fusnesau bach a chanolig flodeuo. ('Economics rather than rights critical for language survival', cyrchwyd o

<http://www.clickonwales.org/2013/05/economics-rather-than-rightscritical-for-language-survival/>

xi. Cynllunio datblygiadau tai yn ddoeth

Mae'n rhaid ystyried cynlluniau tai ochr yn ochr â chynllunio economaidd, gan fod cyfraniad economaidd yn deillio yn sgil codi tai, a hefyd am fod cynlluniau o'r fath yn gallu bod yn berygl i gynaliadwyedd iaith os ydynt yn rhai anghymesur. Mater allweddol yw bod canllawiau cadarn yn cael eu gosod ar awdurdodau cynllunio, ac mae'r oedi a fu wrth gyflwyno nodiadau cyngor newydd – y TAN 20 – i'w resynu. Bydd angen gwyliadwraeth gref ar y modd y caiff yr iaith ei thrin mewn materion cynllunio, ac mae angen i'r Llywodraeth fod yn effro iawn yn hyn o beth.

xii. Datblygu marchnad lafur cyfrwng Cymraeg

Mae angen cynllun cenedlaethol i adnabod swyddi lle mae'r Gymraeg yn allweddol neu'n ddymunol ar y naill law a rhaglen hyfforddi ieithyddol eang er mwyn datblygu

sgiliau iaith ymysg y gweithlu, sy'n briodol i'r swyddi. Bydd gan hyn oblygiadau i feysydd llywodraeth, yr economi, gweinyddiaeth, y sectorau preifat, a gwirfoddol. Bydd y gwasanaeth addysg a Chymraeg i Oedolion yn gyfrifol am ddarparu hyfforddiant Cymraeg gwaith, gyda phwyslais ar sgiliau llafar neu ysgrifenedig fel y bo'n briodol. Mae hyn yn gynllun y bydd angen ei gydlyn gan gorff canolog.

xiii. Twf trefol

Barn Dyfodol i'r iaith yw bod angen i'r Llywodraeth fabwysiadu'r egwyddor o bwytiau twf ieithyddol y tu allan i Gaerdydd. Mae Caerdydd ei hun yn enghraifft lwyddiannus o iaith yn tyfu yn sgil creu swyddi.

Mae Aberystwyth yn enghraifft arall gyda'i Llyfrgell Genedlaethol gyda'i 300 o staff. Mae angen strategaeth iaith fydd yn nodi nifer o drefi twf ieithyddol ac yn canolbwyntio ar ddatblygu'r rheini yn hytrach na gwasgaru ymdrechion dros Gymru i gyd.

Gellir dosbarthu trefi Cymru i dri dosbarth bras: (1) y rhai fel Caernarfon a Llangefni sy'n dal yn hyderus Gymraeg o hyd a lle clywir y Gymraeg fel prif iaith y stryd; (2) rhai problematig fel Machynlleth, Rhydaman lle mae'r Saesneg yn graddol ennill tir, a (3) rhai gwannach fel Llandeilo a'r Wyddgrug ond sydd â chnewyllyn da o ymreictod y gellir adeiladu arno.

xiv. Creu swyddi

Mae modd creu swyddi sector cyhoeddus (a) trwy symud swyddi o un lle i'r llall, fel y gwnaeth y Cynulliad ei hun, a (b) mae modd creu swyddi Cymraeg trwy fynnu bod dealltwriaeth o'r Gymraeg yn amod gwaith (e.e. trwy ei gwneud yn iaith gweithredu mewnol Llywodraeth Leol).

I greu swyddi sector breifat, byddai'n rhaid creu PECYN DENIADOL i ddenu busnesau a fyddai'n cynnwys.

- a. Telerau benthyg deniadol gan Fanc Datblygu Cymunedol Cymraeg, yn cael ei gefnogi gan y Llywodraeth.
- b. Pecyn grantiau deniadol, â manteision i gwmnïau a fyddai'n cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.
- c. Trethi busnes a threth gorfforaeth isel, efallai am dymor cychwynnol.
- ch. Gellid ystyried sefydlu Parc Busnes ar gyfer cwmnïau sy'n gweithredu'n bennaf trwy'r iaith (fel e.e. yng Ngwlad y Basg), gydag adeiladau ar osod yn rhad iawn.
- d. Ffaffraeth gan y broses gynllunio.

Cwestiwn 3

Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

v. Symud allan o Gaerdydd

Mae angen i sefydliadau Cymru sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac y mae eu prif ganolfannau yng Nghaerdydd ddatganoli. Yn eu mysg gellir cynnwys S4C, CBAC, BBC, Llywodraeth Cymru, Amgueddfa Cymru, Cadw, Comisiynydd y Gymraeg, Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae'r cyfryngau yn gallu bod yn allweddol wrth ddenu gweithwyr ifanc, a chollwyd cyfle wrth leoli man cynhyrchu Pobl y Cwm, e.e. yng Nghaerdydd yn hytrach nag yng nghwm Gwendraeth. Byddai symud i greu canolfannau mewn mannau fel Caernarfon yn trawsnewid dyfodol economaidd y mannau hynny.

vi. Y gwasanaeth addysg

Efallai mai'r gwasanaeth addysg sy'n cynnig y sector mwyaf llwyddiannus o ran dosbarthiad gweithwyr Cymraeg. Mae twf ysgolion Cymraeg ledled Cymru wedi sicrhau gweithlu Cymraeg ym mhob sir, yn gymesur â'r boblogaeth, ac mae pob rhagolwg y bydd hyn yn cynyddu ac yn dod yn ffactor o bwys ym mharhad y Gymraeg yn iaith fyw mewn gwahanol gymunedau.

vii. Gweinyddu yn Gymraeg

Mae awdurdodau lleol ledled Cymru, ac eithrio Gwynedd, yn defnyddio'r Saesneg yn iaith weinyddol.

Mae angen i'r Gymraeg gael ei defnyddio'n iaith arferol yn yr ardaloedd mwy Cymraeg. Bydd hyn yn rhoi gwerth i'r iaith, ac yn annog hyder ynddi a fydd yn estyn y tu hwnt i'r gwaith.

viii. Sbarduno twf naturiol

Mae gan gynllunio canolog rôl hollbwysig. Mae lleoli sefydliadau yn dod â swyddi cymharol uchel i ardal, a gwariant yn ei sgil. Mae gweinyddu a gwasanaethu sefydliadau'n cynnig cyfle am swyddi ar wahanol lefelau, ac yn debygol o ysgogi'r economi yn lleol.

Ond dim ond hyn a hyn all llywodraeth ei gyflawni. Gall greu'r amodau, ond wedi rhyw bwynt, rhaid disgwyl a gobeithio am dwf naturiol.

Mae rhai economegwyr yn dadlau bod gan ffactorau emosiynol le mewn datblygu economaidd. H.y. bod y syniad o ddeniadolrwydd lle o ran bywyd cymdeithasol a safon byw yn yr ystyr ehangaf lawn bwysiced, er mwyn denu busnes, â manteision ariannol. Mewn gair, rhaid i le fod yn ddeniadol. Mae Caerdydd yn ddeniadol. Rhaid creu gwrthbwyntiau i Gaerdydd a fydd hefyd yn ddeniadol. Rydym wedi awgrymu y dylid dechrau trwy wneud tref fel Caernarfon yn ddeniadol. Bydd pethau eraill – ac adfywiad ehangach -- yn dilyn o hynny, gobeithio.

Cymdeithas yr Iaith

Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg i waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen

I. Cyflwyniad

Yn ein hymateb polisi i ganlyniadau'r Cyfrifiad, mae'r Gymdeithas wedi cydnabod pwysigrwydd yr economi a'i chryfhau er mwyn gwrth-droi'r cwmp y nifer y siaradwyr a nifer y cymunedau Cymraeg.

Nid ydym fel mudiad yn credu mewn economi gyfalafol, ond yn hytrach, mewn economi wedi ei seilio ar anghenion pobl a chymunedau. Gwelwn effaith negyddol y system bresennol nid yn unig ar yr iaith ond ar anghyfartaledd o bob math, gan gynnwys tlodi yng Nghymru a ledled y byd. Credwn fod angen chwyldro yn y system bresennol er mwyn cyflawni dyfodol cynaliadwy i'n hiaith a'n cymunedau yn y pen draw.

Maniffesto Byw

Yn ein Maniffesto Byw terfynol, galwn am gyfres o fesurau i gryfhau'r economi er lles yr iaith:

- Sefydlu rhwydwaith o fusnesau Cymraeg a fyddai'n cynnig cefnogaeth ac arweiniad o ran hyfforddiant a dechrau busnesau Cymraeg newydd. Dylid sefydlu Ffederasiwn Cydweithredol Busnesau Cymraeg Cymru i fanteisio ar y brwdfrydedd a'r gweithgarwch sydd eisoes yn y Gymraeg ar-lein i hybu a gwireddu hyn.
- Dylid cynnig mwy o gefnogaeth (yn ariannol a thechnegol) i'r sector cydweithredol, gyda thargedau pendant i greu swyddi yn yr ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei chryfaf.
- Dylai'r llywodraeth gynnig cefnogaeth i gwmnïau symud o ardaloedd twf i lefydd eraill yng Nghymru, ac fel rhan o'r cytundeb cefnogaeth dylsent sicrhau fod canran o'r gweithlu â sgiliau cyfathrebu Cymraeg.
- Llywodraeth Cymru, pleidiau gwleidyddol, undebau a sefydliadau cenedlaethol i lunio strategaeth economaidd sydd yn rhoi pwyslais ar ddatganoli swyddi oddi mewn i Gymru
- Sefydlu Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg – dylid mynd ati ar frys i fonitro'r angen am weithlu cyfrwng Cymraeg mewn sectorau a lleoliadau ledled Cymru

a chynllunio i ateb y galw am weithlu â sgiliau iaith Gymraeg gan gynnwys sicrhau cynllun hyfforddiant uchelgeisiol Cymraeg yn y gweithle.

- Dylid creu prentisiaethau drwy'r Farchnad Lafur Cymraeg a threfnu hyfforddiant sgiliau cyfrwng Cymraeg ledled Cymru, yn benodol sgiliau hwyluso diwydiannau a mentrau cydweithredol.
- Newid cylch gorchwyl y Mentrau Iaith i fod yn "Mentrau Iaith a Gwaith" gyda chyfrifoldeb penodol a chyllideb i hyrwyddo mentergarwch trwy gyfrwng y Gymraeg a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg ym myd busnes. Adolygu cylch gwaith rhai o'r mentrau gan adlewyrchu'r enghreifftiau o arfer gorau yn y maes.
- Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill i lunio cynlluniau gweithredu tymor byr fel man cychwyn i ddatblygu ac i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cefnogi a chydweithio gydag undebau llafur i ddiogelu swyddi ac amodau gwaith yn y sector cyhoeddus a datblygu dealltwriaeth ymysg y cyhoedd o bwysigrwydd y swyddi hyn yn yr ardaloedd gwledig a'r ardaloedd Cymraeg yn arbennig.
- Polisi caffael pob corff a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru i roi blaenoriaeth i gwmnïau o'r ardal lle mae'r gwaith yn cael ei wneud, ac i gwmnïau o Gymru dros gwmnïau o bell - er mwyn lleihau'r pellter a deithir a sicrhau bod swyddi yn cael eu creu yn ein cymunedau. Dylid sicrhau yn ogystal bod mwy o gyfleoedd i gwmnïau bach a chanolig eu maint dderbyn tendrau yn ogystal â chwmnïau mawr.
- Dylai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, ddilyn esiampl Cyngor Gwynedd drwy symud at weinyddu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dylid bod yn fwy rhagweithiol wrth ddenu pobl ifanc i mewn i'r diwydiant amaeth gan gynnwys rhoi amodau wrth y taliad sengl a fyddai'n ei gwneud yn fanteisiol i ffermwyr hŷn gydweithio gyda phartneriaid ifanc.
- Dylid gweithredu Safonau Iaith cryf a chynhwysfawr er mwyn cynyddu y nifer o swyddi Cymraeg a sefydlu hawliau i bobl Cymru allu defnyddio'r Gymraeg ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol gan normaleiddio'r Gymraeg ym mhob ran o fywyd. Trwy'r safonau, dylid sefydlu hawliau clir i bobl ar lawr gwlad, a fydd yn cynnwys yr hawl i weithgareddau hamdden fel gwersi nofio i blant yn y Gymraeg, yr hawl i weithwyr ddysgu'r Gymraeg a'i defnyddio yn y gweithle, a'r hawl i gleifion dderbyn gofal iechyd yn yr iaith.

- Llunio cynllun gweithredu i annog cyflogwyr Cymru, gan gynnwys y sector cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector i hyrwyddo gwerth masnachol defnyddio'r Gymraeg. Annog y cyhoedd i gefnogi busnesau a gwasanaethau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg ac sy'n gwneud ymdrech i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Dylai pob awdurdod lleol gynnal ymchwil ar unwaith i fesur llif a chylchrediad ariannol gwahanol ardaloedd. Byddai cynnal ymchwil o'r fath yn arwain at well dealltwriaeth o sut yn union mae eu gwariant a'u cymorthdaliadau yn effeithio ar lewyrch ein cymunedau. Er enghraifft, i ba raddau y mae'r budd o wariant cyhoeddus yn llifo allan, yn hytrach na chylchredeg yn y gymuned, a hynny er mwyn ystyried pa gorff neu gwmni sy'n derbyn arian cyhoeddus. Yn yr un modd, dylai cyrff dylanwadol, fel prifysgolion, ysbytai ac awdurdodau lleol, gynnal awdit manwl i ddarganfod i ba raddau y mae eu polisiâu presennol, o ran stocio, prynu a chontractio, yn cefnogi'r economi leol gan lunio strategaeth er mwyn gwneud defnydd o gynhyrchwyr a gwasanaethau lleol. Lle mae ffigyrau yn bodoli yn barod, dylid mynd ati i weithredu arnynt yn syth.
- Dylid sefydlu darparwr newydd amlgyfryngol a fyddai'n ehangu'r gynulleidfa sydd yn gwrando, yn gwyllo ac yn defnyddio'u Cymraeg, a darparu rhwydwaith cenedlaethol Cymraeg gan fanteisio ar gydgyfeiriant technolegol yn cynnig plattform i brosiectau bro a chymunedol. Yn fwy na darlledwr un ffordd traddodiadol, ei bwrpas, heb os, fyddai cryfhau'r Gymraeg a'i chymunedau.

II. Enghreifftiau Penodol - cyfleoedd am newidiadau

Daw yn amlwg bod polisi caffael yn broblem fawr i'n cymunedau; ceir sawl enghraifft lle collwyd cyfle i gadw arian yn ein cymunedau er budd yr economi leol.

(a) Yr Eisteddfod Genedlaethol

Mae stondinau bwyd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn enghraifft o hyn gan iddynt dueddu i fod yn rhai a ddarperir gan gwmnïau o'r tu allan i Gymru ac felly mewn nifer o achosion yn torri rheol iaith yr Eisteddfod o'i herwydd. Gwyddom hefyd fod yr Eisteddfod Genedlaethol wedi ymgeisio am arian cyfalaf er mwyn prynu cyfarpar - megis pafiliwn mawr, pabell lân, toiledau - a fyddai'n arbed arian iddynt yn y pen draw, ond yn bwysicach, a allai fod yn adnodd i nifer o ddigwyddiadau eraill ac a fyddai'n cadw arian yng Nghymru yn lle bod yr arian yn mynd i gwmni y tu allan fel y mae ar hyn o bryd.

(b) Prentisiaethau

Ceir enghraifft bwysig arall yn y diffyg cyfleoedd i wneud prentisiaethau cyfrwng Cymraeg yng Nghymru. Dros y tair blynedd diwethaf, allan o 90,477 o brentisiaethau

a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, dim ond 354 oedd trwy gyfrwng y Gymraeg, llai na phedwar ymhob mil o brentisiaethau.

(c) Polisiâu Cyflogaeth / Marchnad Lafur

Mae diffyg cadernid polisiâu cyflogaeth yn lleihau defnydd y Gymraeg mewn nifer o sefyllfaoedd. Gwelwn y gallai cyrff cyhoeddus gael dylanwad ar y sector preifat.

Ar hyn o bryd, ni welir ymdrech i geisio pontio rhwng y strategaeth addysg Gymraeg a'r gweithle. Cymerwch Gyngorau Torfaen a Merthyr, Bws Caerdydd, neu'r Gwasanaeth Iechyd fel enghreifftiau o gyrff sydd yn methu â chyflawni gwasanaethau sylfaenol yn Gymraeg er bod cymaint o dwf mewn addysg Gymraeg. Mae problemau'r sefydliadau hyn yn deillio o'u polisiâu cyflogaeth ac er bod nifer fawr o blant yn gadael ysgolion yn rhugl yn Gymraeg nid oes ffordd i sicrhau defnydd o'u sgiliau ieithyddol. Mae hyn yn gam gwag o safbwynt sefydliadau sydd â mawr angen am aelodau o staff dwyieithog, ond hefyd mae'n golygu nad oes cyfleoedd gan y myfyrwyr i barhau â'u Cymraeg ar ôl gadael addysg. Gwelwn gyfle mawr i ddatrys y problemau trwy'r safonau iaith newydd.

(d) Defnydd Mewnol

Gwelwn fod mawr angen newid agweddau a pholisiâu mewnol nifer o gyrff. Yn rheolaidd, ceir enghreifftiau o fusnesau â pholisiâu i atal neu wahaniaethu yn erbyn y rhai sydd eisiau siarad Cymraeg ymysg ei gilydd.

Mae grym Comisiynydd y Gymraeg yn hyn o beth yn gyfyngedig, ond yn bendant, mae angen i'r gymuned fusnes wneud ymdrech ar lefel genedlaethol i wella'n sylweddol agweddau busnesau at ddefnydd y Gymraeg yn y gweithle

Credwn hefyd bod angen ymestyn polisi Cyngor Gwynedd ac eraill o ran gweinyddu'n fewnol trwy'r Gymraeg.

(e) Safonau Iaith - cyfle i gryfhau presenoldeb y Gymraeg ymysg busnesau

Mae'r safonau iaith arfaethedig yn gyfle i greu marchnad lafur fewnol a hybu defnydd y Gymraeg ymysg busnesau. Dylai'r grŵp hwn gydnabod pwysigrwydd y safonau yn y ffordd y gallan nhw gryfhau lle'r Gymraeg ym myd busnes, a photensial ehangu'r effaith hynny trwy ymestyn cwmpas Mesur y Gymraeg i'r holl sector breifat.

Credwn hefyd y dylid sefydlu rhwydwaith o fusnesau Cymraeg a fyddai'n cynnig cefnogaeth ac arweiniad o ran hyfforddiant a dechrau busnesau Cymraeg newydd.

(f) Cyfrifoldeb dros y Gymraeg o fewn y Llywodraeth

Credwn y gellid ystyried symud cyfrifoldeb dros y Gymraeg o fewn y Llywodraeth i'r Gweinidog dros yr Economi neu'r Prif Weinidog er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng polisi economaidd y Llywodraeth a'i effaith ar yr iaith.

III. Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

Rydym yn credu bod gan y Gymraeg werth cynhenid i bobl a chymunedau Cymru, a dyheadau a hawliau'r bobl a'r cymunedau hynny sy'n cyfiawnhau gwarchod y Gymraeg, nid buddion economaidd. Yn wir gall gosod "twf economaidd" fel prif nod, heb sicrhau bod y twf yn gynaliadwy a bod y buddion yn cael eu rhannu, fod yn niweidiol nid yn unig i'r iaith ond i bobl a chymunedau hefyd - datblygu cynaliadwy ddylai'r nod fod. Dyna'r hyn rydym wedi'i amlinellu yn ein hymateb i'r Bil Datblygu Cynaliadwy, gan bwysleisio bod effaith datblygiadau ar y Gymraeg yn rhan o effeithiau amgylcheddol ehangach a ledled y byd.

O safbwynt economaidd, un o'n prif arbenigeddau yng Nghymru, ac arbenigedd ein pobl ifanc yn enwedig, yw'r Gymraeg. Credwn y byddai buddion economaidd yn deillio o wneud y Gymraeg yn hanfodol mewn rhagor o weithleoedd gan y byddai'n creu marchnadoedd llafur mewnol, ac yn pontio rhwng y Strategaeth Addysg Gymraeg a'r Strategaeth Iaith. Mae ein haelodau yn treulio llawer o amser yn siarad â chyrrff, ac mae'n amlwg nad yw'r cyrrff hynny yn manteisio'n ddigonol ar sgiliau'r nifer gynyddol o blant sydd yn gadael ysgolion cyfrwng Cymraeg. Trwy greu rhagor o swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, gellid sicrhau dilyniant a chysylltiad cryf rhwng addysg a'r gweithle.

Dylid astudio'n fanwl yr hyn sydd wedi llwyddo mewn gwledydd eraill, e.e. Gwlad y Basg, lle mae twf yn yr iaith yn mynd llaw yn llaw ag economi gref. Dylid cofio hefyd nad arbenigedd sy'n berthnasol i Gymru yn unig yw cynnal iaith genedlaethol dan fygythiad - mae nifer o sectorau lle gellid rhannu arfer da â gwledydd a rhanbarthau eraill yn Ewrop a thu hwnt, a gwerthu gwasanaethau iddynt hyd yn oed.

Mae'r safonau iaith arfaethedig yn cynnig cyfle i ennill busnes i Gymru gan y bydd gofyn am wasanaeth Gymraeg yn creu mwy o waith i gwmnïau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru mewn lle delfrydol i gyflawni hyn. Dylid edrych ar y cyfleoedd a ddaw gyda'r safonau hyn a'r oblygiadau ar gwmnïau rhyngwladol, fel ffordd o sicrhau eu bod yn buddsoddi'n ôl yng Nghymru drwy gaffael gwasanaethau a hyfforddiant iaith.

Mae sector y diwydiannau creadigol yn un o 9 sector allweddol, yn ôl y Llywodraeth. Byddai datganoli darlledu i Gymru yn dod â manteision economaidd yn y pen draw. Credwn fod angen mynd ymhellach i ddefnyddio grym y diwydiant creadigol i hybu defnydd y Gymraeg. Dyna pam rydym yn awgrymu yn ein Manifesto Byw sefydlu

darlledwr aml-gyfyngol newydd a fyddai'n cryfhau'r sector yn ogystal â hybu defnydd y Gymraeg ymysg pobl ifanc.

Mae'r sector dwristiaeth yn un arall o'r sectorau allweddol. Gellid dod â buddion ychwanegol i gymunedau Cymru trwy gryfhau'r cysylltiad rhwng twristiaeth ac iaith a diwylliant - byddai datblygu model tebyg i ecodwristiaeth, lle mae ymwelwyr yn profi ac yn parchu'r iaith, yn annog ymweliadau hirach, gwariant lleol, ac yn cefnogi sectorau allweddol eraill (e.e. amaeth) ar lefel lleol.

IV. Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Un o'r prif ffactorau sydd yn tanseilio defnydd o'r iaith a niferoedd siaradwyr yw allfudo. Rhaid cofio hefyd y gallai denu rhagor o siaradwyr Cymraeg sy'n byw tu allan i Gymru yn ôl i Gymru gynyddu'r nifer sy'n siarad yr iaith yma (a hynny llawer iawn ynghynt nag y gellid ei wneud trwy ddysgu'r iaith i oedolion, er enghraifft). Dengys dadansoddiad ystadegol mai allfudo yw'r ffactor mwyaf sy'n cyfrannu at y gostyngiad blynyddol yn y nifer sy'n siarad yr iaith, ac mai siaradwyr Cymraeg yn symud yn ôl yma i fyw yw'r ffynhonnell fwyaf o siaradwyr newydd yng Nghymru pob blwyddyn.

Felly, mae darparu a gwarchod swyddi, yn enwedig mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, yn hollbwysig i'w ffyniant. Dyna pam rydym yn galw am ragor o gefnogaeth (yn dechnegol ac yn ariannol) ar gyfer mentrau cydweithredol.

Yn ddiweddar, rydym wedi clywed am drafferthion rhai cymunedau sy'n dymuno sefydlu melinau gwynt er budd y gymuned. Er enghraifft, mae cymunedau Hermon a Llanaelhaearn wedi wynebu problemau - gan gynnwys diffyg cymorth a chostau uchel cychwynnol - wrth geisio dechrau'r prosiectau ynni sydd yn atal y cymunedau codi arian a chreu swyddi yn yr ardal.

Credwn ymhellach bod angen newid cylch gorchwyl y Mentrau Iaith i fod yn "Mentrau Iaith a Gwaith" fel bod modd iddynt chwarae rôl gynyddol yn y maes hwn gan adeiladu ac ymestyn ar y gwaith clodwiw a wneir gan ychydig fentrau yn barod.

V. Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

Rydym wedi argymhell nifer o ffyrdd y gallai'r sector gyhoeddus gynyddu defnydd y Gymraeg drwy ei heffaith ar yr economi leol.

Cyllideb

Mae pob ceiniog a warir gan gyrff cyhoeddus yn cael effaith o ran iaith. Ar hyn o bryd, heb amheuaeth, mae rhan helaeth o'r gwariant hynny gan gyrff cyhoeddus Cymru yn hybu'r Saesneg, iaith gryfaf y byd.

Cymerer un enghraifft a ddaeth i'r amlwg wedi ymholiadau gan y Gymdeithas - prentisiaethau. Dangosodd ein hymchwil mai dim ond 354 allan o 90,477 prentisiaeth a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru oedd trwy gyfrwng y Gymraeg dros y tair blynedd diwethaf. A dim ond 0.3% o wariant ar Ddysgu yn Seiliedig ar Waith a ariannodd hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

Yn y Maniffesto Byw, rydym wedi galw am adolygiad o effaith iaith cyllideb Llywodraeth Cymru. Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i'n hawgrym yn hynny o beth, er bod gennym bryderon am annibyniaeth yr adolygiad a pharodrwydd y gwasanaeth sifil i newid.

Mae nifer fawr iawn o enghreifftiau o ddigwyddiadau a gynhelir gan gyrff cyhoeddus a noddir ganddynt lle nad oes presenoldeb i'r Gymraeg lle dylai fod.

Polisi Caffael

Fel amlinellir uchod, credwn fod angen cryfhau polisiâu caffael yn hynny o beth, fel y soniwn yn ein Maniffesto Byw. Yn hynny o beth, mae'r gosod y Gymraeg fel hanfod unrhyw gytundeb yn rhoi mantais i gwmnïau o Gymru, a hefyd yn fuddiol i ddyfodol yr iaith.

Felly, dylid ystyried mesurau deddfwriaethol er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol yn gallu elwa'n well o gontractau sector cyhoeddus.

VI. Enghreifftiau o arferion da o ran cyflogi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg

Credwn fod nifer o gyflogwyr y gellid adeiladu ar eu gwaith da gan gynnwys Cyngor Gwynedd a nifer o gwmnïau bychain sydd â gwreiddiau cymunedol. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cymryd camau yn y cyfeiriad iawn hefyd.

Llywodraeth Cynulliad Cymru ddylai ariannu'r gost o gyfieithu dogfennau busnes.

Gwyn Jones

Dylai cyfryngau Cymru roi mwy o sylw i dechneg, dyluniad ac ansawdd systemau a chynnyrch a gynhyrchir mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith. Dylai ysgolion mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith gynyddu'r nifer o wersi Technoleg ac arddangos eu cyflawniadau i'r gymuned. Dylid rhoi blaenoriaeth i'w heitemau gwaith a'u dyluniadau. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sefydlu cronfa arbennig i hwyluso'r cynllun hwn. Hefyd, dylid arddangos gwaith celf disgyblion, yn enwedig lefel A, yn flynyddol yn yr haf fel sy'n cael ei wneud yn Lloegr. Os yw hyn yn golygu newid o ganu i dechnoleg yn rhai o'n hysgolion, boed hynny fel y bo.

Rhaid annog diwylliant o ddiddordeb mewn peirianeg ymarferol a modelau a systemau gwaith DIY ym mhob ysgol yng Nghymru fel mater o flaenoriaeth. Hefyd, dylai'r ysgolion hyn gynnwys hanes peirianwyr a gwyddonwyr Cymreig enwog.

Yr Economi a'r Gymraeg

Christopher David

Ychydig iawn o le sydd i'r hobi o warchod y Gymraeg ym maes datblygu busnes. Gallai fod o fudd i'r diwydiant twristaidd mewn ffordd fach, a dyna ni. Yn gyffredinol er hynny, mae'n wrthgynhyrchiol, yn wastraff ar ddeallusrwydd, arian, adnoddau ac ati. Ac mae'n tarfu ar lawer o'r rhai sy'n ystyried buddsoddi yng Nghymru. Pe bai Edwina Hart yn canolbwyntio ar ddatblygu busnes mewnol a rhyngwladol go iawn, efallai y gallai hi ddod i ben â chyflawni rhywbeth. Er na wnaiff hi yn fy marn i. Mae angen partneriaeth rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus gyda phobl fusnes profiadol yn llywio polisïau a gwaith, nid gwleidydd heb gymwysterau.

Mae manteision lladd yr ymgyrch dros y Gymraeg yn cynnwys - eglurder a'r amgylchedd, faint o goed heb eu darllen sy'n cael eu taflu i'r bin bob blwyddyn?

Diwedd ar y nonsens cywirdeb gwleidyddol ynghylch y Gymraeg yn gyffredinol, cymaint o amser wedi'i wastraffu ar bethau sydd o ddiddordeb i ychydig o hobiwyr, haneswyr a rhai twristiaid.

Torri lawr ar ddiwylliant o swyddi i'r bechgyn a'r merched ffug-ddeallus yn y cylchoedd Cymraeg eu hiaith.

Pryd fydd "Cymru" yn dysgu nad yw gweddill y byd ar y cyfan yn hidio'r un ffeuen? Mae hi yno gyda dawnsio Morris - hwyl, diddorol, hanesyddol ond DDIM yn bwysig i ddatblygiad economaidd y Gymru ynysig.

Ie, nid tystiolaeth mo hon, ac ni ddowch o hyd i ddim byd sy'n cefnogi eich achos beth bynnag (ond fe fyddwch yn camliwio a dweud celwydd), mae'r holl beth yn rhy blentynnaidd i ganolbwyntio gormod o amser arno. Ond synnwyr cyffredin ydyw, wedi'i gefnogi gan brofiad cyfunol.

Os gwelwch yn dda, dihunwch a chanolbwyntiwch ar gyflawni, da chi.

GRŴP GORCHWYL A GORFFEN Y GYMRAEG A DATBLYGU ECONOMAIDD

Eiry Thomas

Annwyl Mrs Edwina Hart MBE CStJ AM, Elin Rhys ac Aelodau'r Grŵp,

Rwy'n ddiolchgar am y cyfle hwn i gyflwyno syniadau ac argymhellion yn ymwneud â chysylltiadau rhwng y Gymraeg a Datblygu Economaidd er mwyn meithrin perthynas gadarnhaol.

Rwy'n awdur a chynhyrchydd deunydd addysgol dwyieithog. Mae fy mentrau cyfredol yn cynnwys llyfrau, adnoddau dosbarth a chyfres o apps dwyieithog. Mae creu'r apps wedi bod yn bosibl diolch i gymorth Sector Diwydiannau Creadigol Llywodraeth Cymru.

a) O ran y defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd i gefnogi twf busnes a datblygu economaidd, credaf y gallai, ac y dylai, poblogrwydd addysg Gymraeg a dwyieithog, a buddsoddi ynddi, arwain at fanteision i ddisgyblion ac i economi Cymru. Mae ymgyrch ar y gweill ar hyn o bryd i wella rhifedd a llythrennedd ar draws y cwricwlwm gyda llawer o drafod ynglŷn ag annog sgiliau rhaglennu ar gam cynnar priodol. Rwy'n gweld hyn fel cyfle ar gyfer cydweithio rhwng ysgolion a'r diwydiant TG i greu manteision yn y tymor byr, canolig a hir.

b) Gallai datblygu economaidd gefnogi'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg drwy ddefnyddio dwyieithrwydd fel y norm sy'n dathlu ein hunaniaeth genedlaethol o fewn cymuned economaidd fyd-eang mewn modd hawdd ei ddefnyddio. I hwyluso hyn, byddai gwella sgiliau llythrennedd, rhifedd, TG a rhaglennu gweithwyr yn fuddiol. Mae angen annog merched, yn arbennig, i ddiystyru'r gred fod TGCh yn bwnc mwy addas ar gyfer bechgyn.

c) Os caf amlinellu fy mhrofiad personol o'r sector cyhoeddus yn cefnogi defnydd cynyddol o'r Gymraeg drwy effaith economaidd leol: rwy'n creu fy mentrau llythrennedd a rhifedd yn ddwyieithog. Mae cymorth Llywodraeth Cymru wedi bod yn allweddol o ran gallu fforddio creu apps dwyieithog. Mae angen llyfrau ac adnoddau dosbarth i gefnogi'r rhain, ac rwy'n ariannu'r gost am y rhain fy hun. Mae yna botensial enfawr ar gyfer cymell diddordeb ac ymgysylltiad yn y ddwy iaith drwy gynhyrchion wedi'u hymchwilio a'u gwneud yn dda yn y ffordd hon. Mae'r ffaith fod fy nghynhyrchion wedi'u hasesu fel rhai â photensial masnachol sylweddol yn fonws o ran yr economi ond mae cyfyngiadau ar fy amser yn sgil yr angen i fod yn greadigol ac yn berson busnes llwyddiannus ar yr un pryd. Mae darparu'r holl ddeunydd yn ddwyieithog yn golygu llawer o amser, ac mae cymorth cyfieithu'n ddrud. Mae cynnal y cynnwys a chostau'n gysylltiedig â gwefannau dwyieithog hefyd yn ffactor. Byddwn yn gwerthfawrogi help tuag at gyfieithu'n ymwneud â'r busnes yn fawr.

Mae prosesau tendro o fewn y system addysg yn gymhleth a byddai darparwyr cynnwys fel fi yn elwa'n fawr o gael gwell syniad ynglŷn â sut y mae'r system yn gweithio. Mae gennyf fenter ddwyieithog ar lwyfan Hwb eisoes ac rwy'n sylweddoli y bydd sefydlu llinellau cyfathrebu i fi allu teimlo'n fwy o ran o bethau yn cymryd amser.

Rwy'n ystyried bod y cyfleoedd sy'n codi o gyfuno cynnwys addysg ffurfiol ac addysg / adloniant cyfryngol yn gadarnhaol o safbwynt addysg ynnddi ei hun a hefyd o safbwynt ymgysylltiad â'r Gymraeg. Byddai mentoriaid a allai ddod â'r gwahanol elfennau at ei gilydd yn amhrisiadwy yn hyn o beth. Gallai mewnbwn gan bartïon â diddordeb posibl wrth i brosiectau esblygu arwain at ganlyniadau wedi'u targedu.

d) Rwy'n falch o'r cyfle i amlinellu fy mentrau fel enghreifftiau sy'n cynnig gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn y tymor byr, golyga hynny fi fy hun, Iwan Rhys - cyfieithydd, a gwaith a wnaed gan y Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yn 2012, ynghyd â chydweithredwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg, ac mae pawb ohonom yn gweithio yng Nghymru. Wrth edrych tua'r dyfodol, gobeithiaf y bydd fy ngwaith yn ysgogi mwynhad o'r iaith ac yn cymell plant i ymwneud â hi yn ifanc iawn gan wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd wrth wneud hynny. Gallai hyn, yn ei dro, arwain at sgiliau gwell yn y gweithlu mewn blynyddoedd i ddod. Mae gwefannau llawn gwybodaeth, deniadol ac wedi'u llunio'n dda o ran iaith yn hollbwysig er mwyn denu busnes.

e) Rwy'n marchnata fy hun fel defnyddiwr y Gymraeg ym mhob modd posibl. Mae'n greiddiol i fy musnes ac yn enghraifft, gobeithio, o arfer da.

f) O ran hyrwyddo datblygu economaidd a'r Gymraeg ar y cyd, credaf y byddai dull o gydweithio mewn tîm ar lefel lywodraethol i ystyried busnesau sydd â'r potensial i gael effaith fyd-eang yn talu ar ei ganfed ac yn help i gyflwyno cynnyrch a gwasanaethau ansawdd da o Gymru i'r byd. Mae gennyf fenter sy'n derbyn ymatebion anhygoel o gadarnhaol a allai elwa'n fawr o dîm o'r fath. Gallai hyn ymestyn, gyda'r hwb priodol, i barciau adloniant hwyliog o'r math y mae disgyblion, athrawon a rhieni yn galw amdanynt. O brofiad, rwy'n teimlo bod gofynion personél ymchwilio, adrannau, grantiau sy'n cael eu cynnig, tendro ac ati yn mynd â llawer o amser, sy'n gallu bod yn rhwystredig. Fodd bynnag, mae arnaf ddyled a diolch gwirioneddol i'r sector Diwydiannau Creadigol a Busnes mewn Ffocws am eu cymorth a'u hanogaeth ar hyd y daith. Rwyf yn rhoi camau ar waith i ymestyn allan yn fyd-eang ac mae diddordeb wedi'i fynegi'n rhyngwladol. Hoffwn wneud y gorau o'r cyfleoedd ac o bosibl, helpu ac annog busnesau newydd fel fy un i mewn rhyw fodd. Mae popeth mor newydd ar y cychwyn ac mae'n galw am gryfder i ddod o hyd i ffordd ymlaen. Byddwn yn ystyried hynny fel enghraifft o wneud y gorau o'r setiau sgiliau presennol.

CRYNODEB

1) Materion yn ymwneud â sgiliau rhifedd a llythrennedd dwyieithog gwell yn cael eu cyflawni drwy ddefnyddio cynnwys o ansawdd.

2) Materion yn ymwneud â chyflwyno sgiliau rhaglennu yn y dosbarth ar y cyd â'r Diwydiant TG a bod merched yn arbennig yn cael eu hannog o ran y nifer sy'n astudio'r pwnc.

3) Derbyn dwyieithrwydd fel y norm sy'n dathlu ein hunaniaeth genedlaethol o fewn marchnad fyd-eang.

4) Byddai cymorth o werth pan fo cyfyngiadau ar amser yn llesteirio gweithgareddau creadigol yn hytrach na gweithgareddau busnes, yn enwedig i fusnesau newydd. Byddai cymorth gyda chyfieithu cynnwys sy'n ymwneud â'r busnes yn help sylweddol.

5) Mae'r broses dendro yn y maes addysg yn gymhleth / anodd i ddarparwyr cynnwys ei ddeall.

6) Manteision cydweithio rhwng addysg a'r cyfryngau. Byddai mentoriaid sydd â phrofiad o'r ddau faes yn ddefnyddiol o ran ymgysylltiad â'r Gymraeg yn ddigidol a thrwy adloniant. Cydweithio cynnar yn arwain at ganlyniadau wedi'u targedu.

7) Amlinelliad o gynlluniau cychwynnol fy nghwmni newydd a chynlluniau ar gyfer dyfodol y busnes fel enghraifft o sicrhau gwaith i siaradwyr Cymraeg.

8) Awgrym o ddull o gydweithio mewn tîm ar lefel lywodraethol i ystyried busnesau sydd â'r potensial i gael effaith fyd-eang.

9) Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y cymorth a ddarparodd y sector Diwydiannau Creadigol, Busnes mewn Ffocws.

10) Gwneud y gorau o setiau sgiliau sy'n bodoli'n barod.

Gallaf gyfieithu'r uchod i Gymraeg ond i chi ofyn. Mae fy nghynllun i anfon fersiynau dwyieithog wedi'u llethu gan i mi fethu â dod o hyd i dempled y gellir ei lawrlwytho â chanllawiau Cymraeg. Fy ymddiheuriadau.

Tystiolaeth i'r Ymgynghoriad ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd

Gareth Ioan, Prif Weithredwr, Y Ganolfan Cynllynio Iaith

Cyflwyniad

Croesawn yr ymgynghoriad hwn yn fawr iawn. Credwn fod dyfodol y Gymraeg i raddau helaeth iawn yn dibynnu ar faterion economaidd. Mae'r modd y mae'r Gymraeg yn cael ei hystyried a'i defnyddio yng nghyswllt yr economi, ynghyd â hyfywedd economaidd cymunedau a rhwydweithiau Cymraeg, yn gwbl allweddol i ddyfodol y Gymraeg. Mae sawl gwedd ar hynny:

- y modd y rhoddir gwerth economaidd ar y Gymraeg o fewn gweithgareddau economaidd,
 - ran sgiliau iaith staff,
 - fel cyfrwng darparu gwasanaethau,
 - fel rhan annatod o'r cynnyrch, a
 - fel cyfrwng marchnata a brandio.
- y gydberthynas rhwng hynny ag arferion iaith o fewn sefydliadau a busnesau (a'r gymdeithas yn ehangach), e.e. o ran:
 - iaith gofal cwsmer,
 - iaith marchnata, a'r Gymraeg fel
 - iaith weinyddol i ddibenion 'busnes'.
- rôl yr economi yn cynnal cymunedau a rhwydweithiau Cymraeg cynaliadwy drwy:
 - sicrhau cyfleoedd cyflogaeth digonol ac amrywiol – yn enwedig yng ngogledd a gorllewin Cymru, a thrwy
 - gynyddu'r cyfleoedd cyflogaeth sydd â'r Gymraeg yn rhan allweddol o'r swydd a/neu'r model busnes a hynny led-led Cymru.

Gorolwg cyfredol

Serch y rhan allweddol mae materion economaidd yn ei chwarae yn hyfywedd y Gymraeg, daliwn mai ychydig iawn o sylw sydd wedi ei roi i'r mater mewn gwirionedd hyd yma – tu hwnt i sloganeiddio. Mae'r angen am ymchwil yn y maes hwn yn affwysol.

Mae'n wir fod *Menter a Busnes*, fel corff, wedi bod yn allweddol wrth dynnu sylw at fentergarwch ymhlith rhwydweithiau Cymraeg ers rhai degawdau bellach a'i bod hefyd yn llwyddiannus wrth weinyddu prosiectau economaidd prif-ffrwd o bersbectif dwyieithog a deu-ddiwyllyannol. Yn wir, lle ceir llwyddiannau o ran gyplysu'r Gymraeg â llwyddiannau economaidd, yn amlach na pheidio, y sector breifat ac unigolion mentrus sydd wedi arwain y ffordd.

Mae'n debyg fod yna *Grŵp Iaith ac Economi* hefyd wedi bod yn cyfarfod dan fantell y Llywodraeth ers nifer o flynyddoedd. Yn anffodus, fodd bynnag, nid ydym yn ymwybodol o unrhyw gynnyrch a ddaeth i'r pau cyhoeddus o ganlyniad i'r trafodaethau hynny. Rydym yn barod i gael ein goleuo ar y mater.

Gyda rhai eithriadau yn y gogledd orllewin, mae'r dystiolaeth fod awdurdodau lleol wedi mynd ati'n drwyadl i ystyried y cyswllt rhwng iaith ac economi yn eu hardaloedd hefyd yn hynod brin – hyd yn oed yn y de orllewin. Yn yr un modd, mae strategaethwyr rhanbarthol a chenedlaethol yn hynod swil o gynnwys hyfywedd y Gymraeg yn amcan strategol penodol i'w cynlluniau. Prin yw'r gyfeiriadaeth arwyddocaol a sylweddol at y Gymraeg mewn cynlluniau strategol economaidd, bydded yn sirol, rhanbarthol neu genedlaethol. Mae hynny, credwn ni, yn rhan ganolog o'r broblem gyfredol – sef diffyg crebwyll swyddogion polisi ar bob lefel o'r hyn a olygir yng nghyswllt iaith ac economi.

Yr angen am drafodaeth wybodus

Hawdd, efallai, yw bwrw bai ar swyddogion llywodraeth leol a llywodraeth ganolog am anwybyddu'r agweddau ieithyddol ar eu gwaith fel swyddogion datblygu economaidd. Y gwir, mae'n siŵr, yw nad ydyn nhw wedi cael yr un diwrnod o hyfforddiant nac arweiniad yn y mater. Pa ddisgwyll sydd iddyn nhw ddatblygu polisi economaidd sy'n rhoi llwyfan cadarn i gryfhau'r Gymraeg os nad ydyn nhw wedi cael arweiniad yn y pwnc? Credwn bod angen dirfawr am lawer mwy o drafodaeth a deialog rhwng cynllunwyr iaith proffesiynol a swyddogion polisi datblygu economaidd. Dim ond o'r drafodaeth honno y gallwn sicrhau strategaethau a chynlluniau datblygu economaidd lleol a rhanbarthol sy'n medru, mewn gwirionedd, cryfhau'r Gymraeg a/neu'n lliniaru effaith datblygiadau a thueddiadau economaidd ar y Gymraeg.

Credwn fod angen i swyddogion datblygu economaidd dderbyn canllaw cadarn a manwl ar beth yn union a olygir pan sonnir am y Gymraeg yn y maes datblygu economaidd. Awgrymwn, fel man cychwyn, yr agweddau canlynol:

- Bod y Gymraeg yn ased economaidd aml-agweddog ar draws Cymru.
- Bod angen cydnabod a datblygu'r Gymraeg fel sgil ar gyfer gwaith.
- Bod angen ystyried y Gymraeg, o ddifrif, fel cyfrwng darparu gwasanaethau a gofal cwsmer.
- Bod angen gweld y Gymraeg fel rhan annatod o'r cynnyrch mewn ystod amrywiol o sectorau.
- Yr angen i ddatblygu busnesau mewn sectorau iaith-gysylltiol amrywiol, e.e. manwerthu, diwydiannau gwasanaeth, twristiaeth, technoleg gwybodaeth, cyhoeddi a'r cyfryngau, gwasanaethau iechyd a gofal, llywodraeth leol, amaeth, addysg ac ati.
- Bod potensial mawr i'r Gymraeg fel cyfrwng marchnata a brandio.
- Yr angen i hyrwyddo mentergarwch preifat a mentrau cymdeithasol ymhlith siaradwyr, cymunedau a rhwydweithiau Gymraeg.

Byddai sicrhau hyfforddiant mewn swydd i swyddogion polisi datblygu economaidd ar yr agweddau uchod yn fan da i ddechrau prif-ffrydio'r Gymraeg o ddifrif mewn datblygiadau economaidd ar bob lefel.

Dim ond wrth i gynllunwyr a gweithredwyr sylweddoli potensial y Gymraeg ar gyfer creu twf economaidd y gallwn ddechrau fynd i'r afael â'r her o sicrhau hyfywedd y Gymraeg.

Rhai syniadau ymarferol

Yn fyr, awgrymwn isod rhai syniadau ymarferol y gellid eu hystyried wrth feddwl am asio datblygu economaidd a chynllunio iaith yng Nghymru:

- Ystyried sefydlu corff datblygu economaidd sy'n canolbwyntio ar hyfywedd y Gymraeg. Gallai corff o'r fath ddwyn cyfrifoldeb dros ardaloedd daearyddol penodol a/neu ddwyn swyddogaeth llorweddol drwy Gymru gyfan.
- Datblygu meini prawf cadarn i gynorthwyo swyddogion polisi i asesu cyfraniad y Gymraeg i'r economi lleol ac i asesu gwerth (ai peidio) datblygiadau economaidd newydd i hyfywedd y Gymraeg.
- Hyfforddi swyddogion polisi datblygu economaidd yng nghyswllt hanfodion cynllunio iaith perthnasol.
- Cynnwys y Gymraeg yn fwy trwyadl a chanolog mewn amcanion polisi.
- Ystyried pennu a hyrwyddo ardaloedd twf lle mae gwerth penodol yn cael ei roi ar ddatblygiadau sy'n rhoi gwerth ar y Gymraeg (a chynnig cymorth pwrpasol) er mwyn hyrwyddo hyfywedd ieithyddol lleol a rhanbarthol o fewn dalgylchoedd teithio i'r gwaith. Mae Glannau Menai, Porthmadog, Aberystwyth a Chaerfyrddin yn cynnig eu hunain fel lleoliadau posibl yn y man cyntaf.
- Sicrhau fod y Gymraeg yn cael lle llawer amlycach o fewn gwasanaethau gyrfaoedd.
- Amlygu'r bwch rhwng allbynnau addysg awdurdodau lleol o ran eu rôl yn dysgu Cymraeg i ddisgyblion a gofynion iaith swyddi a hysbysebhir ganddyn nhw eu hunain.
- Cynnal gwaith ymchwil a datblygu trwyadl i'r cyswllt rhwng iaith ac economi.

Medi James

- Mae'r dyfyniad isod wedi ei gymryd o safle we "Say Something in Welsh". Mae'n engrhaifft perffaith o wasanaeth yn y Gymraeg i rhywun diethr. Mae'n engrhaifft o berson sy'n credu bod hi'n hollol bosib croesawu person dieithr i'w busnes trwy eu cyfarch yn Gymraeg. Mae'n rhaid bod y person busnes yma yn ymwybodol o bwysigrwydd yr iaith a ddim yn ei ofni.

Welsh speaking pub in Aberystwyth

OK, well the pub doesn't actually speak Welsh, but the friendly proprietor does. Geraldine (gerryf) had a lovely experience there recently:

After looking around Aberystwyth today, my husband and I went for lunch in a pub called Y Ffarmers which is just outside Aberystwyth. We were immediately spoken to in Welsh by the owner. I was a bit slow with my responses at first but she just kept speaking Welsh in a very relaxed friendly way and after a while it just felt more natural and not odd at all. I told her in Welsh that I was learning Welsh and she said in Welsh that it was a good place to practice (in her pub). So, as well as fantastic food, we had a good workout for our Welsh. If you're in the area it's worth the trouble to get to it just because of the warm welcome, chance to ymarfer siarad Cymraeg and eat amazing food.

- Engrhaifft arall sydd gen i yw o gyflogwr mewn swyddfa yn Aberystwyth yn cyflogi person ifanc o'r ysgol Gyfun Leol (Ysgol Penglais), ddim yr Ysgol Gyfun Gymraeg, leol i weithio fel ysgrifenyddes. Er nad oedd y ferch yma wedi cael addysg Uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn dod o gartref lle nad oedd y Gymraeg yn cael sylw blaenllaw, roedd wedi cael ei thrwytho yn y Gymraeg yn ei hysgol gynradd. Wrth i'w chyflogwr newydd osod canllawiau cadarn, ond teg, ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y swyddfa h.y. ateb yn ffon yn ddwyieithog, cychwyn pob sgwrs yn Gymraeg gyda chlientiau ac ymarfer ei Chymraeg 'adnewyddol' gyda'r staff oedd yn siarad Cymraeg eisioes. Ymhen chwe wythnos roedd yn hollol hapus ac wedi ail-gyfarwyddo a siarad Cymraeg yn naturiol a chyfforddus.

Rhaid disodli'r chwedl mai codi mur rhwng pobl a wna siarad yr iaith Gymraeg yn flaengar a hyderus tra'n "bod ni gyd yn siarad Saesneg beth bynnag". Mae llawer mwy o bobl o blaid y Gymraeg yng Nghymru nag sydd yn ei herbyn.

‘Alwad am Dystiolaeth – David Ludlow

Crynodeb.

Mae'n anodd dychmygu sut y gellid cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd heblaw mewn twristiaeth lle mae budd posibl am fod yr iaith yn rhan o ddiwylliant Cymru ac felly gallai fod mantais i gynyddu'r defnydd ohoni (i adlewyrchu gofynion cwsmeriaid).

O ran datblygu economaidd yn gyffredinol, mae'n anodd gweld lle gallai fod unrhyw enillion ar fuddsoddiad gan fod bron pob busnes yng Nghymru yn cael ei gynnal yn Saesneg (gallai fod rhai eithriadau mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn gryf). Gall defnydd ychwanegol effeithio'n negyddol ar fewnfuddsoddiad hefyd, yn enwedig o'r UDA.

Gyda phwysau cynyddol ar gyllidebau'r sector cyhoeddus, byddai dargyfeirio cyllid i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg lle nad oes unrhyw dystiolaeth o enillion manteisiol ar fuddsoddiad i'w weld yn gam tuag yn ôl.

Sylwadau ar Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd.

- a) Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

Nid oes un ateb sengl gan y bydd gwahanol sectorau, fel y cyfryw, yn gweithredu mewn ffyrdd gwahanol. Gallai'r sector twristiaeth greu budd am fod iaith i'w gweld yn rhan ganolog o ddiwylliant gwlad. Fodd bynnag, mae angen meddwl am ganfyddiadau ymwelwyr hefyd, a ydynt yn disgwyl i bobl siarad â nhw yn Saesneg neu mewn iaith arall, felly gallai elfen o Gymraeg i greu syniad o leoliad fod yn fuddiol ac ni fyddai'n creu unrhyw effaith negyddol na chost a gellid ei annog. Fodd bynnag, gallai fod agwedd negyddol i hyn yn achos ymwelwyr Saesneg eu hiaith gan nad ydynt o anghenraid yn dirnad bod Cymru'n wlad wahanol ac ati, a byddant yn rhagdybied y bydd pobl yn cyfathrebu â nhw yn Saesneg. Dylai elfennau sylfaenol y croeso fod yn Gymreig gyda'r dewis i ymgorffori'r iaith mewn mentrau masnachol eraill a gallai gweithredwyr atyniadau a llety ymestyn y defnydd ohoni o bosibl. Fodd bynnag, dylid nodi, er enghraifft, mai'r man sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer twf ym maes twristiaeth yw Tsieina ac mae gwaith ymchwil cyfredol yn awgrymu eu bod eisiau i bobl sgwrsio â nhw yn eu hiaith eu hunain.

Wrth ystyried sectorau busnes eraill rhaid ystyried anghenion y cwsmer a gan eu bod yn annhebygol o fod yn siaradwyr Cymraeg, bydd hyd yn oed pobl o Gymru yn defnyddio Saesneg gan amlaf fel iaith busnes, ac mae angen cyfathrebu â nhw yn yr iaith a ddisgwyliant ac a ddeallant. Felly rhaid osgoi ychwanegu costau (am ddim enillion ar fuddsoddiad) i fusnesau ar gyfer cyfieithu, argraffu ac ati, yn enwedig os yw eu prif gwsmeriaid wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ac efallai'n gweld y dyblygu'n gostau sy'n rhaid iddynt eu talu, gan beri iddynt edrych o gwmpas am gyflenwr arall.

Mae'n bosibl y byddai'n ymarferol cefnogi costau labelu sy'n datgan 'Wedi'i wneud yng Nghymru' yn Gymraeg a Saesneg, gyda logo efallai. Gallai hyn godi ymwybyddiaeth gadarnhaol o Gymru fel lleoliad busnes.

Rwy'n ymwybodol fod darpar fewnfuddsoddwyr hyd at ychydig flynyddoedd yn ôl yn gofyn a oedd pawb yn siarad Saesneg, felly gall iaith effeithio ar benderfyniadau ynghylch mewnfuddsoddi, yn enwedig o'r Unol Daleithiau lle roedd penderfyniadau ynghylch lleoli yn y gorffennol yn cael eu gwneud yn rhannol ar sail y ffaith fod pobl y DU yn siarad yr un iaith â nhw.

b) Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Wrth edrych yn fanwl ar y cwestiwn hwn o safbwynt ariannol, mae'n anodd gweld sut y gellid cael enillion cadarnhaol ar fuddsoddiad mewn perthynas â datblygu'r defnydd o'r Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd. Derbynnir mai Saesneg yw iaith busnes felly byddai defnyddio'r Gymraeg gyda grŵp o gleientiaid nad yw'r mwyafrif ohonynt yn siarad yr iaith, ac nad ydynt, bron yn bendant, yn ei defnyddio yn eu busnes o ddydd i ddydd, i'w weld yn wariant diangen. Mae gofyn i'r rhan fwyaf o sefydliadau'r sector cyhoeddus ddarparu gwybodaeth mewn fformat dwyieithog, ac er na wnaed unrhyw ymchwil i wirio'r sefyllfa, mae dyn yn cwestiynu faint o'r wybodaeth a ddarparwyd i breswylwyr a busnesau yng Nghymru sy'n mynd yn syth i'r bin ailgylchu heb ei agor na'i ddarllen hyd yn oed gan nad yw'r derbynwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd a bron yn bendant, ddim gyda'u cleientiaid. Byddai mynnu bod y sector cyhoeddus yn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ym maes Datblygu Economaidd ond yn cynyddu costau cyfieithu, argraffu ac ailgylchu heb ddim mantais gadarnhaol. Mae'n destun pryder nad oes unrhyw gorff sector cyhoeddus wedi gofyn i'w gwsmeriaid a fyddent yn dymuno derbyn gwybodaeth mewn fformat uniaith a beth fyddai'r iaith honno. Mae profiad personol a busnes yn awgrymu fod potensial i arbed costau drwy beidio â darparu gwybodaeth ddwyieithog bob amser tra'n cydnabod yr angen i ddarparu'r wybodaeth honno yn Gymraeg os gofynnir amdani. Pe bai hyn yn creu arbedion, gellid eu defnyddio i gynorthwyo Cynghorau i ddarparu mwy o wasanaethau cymorth busnes nag ar hyn o bryd.

c) Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

1) Gofyn i fusnesau ym mha iaith y dymunant gyfathrebu, ac os yw hyn yn creu arbedion, defnyddio unrhyw arbedion i gefnogi datblygiad a thwf busnesau drwy ragor o gymorth marchnata (naill ai'n uniongyrchol i fusnesau neu i hyrwyddo Cymru) neu drwy gryfhau gwasanaethau cymorth busnes i'r sector cyhoeddus.

2) Defnydd cynnil o'r Gymraeg mewn deunydd hyrwyddo twristiaeth i gryfhau agweddau diwylliannol ymweliad â Chymru.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w rhoi ynglŷn â phwynt d), ond yng nghyswllt pwynt e), mae'n bosibl y bydd enghreifftiau mewn ardaloedd lle ceir llawer o siaradwyr Cymraeg ond byddai'n anodd mesur y budd os nad oes grŵp rheoli yn yr un ardal. Gallai pwynt f) fod yn berthnasol mewn ardaloedd lle ceir llawer o siaradwyr Cymraeg ond yn gyffredinol, mae'n anodd gweld o ble y daw'r enillion ar fuddsoddiad.

Hoffwn fynegi pryder ei bod hi'n ymddangos fod prif bwyslais yr 'Alwad am Dystiolaeth' yn seiliedig ar y rhagdybiaeth fod budd i'w gael heb gynhyrchu unrhyw ymchwil neu dystiolaeth i gefnogi hyn.

Yn yr adran o dan y pennawd, 'Wrth wneud hynny, gallech o bosibl roi sylw i'r canlynol', cyfeirir at:

Polisiâu caffael – a yw hyn yn awgrymu na fydd cytundebau'n cael eu rhoi i fusnesau heb bolisi ffurfiol ar y Gymraeg neu fusnesau nad ydynt yn cyflogi siaradwyr Cymraeg

Polisiâu cyflogaeth – a yw hyn yn awgrymu bod gofyn i gwmnïau gyflogi % o siaradwyr Cymraeg dan ystyriaeth?

Cymorth i fusnesau – yn gyffredinol fel uchod

Barn am y Gymraeg a datblygu economaidd

Clive James

1. Datblygu economaidd yr ardaloedd Cymraeg

- A yw'r problemau yn wahanol mewn ardaloedd Cymraeg (neu gymuned Cymraeg dinesig) nag yn ardaloedd eraill yng Nghymru. E.e. rhwng de Sir Bembro a'r Preseli ?
- Efallai'r gwahaniaeth yw'r pellter rhwng ardal Cymraeg a'r farchnad, felly:
 - Yr angen sicrhau argaeledd Band Llydan cyflym a chryf ym mob ardal yng Nghymru
 - Sicrhau rhwydwaith ffyrdd addas ar gyfer yr 21ain canrif a gwasanaethau da ar y rheilffyrdd lleol (o leiaf pob awr)
- Chwalu'r myth cynllunio, neu ddileu rhwystrau cynllunio, sy'n atal sefydlu busnesau bach ym mhob man (noder fod tai yn derbyn caniatâd cynllunio ym mhob man !)
- Gyda busnesau teulu, yn aml nid oes mab / merch gyda diddordeb cymryd drosodd. Fel canlyniad gwelir dirywiad yn y busnes wrth i'r perchennog parhau, gyda'r busnes yn cau adeg marwolaeth. Angen adnabod y busnesau hyn a darparu cyngor, e.e. recriwtio partner a fydd maes o law cymryd drosodd, pryniant gan y gweithlu neu reolwyr, ayyb. E.e siop a phost cydweithredol Llanfrothen yn agor mewn adeilad arall syth bin ar ôl siop 'ystafell ffrynt' yn cau.
- Hybu plant teuluoedd gyda rhiant / rhieni hunan cyflogedig, e.e. amaethwyr, sefydlu busnes, efallai mewn adeilad segur ar y fferm
- Annog busnesau tyfu uwchben y trothwy "cofrestru ar gyfer TAW" ac felly cyflogi pobl eraill [cymhlethdod TAW yn dychryn llawer
- Sicrhau fod ymdrechion cynorthwyo cychwyn neu dyfu busnes yn cael eu cyflwyno rhydd o eiriau technegol gan bobl sy'n deal rhedeg busnes bach gydag ymatebion sydyn wedyn

2.Manteision gweithredu trwy'r Gymraeg

- Ennill cefnogaeth yr elfen o'r boblogaeth sy'n gweld gweithredu trwy'r Gymraeg o bwys iddynt
- Efallai bydd y bobl busnes yn darganfod ei fod e'n haws gweithredu trwy'r Gymraeg ac nid Saesneg ail iaith
- Datblygu rhwydwaith o gysylltiadau ymhlith busnesau bach lleol eraill.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd

Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn croesawu'r cyfle i fynegi barn wrth Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd Llywodraeth Cymru. Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yw llais awdurdodol busnesau bach yng Nghymru. Gyda 10,000 o aelodau, Uned Polisi'r Gymraeg, dau bwyllgor rhanbarthol a deuddeg pwyllgor cangen; mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru mewn cysylltiad cyson gyda busnesau bach ar lawr gwlad. Mae'n holi'r aelodau mewn arolwg misol ar-lein, yn ogystal â chynnal arolwg blynyddol ar ystod eang o faterion a phryderon y mae busnesau bach yn eu hwynebu.

Mae'r cyflwyniad hwn yn ategu'r dystiolaeth lafar a roddodd Iestyn Davies i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar 22 Mai 2013.

Cefndir

Cynhaliwyd ymchwil diweddaraf Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ar farn aelodau am faterion yn ymwneud â'r Gymraeg ym mis Medi 2012. (Gweler y cyflwyniad atodedig.) Nid oedd yn ymchwil manwl, ond canfuwyd bod:

- Tua chwarter busnesau Cymru'n defnyddio'r Gymraeg; y mwyafrif i gyfathrebu â chwsmeriaid a chyflenwyr.
- Tua phumed yr aelodau o Gymru â diddordeb mewn cymorth i annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn y busnes.
- Cymorth ariannu yn cael ei nodi fel y math mwyaf buddiol o gymorth i helpu gyda hyn.
- Ymhlith y busnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg, y prif ddefnydd oedd marchnata (37%), cyfathrebu mewnol (33%) ac ymgyrchoedd hysbysebu (33%). Efallai bod rhai enghreifftiau da o ddefnydd o'r Gymraeg ymysg busnesau sy'n defnyddio'r iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol, ond nid oes gennym ragor o fanylion.
- Yn yr un modd, o ran marchnata, hysbysebu a phecynnu, mae busnesau bach yn gweld rhywfaint o werth defnyddio'r Gymraeg yn y ffordd hon. Eto, mae angen rhagor o fanylion.
- Yn ychwanegol at gymorth ariannu i annog y defnydd o'r Gymraeg o fewn busnesau, nododd yr ymatebwyr hefyd yr angen am gymorth ac arweiniad ymarferol. Dyma faes y gallai Llywodraeth Cymru ganolbwyntio arno.

Materion Allweddol

Safonau'r Gymraeg

Mae pryder y gall y Safonau newydd arfaethedig gael effaith niweidiol ar fusnesau. Mae hyn yn sgil diffyg eglurder ynghylch y disgwyliadau ar fusnesau bach, a'r amserlen weithredu mewn unrhyw feysydd a fydd yn effeithio ar fusnesau bach.

Er bod y safonau arfaethedig yn cwmpasu Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a pharciau cenedlaethol yn unig ar hyn o bryd, mae disgwyl safonau pellach i ddilyn. Gallai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r pryder am yr effaith ar fusnesau ac osgoi effaith negyddol ar ddatblygu economaidd drwy ddilyn arddull 'meddwl yn fach i ddechrau' gyda rheoliadau a disgwyliadau yn ymwneud â materion iaith sy'n effeithio ar fusnesau bach.

Hoffai Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru weld canllawiau yn egluro'r disgwyliadau ar fusnesau bach, ynghyd ag unrhyw amserlen berthnasol ar gyfer cydymffurfio, yn cael eu cyhoeddi wrth ochr y fersiwn derfynol o Safonau'r Gymraeg. Roedd staff Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wedi dechrau gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg ar oblygiadau'r safonau a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer busnesau bach.

Cronfeydd Strwythurol

Yn dilyn cyhoeddi safonau'r Gymraeg fel y cytunwyd dan Fesur 2011, mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru'n credu y bydd cyfle i ddefnyddio cronfeydd strwythurol yr UE i sicrhau fod gan fusnesau bach gapasiti i gyflenwi gwasanaethau yn ôl y safonau sy'n cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn meysydd polisi fel caffael, lle gall rheoliadau cynyddol olygu bod cwmnïau bach dan anfantais gystadleuol. Mae cwmnïau bach yn fwy tebygol o fod yn rhai lleol. Felly mae'n hanfodol ymgymryd â datblygiad y Gymraeg dan Fesur 2011 wrth ochr datblygu economaidd lleol.

Cydlynu ymchwil ar y Gymraeg ar draws Llywodraeth Cymru

Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru'n deall bod Uned Gwybodaeth am y Farchnad Lafur Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil ar anghenion gallu yn ymwneud a'r Gymraeg mewn rhai sectorau penodol. Er bod yr ffordd hon o adeiladu sylfaen o dystiolaeth i'w chroesawu, mae angen sicrhau fod adrannau o fewn Llywodraeth Cymru yn cydweithio yn y ffordd orau bosib. Er enghraifft, ychydig o gyfateb sydd rhwng y sectorau a ddewiswyd a strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru yn ôl sector. Ymddengys ei fod hefyd yn digwydd ar wahân i waith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd.

Rhaid i unrhyw brosiect ymchwil yn y dyfodol fod yn gwbl integredig gyda gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd, a rhaid ei gwblhau yng nghyd-destun strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru.

Ymchwil yn y dyfodol

Cyfngedig yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd ynghylch swyddogaeth y Gymraeg mewn datblygu economaidd, a'i swyddogaeth bosibl yn y dyfodol. Mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru mewn trafodaethau gyda Dr Martin Rhisiart, Prifysgol De Cymru, am ymchwil pellach ar werth y Gymraeg i fusnesau bach.

Sylwadau gan Gwmni Tinopolis i'r grwp Gorchwyl a Gorffen yr iaith Gymraeg a datblygiad economaidd.

Cefndir:

Tinopolis yw un o'r cwmnïau teledu annibynnol mwyaf ym Mhrydain. Rydym yn gweithio ym mhob maes – ffeithiol, adloniant, chwaraeon, drama a'r cyfryngau digidol. Mae ein rhaglenni yn cael eu darlledu dros y byd ac mae gennym bresenoldeb pwysig yn y farchnad gyfryngau fyd-eang. Yn yr UDA rydym yn cynhyrchu rhaglenni teledu i bob un o'r prif rwydweithiau.

Mae grwp Tinopolis yn cynnwys rhai o'r enwau mwyaf eu parch yn y sector teledu. Mentorn Media yw cynhyrchydd ffeithiol mwyaf profiadol y DU. Sunset+Vine yw'r cynhyrchydd chwaraeon annibynnol mwyaf blaenllaw. Enillodd Daybreak wobrau lu am eu dramau ac mae gan Pioneer Productions enw da dros y byd am raglenni ffeithiol arbenigol sy'n torri tir newydd. Yn yr Unol Daleithiau mae A. Smith and Co. yn arwain y farchnad mewn adloniant ffeithiol ac mae BASE Productions yn gyfrifol am raglenni ffeithiol ac adloniant ffeithiol sy'n arloesi yn y maes. Yn fwy diweddar ymunodd Passion Distribution a Firecracker a'r Grwp – dau gwmni hynod lwyddiannus arall sy'n cryfhau strategaeth Tinopolis i ddatblygu ei gyrhaeddiad creadigol a daerayddol.

Rydym hefyd yn cynnig cefnogaeth rhaglenni aml-blattform yn ogystal ag adnoddau digidol i'r sectorau corfforaethol ac addysg.

Ond mae gwreiddiau'r cwmni yn holl bwysig i ni. Tinopolis Cymru yw cwmni teledu annibynnol rhanbarthol mwyaf Prydain. Mae'r gair Tinopolis gyfystyr a Llanelli ac mae'n bwysig i ni bod yr hunaniaeth unigryw a ddaw o hynny a Chymreictod y cwmni yn cael ei hyrwyddo yn yr enw dros y byd.

Braslun o'r prif bwyntiau

- Mae Tinopolis yn gwmni sy'n fwriadol wedi dewis mai'r Gymraeg yw iaith y gweithle – mae'r gwaith o fudd economaidd mawr mewn ardal difreintiedig ond hefyd yn fudd economaidd i siaradwyr Cymraeg
- Mae pobl ifanc felly yn gallu aros yn eu hardal wrth gael gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae siarad Cymraeg yn y gweithle yn normaleiddio'r iaith tu allan i'r gwaith hefyd
- Dylai'r Llywodraeth sicrhau fod ardaloedd difreintiedig cefn gwlad Cymru lle mae'r iaith yn gwanhau yn cael mwy o siawns i ennill cytundebau caffael – wrth fynnu pwysigrwydd i ystyriaethau economaidd, daearegol a chymdeithasegol
- Dylai cynllunio economaidd fynd law yn llaw a'r iaith
- Ni ddylid gweld yr iaith fel rhwystr i ddatblygu'n gwmni rhyngwaladol – mae deall anghenion dwyieithrwydd a diwylliannau gwahanol yn gallu bod yn arf marchnata pwerus dros y byd

- Dylid rhoi cymorth ariannol i fusnesau i gael sicrhau arwyddion dwyieithog ag ati gan wneud yr iaith yn gwbl weledol – gallai hyn ychwanegu at werth economaidd y diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn ogystal ag ychwanegu at normaleiddio'r iaith
- Dylai dwyieithrwydd yng Nghymru ddiffinio cymdeithas a chymuned. Ni ddylai'r Gymraeg gael ei gweld fel rhwystr i ffyniant cwmni ond yn hytrach yn arf i lwyddo.

a) Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

b) Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

c) Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

d) Enghreifftiau o fusnesau sydd wedi bod ar eu hennill o farchnata eu hunain fel rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg

Sefydlwyd Tinopolis gydag arian cyhoeddus wrth S4C i gyfleu rhaglenni dyddiol newydd i'r Sianel. Roedd ein presenoldeb yn y gorllewin yn ran o'r cytundeb hwnnw. Roedd yn benderfyniad bwriadol mewn ardal lle roedd mawr angen swyddi a hybu'r iaith Gymraeg. Er bod y cytundeb gwreiddiol wedi newid sawl gwaith rydym fel cwmni wedi cadw at ethos bwriadol cychwynnol y cwmni ac wrth wneud hyn yn creu gwerth aruthrol ychwanegol i gyllid S4C wrth greu gwaith a chryfhau economi yn un o drefi tlotaf Cymru. Rydym hefyd wedi creu cyfleoedd a gwaith da trwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hyn fod nifer o bobl ifanc yr ardal wedi gallu aros yn lleol i weithio a magu teulu. Nid yw'n defnydd o'r Gymraeg a'r buddsoddiad sylweddol yn yr iaith erioed wedi bod yn rwystr i ehangu'r cwmni yn rhyngwladol.

Cymraeg yw iaith ein swyddfeydd yn Llanelli. Mae hyn yn cael yr effaith o normaleiddio'r iaith i bawb sy'n gweithio yno. Rydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog ond mae blaenoriaeth i'r Gymraeg fel iaith gweithredol y cwmni.

Nid yw'r defnydd bwriadol yma o'r Gymraeg yn rwystr. Mae tueddiad yng Nghymru i feddwl mai cwmnïau cyhoeddus fyddai'n gofyn am ddefnydd o'r Gymraeg ond rydym ni'n dangos bod y Gymraeg yn werthfawr mewn cwmni preifat sylweddol hefyd. Mae Tinopolis yn gwmni Cymraeg ac mae hynny yn rhan o'n brand ni ar draws y byd. Mae hynny yn gymorth i ni fod yn wahanol, i sefyll allan.

Un o'r camau pwysicaf gallai'r Llywodraeth ei gymryd wrth ystyried datblygiad economaidd a'r iaith yw mynnu fod ystyriaeth ieithyddol ynghlwm a chytundebau caffael. Byddai hyn yn gwella siawns a chyfleoedd cwmnïau mewn ardaloedd mwy Cymreig i ennill gwaith – yn enwedig gan mai dyma rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig lle mae gwaith yn brin iawn. Gallai mantais ieithyddol felly fod yn fantais

pwysig i'r difreintiedig yng Nghymru ac arwain at sgil effaith i normaleiddio'r Gymraeg fel iaith fyw mewn gweithle.

Oes ffaeleddau yn y sector gyhoeddus trwy Gymru wrth beidio ag edrych ar ffyrdd i normaleiddio'r Gymraeg? Oes gormod o bwyslais ar yr angen i gyfieithu dogfennau neu anghenion caffael o'r Saesneg i Gymraeg er mwyn ticio bocsys yn unig yn hytrach na sicrhau bod y Gymraeg yn greiddiol, yn enwedig yn yr hen gadarnleoedd sydd bellach wedi colli diwydiant a gwaith? Byddai datblygu economaidd yn y modd hyn yn gallu cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg hefyd.

Mae Tinopolis yn gwmni rhyngwladol o bwys, ond mae gwreiddiau'r cwmni yn Sir Gaerfyrddin a'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn bwysig i ni wrth farchnata dros y byd. Mae'r iaith Gymraeg yn amlwg ar gardiau busnes a gohebiaeth y cwmni ac yn ein gwneud yn wahanol, mae'n ein diffinio mewn ffordd unigryw ac mae'n creu hunaniaeth bwysig i'r cwmni.

Yng Nghymru rydym yn rhy euog o weld Saesneg fel yr iaith bwysig a'r Gymraeg fel iaith leiafrifol ranbarthol. Ond mae gwledydd eraill yn hen gyfarwydd a dwyieithrwydd a'r angen i fod yn sensitif i ddiwylliannau gwahanol. Rydym wedi gweld fod hyn yn arbennig o wir yn yr Unol Daleithiau – er mai Saesneg yno hefyd yw'r iaith fawr – mae'r gallu i ddangos ein bod fel pobl yn deall anghenion lleiafrifol yn ein gwneud yn apelgar. Mae'r hunaniaeth yma yn rhan holl bwysig o farchnata'r cwmni ac o lwyddiant cynyddol y cwmni.

ch) Enghreifftiau o arferion da o ran cyflogi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg

Mae normaleiddio iaith yn y gweithle yn arwain yn bendant at normaleiddio'r iaith ym mywydau'r staff tu allan i'r cwmni hefyd. Ac mae'n bolisi bwriadol iawn ganddom i hybu'r defnydd o'r Gymraeg wrth wneud yr iaith yn iaith bob dydd y gwaith. Does dim dwywaith mai Saesneg fyddai nifer o'r staff ifanc yn dewis siarad a'i gilydd onibai eu bod yn gweithio mewn cwmni sydd a pholisi iaith Gymraeg. Mae hyn yn golygu bod y bobl ifanc hynny yn dod i weld budd economaidd personol o allu'r iaith. Mae ganddynt swyddi da, ac un o'r gofynion yw eu gallu i siarad Cymraeg. Rydym wedi sylwi bod y Gymraeg wedyn yn dod yn ffordd o fyw iddynt tu allan i'r gweithle hefyd – yr iaith a siaredir a chymar, neu wrth benderfynnu trosglwyddo'r iaith i'w plant oherwydd bod gwerth economaidd i'r iaith.

Nid pawb sy'n gallu siarad Cymraeg wrth gael gwaith yn Tinopolis yn Llanelli. Ond gan mai Cymraeg yw iaith ein busnes yn enwedig wrth gynhyrchu rhaglenni i S4C, Cymraeg yw iaith y gwaith. Fel cwmni rydym yn buddsoddi mewn gwersi Cymraeg i staff sydd ddim yn siarad Cymraeg, ac yn talu am wersi gloywi iaith yn y gweithle i'r rhai sy'n llai hyderus. Mae'r staff di-Gymraeg yn cael eu hannog bob amser i siarad Cymraeg ac maent yn fuan iawn yn magu hyder i siarad Cymraeg gyda gwesteion ag ati i'r stiwdio.

Canlyniad hyn yw bod yr iaith yn dod yn rhywbeth gwbl naturiol. Ond mae'n fwy na hynny hefyd. Rydym wedi rhoi sgil newydd i unigolion sy'n golygu os byddant yn gadael Tinopolis i weithio i gwmni arall neu yn llawrydd mae ganddynt allu ychwanegol i gynnig mwy o gyfleoedd iddynt.

Arian cyhoeddus sy'n talu am S4C. Wrth weithredu yn y modd yma tuag at y Gymraeg mae gwerth S4C yn sir Gaerfyrddin, nid yn unig yn economaidd, ond hefyd yn ieithyddol yn talu ar ei ganfed.

dd) Awgrymiadau ar gyfer hwyluso'r gwaith o hybu datblygu economaidd a'r Gymraeg gyda'i gilydd

Un o'r camau pwysicaf yn bendant fyddai i'r Llywodraeth a Chynghorau i weld datblygu economaidd a ieithyddol yn mynd law yn llaw. Nid wrth ddarparu dogfennau sychlyd ond wrth wneud yr iaith yn amod. Mae hawl gan gytundebau caffael i fynnu bod ystyriaethau economaidd, daearyddol a chymdeithasegol yn bwysig. Byddai dangos pwysigrwydd i'r iaith hefyd yn gallu rhoi gwell siawns i gwmnïau bach – ac onid cefndir entrepreneuriaidd o gwmnïau bach sydd gan Gymru wedi'r cwbl? A rhain sydd mewn peryg o gael eu llesteirio gan anghenion caffael sy'n gweithio'n erbyn y Cymry ac o blaid cwmnïau mawrion rhyngwladol.

Dylai dwyieithrwydd yng Nghymru ddiffinio cymdeithas a chymuned. Ni ddylai'r Gymraeg gael ei gweld fel rhwystr i ffyniant cwmni ond yn hytrach yn arf i lwyddo. Mae'r archfarchnadoedd preifat mwyaf yng Nghymru wedi gweld y synnwyr masnachol o gael arwyddion Cymraeg ac mae hyn yn normaleiddio'r iaith. Mae cwmni fel John Lewis – ac mae'n bwysig cofio yn y cyd-destun hwn mai John Lewis yw un o'r siopau mawr mwyaf llwyddiannus – wedi cofleidio'r Gymraeg. Maent wedi dangos parch wrth ddefnyddio Cymraeg cywir a deallus ar lawr y siop yn ogystal ac yn y swyddfeydd tu cefn. Maent yn sicrhau bod ganddynt staff sy'n medru'r Gymraeg (eto yn rhoi budd economaidd i unigolion yng Nghymru) ac maent yn frwdfrydig tuag at ddigwyddiadau Cymraeg ee partneriaethu gyda Llenyddiaeth Cymru wrth gynnal digwyddiadau yn y siop. Mae hyn yn ran o'u strategaeth bwriadol nhw i fod yn ran o'r gymuned – ac mae hynny'n talu iddynt yn economaidd.

Dylai grantiau fod ar gael i bob cwmni yng Nghymru i gael arwyddion dwyieithog ac er mwyn rhoi gwersi Cymraeg i'r staff gyda budd economaidd yn resymeg amlwg tu ol i'r grantiau – nid dim ond y budd o normaleiddio'r Gymraeg. Yn ogystal a hyn byddai defnydd amlwg o'r Gymraeg yn arf marchnata o ran y diwydiant twristiaeth – byddai'n gwneud Cymru yn wlad ddeniadol wahanol i bob gwlad arall.

Ond heb os y cyfraniad mwyaf gallai'r Llywodraeth ei wneud yw cynllunio economaidd law yn llaw a'r iaith yn yr hen gadarnleoedd – cynllun fyddai'n diogelu cefn gwlad Cymru yn ogystal a bod yn gymorth i gadw'r iaith yn fyw. Mae Cymru yn wlad rhy fach i gael ei swyddi a'i breintiau economaidd wedi eu canoli yng Nghaerdydd. Mae angen bywyd economaidd ar gefn gwlad Cymru yn ddybryd ac mae angen sicrhau bod cytundebau caffael yn rhoi mantais bwriadol i ardaloedd fel

byn. Byddai cynllunio economaidd i gefn gwlad Cymru gan ddefnyddio'r arian cyhoeddus sydd eisoes yn nwylo'r Llywodraeth yn gallu cadw pobl ifanc a theuluoedd ifanc yno, byddai'n cadw ysgolion ar agor a gwaith i athrawon, byddai'n creu economiau bach newydd i ddarparu cyfleusterau i'r rhain ee siopau bach a busnesau bychain. Byddai'n haws i bobl fentro. Byddai'n caniatáu mynd ati o ddifri i geisio achub yr iaith rhag crebachu ymhellach wrth roi'r iaith a'r economi law yn llaw. Yn fwy na dim byddai'n gwneud Cymru yn wlad decach i bawb.

Tystiolaeth i'r Ymgynghoriad ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd John Roston, Welsh Music Foundation

Cwmni dielw sy'n derbyn arian craidd gan Lywodraeth Cymru yw'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig. Y Sefydliad yw asiantaeth Datblygu Diwydiant Cerddoriaeth Cymru. Fe'i sefydlwyd yn 2000, a dyma'i ddatganiad cenhadaeth:

Mae'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig yn cynorthwyo, datblygu a hyrwyddo sector cerddoriaeth cynaliadwy yng Nghymru, ac mae'n gweithio gydag unrhyw fenter gerddoriaeth neu gerddor sy'n gweithio yng Nghymru, beth bynnag fo'i *genre* neu ei iaith, sydd wedi, neu wrthi, yn datblygu ffocws masnachol i'w weithgareddau.

Y nod ehangach yw economi gerddoriaeth Gymreig arloesol sy'n creu ac yn cynnal swyddi; yn cadw, yn ecsbloetio ac yn allforio ei Eiddo Deallusol, yn ail-fuddsoddi yng Nghymru ac yn denu mewnfuddsoddiad pellach ar ffurf talent a menter.

Tystiolaeth i Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd.

Crynodeb

Mae'r cyflwyniad hwn yn darparu tystiolaeth:

1. Fod gwaith y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig drwy ei Strategaeth Iaith Gymraeg i gefnogi a datblygu'r Sector Cerddoriaeth Gymraeg yng Nghymru wedi bod yn llwyddiant enfawr i'r sector drwy sicrhau twf cynaliadwy, creu swyddi a chreu a diogelu busnesau; nad yw'r strategaeth yn cael arian craidd gan EST; y dylid mabwysiadu polisi i roi arian craidd i'r strategaeth drwy'r EST yn cydnabod ei gwerth a'i photensial economaidd.
2. Bod y farchnad wedi newid i'r diwydiant cerddoriaeth a bod hynny'n cynnig cyfle gwych i'r bobl sy'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg allu gweithio'n rhyngwladol; y dylid ariannu gwaith y Sefydliad drwy eu partneriaeth Cerdd Cymru newydd â Chyngor Celfyddydau Cymru er mwyn datblygu'r cyfleoedd hynny i fusnesau ac artistiaid cerddoriaeth Gymraeg sy'n dymuno efelychu 'Model Canada'.
3. Y dylid creu neu gefnogi clystyrau cerddoriaeth yng Nghymru drwy strategaeth glystyru greadigol ehangach gyda busnesau cerddoriaeth Gymraeg yn ganolog iddi gan y byddai'n cyflwyno cyfleoedd newydd i'r busnesau hynny yng Nghymru a'r DU.

Naratif

Pan sefydlwyd y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig yn 2000, ni chynigai unrhyw gymorth i'r Diwydiant Cerddoriaeth Gymraeg. Ar ôl lobiö, cynigodd Bwrdd yr Iaith gymorth ariannol, a chydariannwyd swydd Swyddog y Gymraeg ar gyfer y Sefydliad

Cerddoriaeth Gymreig. Mae dangosyddion perfformiad allweddol Swyddog y Gymraeg yn dystiolaeth o lwyddiant y swydd. Dyma'r data ar gyfer nifer yr ymholiadau a ddaeth i law a'r cymorth a roddwyd i fusnesau cerddoriaeth Gymraeg:

2009/10 298

2010/11 582

2011/12 631

2012/13 748

Mae'n amlwg fod gwaith y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig yn y sector Cymraeg yn sicrhau twf cynaliadwy. Fodd bynnag, daw tymor yr arian hwn o dair blynedd i ben yn 2014. Byddai'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig yn croesawu dull mwy cydgysylltiedig o gynnig cymorth busnes arbenigol a strategol i'r Diwydiant Cerddoriaeth Gymraeg drwy bolisi parhaus o ddatblygu economaidd a chydabyddiaeth fod angen cymorth busnes arbenigol ar y sector hwn.

Mae'r diwydiant cerddorol wedi newid. Unwaith roedd angen i gân - calon y diwydiant cerddoriaeth - gael ei chynhyrchu'n ffisegol, ond opsiwn, bonws neu nwydd yw cynhyrchu bellach yn hytrach na rheidrwydd. Mae technoleg ddigidol yn galluogi'r sawl sy'n agos at y gân - artistiaid, cerddorion a busnesau cerddoriaeth cysylltiedig - i ddod yn fyd-eang drwy wasgu botwm. I'r rhai hynny sy'n gweithio ym maes cerddoriaeth Gymraeg, dyma gyfle newydd cyffrous. Mae'n agor y drysau ar fyd lle nad yw Saesneg yn iaith gyntaf, lle nad yw iaith yn ystyriaeth mewn cerddoriaeth, lle mae cerddoriaeth 'y Byd' yn golygu unrhyw gerddoriaeth a gynhyrchwyd ym mamiaith gwlad.

I'r Diwydiant Cerddoriaeth Gymraeg, mae hynny'n golygu nad Cymru yw'r farchnad bellach, ac nid oes angen mynd i'r gost enfawr sy'n gysylltiedig â mynd i mewn i farchnad newydd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn cynnig peth cymorth busnes i fusnesau sy'n dymuno gweithio dramor. Mae'r Gronfa Datblygu Busnes Tramor yn enghraifft o arfer da sydd hefyd yn cefnogi ac yn gweithio ar ran y sector cerddoriaeth. Fodd bynnag, mae cymorth Llywodraeth Cymru i helpu i nodi pobl allweddol mewn marchnadoedd rhyngwladol yn ddiffygiol yng nghyswllt cerddoriaeth. Yr hyn sydd ei angen yw cymorth arbenigol, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddarparu drwy bartneriaeth ryngwladol newydd y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig â Celfyddydau Rhyngwladol Cymru - Cerdd Cymru. Byddai'r cymorth hwn yn helpu busnesau cerddorol yng Nghymru i nodi a chreu strategaeth ar gyfer dewis marchnadoedd rhyngwladol; a byddai'n cynnig cymorth estynedig, drwy CCMW, i feithrin perthynas ag unigolion busnes allweddol yn y marchnadoedd hynny sydd â blaenoriaeth, i adlewyrchu arfer da Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r Cyngor Prydeinig yn nodi unigolion allweddol sy'n gysylltiedig â'r celfyddydau yn rhyngwladol. Byddai hefyd yn cysoni cymorth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru i fusnesau cerddorol â'r cymorth sydd ar gael i gerddorion ac artistiaid drwy Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, i sicrhau'r cyfleoedd gorau, yn enwedig os oes

modd ffurfio partneriaethau rhwng gwibdeithiau artistiaid a theithiau busnes.

Byddai cynnig cymorth arbenigol i gerddorion a busnesau cerddoriaeth Gymraeg yn y ffordd hon yn arwain at dwf busnesau sy'n bodoli'n barod, ac yn ysgogi economi cerddoriaeth greadigol yng Nghymru i ddatblygu uchelgais mewn perthynas â Chymru ac yn rhyngwladol. Mae'r arfer da hwn wedi'i sefydlu'n llwyddiannus tu hwnt yng Nghanada. Gwelodd Canada dwf flwyddyn ar ôl blwyddyn yn y sector cerddoriaeth; creu busnesau cerddoriaeth newydd yng Nghanada; cadw mwy o hawliau yng Nghanada ac ecsbloetio'r hawliau hynny'n rhyngwladol; partneriaethau cyhoeddus-preifat cynaliadwy; twf y defnydd o'r Ffrangeg yn Quebec (lle mae'n iaith gyntaf) ac yn y wlad yn fwy cyffredinol; a mentrau newydd, fel Gwobr Gerddorol Polaris, y fenter allforio cerddoriaeth Canadian Blast, arian twristiaeth a mwy, ac mae cyrhaeddiad rhyngwladol i'r rhain oll.

Hefyd, dylai polisi o gefnogi'r sector cerddoriaeth Gymraeg fod yn rhan o unrhyw bolisi ehangach o gymorth i glystyrau diwydiant creadigol yng Nghymru. Ceir llawer o dystiolaeth am fanteision clystyrau busnes, a dim digon yn digwydd o'r hanner i gefnogi, cychwyn neu hyrwyddo clystyrau creadigol yng Nghymru, y dylai busnesau cerddoriaeth Gymraeg fod yn rhan ganolog ohonynt. Byddai hyn nid yn unig yn cydnabod bod y Sector Cymraeg yn rhannu llawer sy'n debyg â'r sector cerddoriaeth ehangach, ond byddai hefyd yn cadarnhau bod gan y sector ei arbenigeddau, ei gyfleoedd a'i rwystrau ei hun. Byddai bod yn rhan o glwstwr cerddoriaeth ehangach, yn enwedig un sy'n gweithio yn Saesneg ac sy'n aml yn ymwneud, yn y lle cyntaf, â Lloegr, yn help i greu cyfleoedd i'r sector weithio yn Lloegr, lle gellid cymhwyso defnydd a dealltwriaeth o'r arbenigeddau hynny ar draws y diwydiannau cerddoriaeth yn y DU (a manau eraill). Fel pob clwstwr cryf, byddai'n help i ddenu mewnfuddsoddiad gan gyrff yn y DU ac i gyflwyno Cymru a cherddoriaeth Gymraeg i sefydliadau canolog, wedi'u lleoli yn Llundain yn aml. Byddai presenoldeb o'r fath a rhwydweithiau newydd yn arwain at fwy o gyfleoedd ar gyfer sefydlu neu gynnal busnesau cynaliadwy ac at dwf economaidd o fewn y sector cerddoriaeth (a sectorau cysylltiedig) yng Nghymru.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd

Ymateb Elwyn Jones, Prif Weithredwr, Cyngor Llyfrau Cymru

Fel y corff sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu a hyrwyddo'r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru mae'r cyswllt rhwng yr iaith Gymraeg a datblygu'r economi yn ganolog i waith y Cyngor Llyfrau ac i ddyfodol y diwydiant.

Sefydlwyd y Cyngor yn 1961 gyda'r nod cychwynnol o sicrhau deunydd darllen Cymraeg i blant a thros y blynyddoedd mae ei gyfrifoldebau wedi ymestyn i gwmpasu holl ofynion y diwydiant cyhoeddi yn y ddwy iaith.

Yn ogystal â chynnig gwasanaethau arbenigol i'r diwydiant cyhoeddi ym meysydd golygu, dylunio, hyrwyddo a gwasanaethau gwybodaeth (sydd ynnddynt eu hunain yn cryfhau seilwaith y fasnach lyfrau ac yn proffesiynoli'r diwydiant) mae'r Cyngor yn gweinyddu grantiau sy'n cael eu sianelu drwy'r cyhoeddwyr. Mae'r Cyngor hefyd yn rhedeg Canolfan Ddosbarthu hunangynhaliol sydd a throsiant blynyddol o oddeutu £4m (gros) gan ddsbarthu llyfrau i siopau llyfrau annibynnol, siopau cadwyn, archfarchnadoedd a lleoliadau twristaidd. Byddai'r trosiant blynyddol ar gyfer deunydd Cymraeg oddeutu £2.3m (gros).

Mae'r ymdrech i gynnal gwerthiant llyfrau yn cael ei gefnogi gan dim bychan o gynrychiolwyr a swyddogion ysgol sydd yn ymweld yn gyson â'r siopau, ysgolion a llyfrgelloedd gan arddangos deunydd a derbyn archebion. Mae'r Cyngor hefyd yn trefnu ymgyrchoedd hyrwyddo generig gan gynnwys ymgyrchoedd hysbysebion print a theledu yn ogystal ag atodiadau llyfrau megis *Llyfrau'r Haf* a *Gwledd y Nadolig*.

Er bod deunydd darllen yn yr iaith Gymraeg, fel iaith leiafrifol, yn dibynnu'n helaeth ar grantiau cyhoeddus byddem hefyd yn pwysleisio bod y grantiau a ddsberthir i'r cyhoeddwyr wedi eu seilio ar fodel ariannu ynghlwm â sicrhau gwerthiant. Fe welir felly, bod gwerthiant llyfrau yn hanfodol i ddyfodol y cyhoeddwyr, y llyfrwerthwyr a'r Cyngor Llyfrau fel ei gilydd.

Rydym yn amcangyfrif bod oddeutu 1,000 o bobl yn cael eu cyflogi o fewn y diwydiant cyhoeddi yng Nghymru yn gyhoeddwyr, argraffwyr, llyfrwerthwyr, unigolion llaw rhydd sy'n gweithio ym maes golygu a dylunio yn ogystal â threfnwyr gwyliau llenyddol. Gellir amcangyfrif felly bod oddeutu 50% o'r unigolion hyn yn ddibynnol ar y fasnach lyfrau Cymraeg.

Y mae sawl un wedi cyfeirio at strwythur y Cyngor fel un addas i hyrwyddo diwydiannau bach Cymraeg gyda'r Cyngor Llyfrau, fel corff canolog, yn ddsbarthu grantiau bychain, yn cynnig gwasanaethau arbenigol ac yn cynnal system ddsbarthu canolog i hybu'r holl ddiwydiant. Dyma wasanaeth na all ond corff canolog, cenedlaethol ei gynnig ac fe'i gwelir fel modd i gefnogi a thyfu'r diwydiant.

Credwn mai arwydd o'r llwyddiant hwn yw canlyniadau'r arolwg a gynhaliwyd gan Beaufort Research yn 2012 i batrymau darllen a phrynu llyfrau Cymraeg (bydd yr

arolwg yn cael ei ryddhau'n gyhoeddus maes o law) sydd yn dangos cynnydd yn y nifer o ddarllenwyr llyfrau Cymraeg o'r gymharu a ffigurau 2003 a 2006. Teimlwn bod ehangu'r pwll o ddarllenwyr Cymraeg yn ganlyniad uniongyrchol i bolisi'r Cyngor a buddsoddiad y Llywodraeth i ehangu'r ystod o ddeunydd darllen gan fuddsoddi mewn awduron newydd yn ogystal â gwaith awduron profiadol.

Yn ogystal, fe gynhaliwyd gwerthiant llyfrau drwy'r Ganolfan Ddosbarthu (sy'n cynnwys llyfrau Cymraeg a Saesneg) yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a hynny yn wyneb sefyllfa economaidd heriol. Wrth ddadansoddi'r gwerthiant, fe welwyd bod trosiant y prif siopau llyfrau Cymraeg yn dangos cynnydd o 1% - o'i gymharu a gostyngiad o oddeutu 6% ar draws Prydain. Gwelwyd hefyd mai maes llyfrau Cymraeg i blant oedd y maes yn dangos y mwyaf o gynnydd.

Mae nifer helaeth o brif bartneriaid y Cyngor, boed yn gyhoeddwr neu'n lyfrwerthwr, wedi eu lleoli mewn ardaloedd gweledig, Cymraeg eu hiaith ac fe'i gwelir yn aml fel canolfannau iaith naturiol o fewn eu cymdogaeth. Mae'r siopau llyfrau hefyd yn fan gwerthu pwysig o ran cerddoriaeth, cardiau a chrefftau gan gyfrannu'n helaeth at lwyddiant y meysydd hyn.

Y mae gwerthiant dros y we yn sialens i siopau'r stryd fawr drwy Brydain ac mae'r Cyngor wedi datblygu cynllun i gynnig comisiwn i'r siopau llyfrau annibynnol wrth i'r darllenwyr brynu llyfrau (boed llyfrau print neu e-lyfrau) drwy wefan ganolog y Cyngor, gwales.com – gan gynyddu'r traffig i'r wefan. Gwelir hyn eto fel strwythur cenedlaethol sydd yn cynnig cymorth ymarferol i'r busnesau lleol.

Fel rhan o drefniant canolog y Cyngor Llyfrau mae'r sector gyhoeddus, drwy'r ysgolion a'r llyfrgelloedd, yn abl i archebu llyfrau gan ein Swyddogion Ysgol gyda'r archebion wedyn yn cael eu sianelu drwy'r siopau lleol. Erbyn hyn, mae mwyafrif yr archebion hyn yn cael eu derbyn yn electronig.

Y mae'n angenrheidiol i fwyafrif o staff y Cyngor fod yn siaradwyr Cymraeg. Lle bo angen rhai sgiliau arbenigol bu'n bosib i'r Cyngor sicrhau cefnogaeth i'r gweithwyr hynny i fynychu cyrsiau dwys. Penodwyd un Pennaeth i'w swydd ar yr amod ei bod yn dysgu Cymraeg – ac fe gyflawnodd hynny ar gyfnod sabothol o dri mis.

Hyderwn y bydd rhai o'r busnesau lleol, boed yn gyhoeddwr, argraffwr neu'n lyfrwerthwr, hefyd yn ymateb i'r arolwg hwn ac mae croeso i chi gysylltu os gallwn fod o unrhyw gymorth pellach.

Y Gymraeg a Datblygu Economaidd

Gwyn Roberts

Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

Ar lefel ficro, mae defnydd o'r Gymraeg yn cefnogi datblygiad a thwf busnes mewn dwy ffordd:

a) Mae'n denu ffocws cwsmeriaid. Dylai unrhyw un sy'n darparu gwasanaethau i ddefnyddwyr Cymraeg eu hiaith fod yn ymwybodol y bydd hi'n well gan rai defnyddwyr ymwneud drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae arfer dealltwriaeth o ddewisiadau defnyddwyr a dadansoddi gallu'r sefydliad i ateb y disgwyliadau hynny yn rhag-amod sylfaenol ar gyfer marchnata'n llwyddiannus. Gellir defnyddio'r egwyddorion hynny wedyn wrth ystyried agweddau eraill ar gynllun y cynnyrch /gwasanaeth ac ehangu i farchnadoedd newydd.

b) Nodweddir y farchnad Ewropeaidd (a rhannau eraill o'r byd yn wir) gan ddarniad ieithyddol. Bydd gan fusnes sydd wedi llunio'i hun ar gyfer gweithredu'n ddwyieithog eisoes wedi mynd i'r afael â'r materion (fel cynllunio gwasanaeth, gwerthiant a chymorth i gwsmeriaid ac ati) y byddai'n rhaid eu hystyried wrth dargedu marchnad newydd.

I grynhoi, nid yw gweithredu'n ddwyieithog yn rhag-amod i fusnes allu llwyddo yng Nghymru; ond mae'n ddangosydd y gellid rheoli cwmni'n ystyriol a chyda dealltwriaeth dda o anghenion y cwsmer.

Ar lefel facro, yn y diwydiannau creadigol (yn ogystal â sectorau eraill fel bwyd), mae defnyddwyr yn tueddu i werthfawrogi dilysrwydd a sylw i fanylder. Mae goddefgarwch tuag at raglenni teledu tramor er enghraifft wedi cynyddu gyda llwyddiant dramâu o Sgandinafia a Ffrainc ac ati. Gellir hyrwyddo'r Gymraeg o fewn "brand Cymru" fel ffactor sy'n gwahaniaethu a hunaniaeth yn cryfhau allbwn penodol busnesau.

b) Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Mae datblygu economaidd yn allweddol ar gyfer darparu cyfleoedd gwaith a fydd yn annog pobl, yn enwedig pobl ifanc, i aros yn eu cymunedau ac yng Nghymru yn gyffredinol, yn hytrach na mudo i rywle arall. Mae'r mater hwn yn arbennig o berthnasol i'r cymunedau hynny sydd â chyfran fawr o siaradwyr Cymraeg.

Yn ail, bydd datblygu economaidd mewn sectorau sy'n dibynnu ar gryfderau traddodiadol siaradwyr Cymraeg, neu sectorau sy'n cynnwys llawer o siaradwyr Cymraeg (er enghraifft animeiddio, celfyddydau perfformio, darlledu a chynhyrchu ar gyfer y cyfryngau ac ati) yn cryfhau'r sectorau hynny fel darparwyr gwaith sefydlog.

c) Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

Dros gyfnod addas o amser i ganiatáu ar gyfer addasu a hyfforddi, gallai'r sector cyhoeddus ymdrechu i sicrhau bod gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr yn cael eu darparu'n ddwyieithog. Byddai hyn yn arwydd i'r farchnad lafur bod sgiliau yn y Gymraeg yn werthfawr.

Yn ail, mewn prosesau caffael, gallai'r sector cyhoeddus roi mwy o bwyslais ar allu rhai sy'n cynnig am dendrau i gynnal trafodion yn y Gymraeg. Mantais ehangach hyn fyddai cynyddu cyfran economi Cymru o gyfanswm gwariant y sector cyhoeddus yng Nghymru ar wasanaethau masnachol.

f) Awgrymiadau ar gyfer hwyluso'r gwaith o hybu datblygu economaidd a'r Gymraeg gyda'i gilydd

Mae arbenigwyr iaith yn cytuno bod cyswllt anorfod rhwng dyfodol y Gymraeg a'i statws fel iaith fyw naturiol yn y gymuned – sy'n golygu bod cyflwr y Gymraeg yn ei 'chadarnleoedd', y cymunedau hynny lle mae'n dal i gael ei siarad gan fwyafrif sylweddol, yn hollbwysig.

Byddai dull ar y cyd o weithredu mewn perthynas â'r Gymraeg a datblygu economaidd yn sicrhau blaenoriaeth i gynhyrchu gwaith o ansawdd yn yr ardaloedd hynny – er enghraifft, gellid eu pennu'n "ardaloedd economaidd arbennig", a gellid lleoli / adleoli rhannau o'r sector cyhoeddus, megis canolfannau cydwasanaethau, yn yr ardaloedd hyn. Byddai hefyd yn edrych i weld i ba raddau mae'r cymunedau hynny wedi llwyddo i integreiddio â marchnadoedd – mewn geiriau eraill, byddai'n ystyried cysylltiadau trafndiaeth, mynediad band eang a ffactorau eraill sy'n rheoli costau gyda'r amcan penodol o sicrhau nad yw cymunedau Cymraeg eu hiaith dan anfantis gymharol fel lleoliadau posibl ar gyfer buddsoddi a chreu swyddi.

Hefyd, gellid dyrannu cymorth economaidd (arian ad-daladwy ac ati) drwy ddefnyddio canllawiau sy'n mynd i'r afael yn fwy penodol â'r effaith bosibl ar iaith sector penodol, neu brosiect penodol hyd yn oed. Noder na fyddwn yn argymhell dulliau "hawliau lleiafrifol" fel sy'n cael eu defnyddio yn yr UDA, De Affrica ac ati, am fod y rhain yn rhy debygol o arwain at aflunio'r farchnad a cham-ddyrannu arian cyhoeddus.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd – Galwad am Dystiolaeth – Terry Ballard Cyflwyniad ar ran RWE UK

Crynodeb

- Mae RWE UK yn fuddsoddwr mawr yng Nghymru ac mae'n cyfrannu'n sylweddol at economi Cymru yn uniongyrchol fel cyflogwr ac yn anuniongyrchol drwy gaffael nwyddau a gwasanaethau.
- Rydym yn cydnabod gwerth diwylliannol a hanesyddol y Gymraeg ac wedi cefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol yn weithredol.
- Mae RWE yn y DU yn gorfod cystadlu â chyfleoedd eraill ledled Ewrop am gronfeydd buddsoddi cyfyngedig yn yr hinsawdd economaidd bresennol. Nid ydym yn argyhoeddedig y bydd y Gymraeg yn gweithredu fel ysgogiad i fuddsoddi yng Nghymru ar hyn o bryd.
- Fodd bynnag, yn ein barn ni, gallai hinsawdd sefydlog o ran rheoleiddio, cynllunio a gwleidyddiaeth ddenu buddsoddiadau pellach ledled Cymru. Os yw'r buddsoddiad hwn yn digwydd mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith, byddai'r effaith economaidd leol yn eu cynnal nhw yn ogystal â hyfywedd parhaol y Gymraeg.

Sylwadau

Mae'r ymateb hwn ar ran cwmnïau RWE sy'n weithredol yng Nghymru ar hyn o bryd, yn cynnwys RWE Generation SE, sy'n cyfuno endidau cynhyrchu RWE ac arbenigedd peiriannu ledled Ewrop; RWE npower renewables, un o ddatblygwyr ynni adnewyddadwy blaenllaw'r DU; ac RWE npower, busnes manwerthu ynni'r DU sy'n cyflenwi ynni i nifer o gwsmeriaid yng Nghymru, a TATA a Dŵr Cymru yn fwyaf amlwg.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae grŵp RWE wedi buddsoddi tua £3 biliwn yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys safle tyrbinau nwy cylch cyfyng 2GW o'r radd flaenaf yng Nghymru, 750MW o gynhyrchiant ynni gwynt ar y môr, Gwynt y Môr, Gwastadeddau'r Rhyl a 150MW o gynhyrchiant ynni gwynt ar y tir. Mae gwaith pellach i gynhyrchu ynni gwynt ar y tir ar y cam cynllunio a/neu adeiladu ar hyn o bryd. Hefyd, RWE yw perchennog a gweithredwr gorsaf bŵer Aberddawan sydd, drwy ei chefnogaeth i ddiwydiant glo Cymru, yn cyfrannu tua £75m i'r economi leol.

Rydym hefyd wedi cyfrannu'n weithredol at nifer o gynlluniau yng Nghymru i ddarparu mesurau effeithlonrwydd ynni i gwsmeriaid bregus.

Yn sgil y mentrau hyn, mae RWE yn cyflogi dros 500 o bobl yng Nghymru. Mae'r rhain yn gweithio mewn nifer o leoliadau drwy Gymru, gan gynnwys Penfro, Aberddawan, Baglan, Llanidloes, Mostyn, Ynys Môn a Dolgarrog. Rydym wedi datblygu cynllun Prentisiaeth Technegydd Tyrbîn Gwynt i greu cyfleoedd hirdymor i fagu sgiliau hyfedr, a chaiff ei gyflwyno drwy rwydwaith fach o golegau lleol yng ngogledd a de Cymru. Hefyd, mae gennym gynlluniau prentisiaethau crefft yn ein dwy orsaf bŵer tanwydd ffosil gyda sgiliau amrywiol mewn disgyblaethau peirianyddol a thrydanol.

Hefyd, crëwyd nifer sylweddol o gyfleoedd gwaith ym maes seilwaith, er enghraifft, cyfleusterau porthladd, ac yn anuniongyrchol drwy fod ein contractwyr yn amrywio o gwmnïau arlwyo bach i gwmnïau mawr sy'n cynhyrchu dur.

Rydym yn cydnabod gwerth diwylliannol a hanesyddol y Gymraeg a'i phwysigrwydd i gyfran sylweddol o'r bobl sy'n byw yng Nghymru. I gydnabod hyn, rhoesom gefnogaeth i Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2012 pan gynhaliwyd hi yng nghyffiniau ein gorsaf bŵer yn Aberddawan.

Fel cwmni pan-Ewropeaidd gyda chronfeydd buddsoddi cyfyngedig, rhaid i unrhyw gyfle i fuddsoddi yng Nghymru gystadlu â chyfleoedd eraill ledled Ewrop. Bydd y lefel o fuddsoddiad a ddenir i Gymru yn dibynnu ar lefel yr hyder yn amgylchiadau'r wlad o ran rheoleiddio, cynllunio a gwleidyddiaeth. Gall Llywodraeth Cymru helpu drwy wneud y canlynol:

- Darparu cymorth ac adnoddau ychwanegol i awdurdodau lleol allu rheoli ceisiadau cynllunio sy'n ymwneud ag ynni mewn modd amserol ac effeithlon.
- Sicrhau bod Polisi Ynni Cymru yn cael ei arfer yn gyson ledled Cymru a bod ymgynghoriad llawn yn digwydd cyn y gwneir unrhyw newidiadau arfaethedig i safonau cynllunio.
- Annog defnydd pragmataidd o'r Gyfarwyddeb Allyriadau Diwydiannol gan Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Sicrhau bod unrhyw ofynion o dan ddarpariaethau'r Gymraeg yn cael eu gweithredu mewn modd cymesur.

Nid ydym yn argyhoeddedig y bydd y Gymraeg a dwyieithrwydd yn cefnogi twf busnes a datblygiad economaidd ar hyn o bryd nac yn gweithredu fel cymhelliad i ddenu buddsoddiad i Gymru ar gyfer cwmnïau mwy o faint fel ni ein hunain. Mae'n bosibl dadlau y gallai unrhyw reoliadau sy'n arwain at ofynion gormodol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg annog darpar fuddsoddwyr mewn prosiectau ar raddfa fawr i fynd i rywle arall, yn enwedig o ystyried bod y Saesneg yn cael ei gweld fel iaith ryngwladol busnes.

Fodd bynnag, rydym yn cefnogi'r safbwynt y byddai hinsawdd sefydlog sy'n annog buddsoddi yng Nghymru yn creu swyddi o ansawdd uchel, a mwy o gyfleoedd gwaith lleol, gan arwain at fwy o ddefnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith leol.

Fel enghraifft o fanteision economaidd buddsoddi, yn ddiweddar cafodd RWE ganiatâd cynllunio i adeiladu fferm wynt ym Mynydd y Gwair, Abertawe. Mae astudiaethau annibynnol wedi amcangyfrif y gallai adeiladu'r fferm wynt gynhyrchu hyd at £12 miliwn yng Nghymru, gyda £8.5 miliwn o hwn yn cael ei fuddsoddi yn y De a'r Gorllewin.

Yn ystod y gwaith adeiladu, gallai'r prosiect gynhyrchu hyd at 104 o swyddi cyfwerth ag amser llawn bob blwyddyn yng Nghymru. Yn ystod ei weithrediad hefyd, gallai'r prosiect greu £12 miliwn pellach i ardal y De a'r Gorllewin a chynnal 19 o swyddi yng Nghymru.

Byddem yn disgwyl manteision tebyg pe bai prosiect o'r fath yn cael ei gynnal mewn ardal lle ceir mwy o siaradwyr Cymraeg.

Gall buddsoddiad o'r math hwn, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig o Gymru, gynnig ystod eang o gyfleoedd gwaith ar draws y sbectrwm sgiliau. Byddai'n creu cymunedau lleol cydlynol a fyddai, mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith, yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd darparu swyddi hyfedr iawn o ansawdd da hefyd yn arwain at gyfleoedd gwaith, i bobl ifanc a gafodd addysg prifysgol allu dychwelyd i gymunedau Cymraeg eu hiaith gan gadw eu sgiliau iaith a sicrhau bod yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn cael eu gwerthfawrogi a'u cryfhau.

Canlyniad hyn fydd cymunedau ffyniannus, cynaliadwy Cymraeg eu hiaith a fyddai'n ysgogi twf a datblygiad yr iaith ledled Cymru.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd

Enw wedi dal yn ôl

Crynodeb

Mae angen newid yr agwedd gynyddol wrth-Seisnig sy'n cael ei hyrwyddo os nad yw Cymru gyfan yn mynd i fynd yr un ffordd â Gwynedd. Ceir cofnodion o gyfarfod cyngor sy'n datgan yn eglur fod pwysau wedi'i roi ar drydydd parti i roi pwysau ar gwmni preifat i ddefnyddio dim ond Cymraeg, gyda'r cadeirydd yn datgan: Mynegodd y Cadeirydd ei siomedigaeth gydag ymateb y cwmni a phwysleisiodd y dylid codi cywilydd arnynt gan eu bod yn amharchu'r iaith Gymraeg. Byddai unrhyw fewnffuddsoddwr a welai'r cofnodion hyn yn dechrau edrych yn rhywle arall ar unwaith a dim ond un enghraifft yw hon oherwydd y cyfyngiadau ar nifer geiriau. Wedyn rhaid meddwl beth sy'n mynd ymlaen y tu ôl i ddrysau caeedig os mai dim ond enghraifft gyhoeddus o gofnodion y cyngor yw hon.

Y Gymraeg a Datblygu Economaidd

Mae datblygu a darparu strategaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a datblygu economaidd ar y cyd yn gwrth-ddweud ei hun yn yr ystyr bod y ffeithiau'n dangos fod Cymraeg gorfodol yng Ngwynedd ac Ynys Môn wedi atal mewnffuddsoddi o gymharu â gweddill y DU, wedi gostwng safon addysg Saesneg, ei gwneud hi'n anodd os nad yn amhosibl recriwtio staff uwch ac yn ôl erthygl yn y wasg, wedi cynyddu nifer y busnesau sydd eisiau symud allan pe baent yn gallu fforddio gwneud hynny. O gymharu â'r 1980au pan oedd Cymru'n gwneud yn dda o'i chymharu â Gogledd-ddwyrain Lloegr, bellach rydym wedi disgyn ymhell y tu ôl iddynt a'r unig reswm allai fod am hynny yw polisïau digyfaddawd ar y Gymraeg a'r modd y cânt eu dehongli.

Yng Ngwynedd, mae polisi'r iaith Gymraeg wedi cynyddu agweddau gwrth-Seisnig, gan wthio'r mwyafrif sy'n siarad Saesneg i'r cyrion a methu â chynnig dyfodol i bobl ifanc oni bai bod eu Cymraeg yn ddigon da ar gyfer y sector cyhoeddus neu eu bod yn gadael Cymru. Ffaith – ni allwch recriwtio staff uwch i ysbytai hyd yn oed. Ffaith – mae RAF y Fali yn talu i'w plant fynd i ysgolion preifat am fod y Weinyddiaeth Amddiffyn yn dweud fod ein hysgolion yn is na'r safon. Nid oes addysg ddwyieithog i rai dan wyth oed yng Ngwynedd. Mae rhieni a theidiau fel fi yn achub y system addysg yng Nghymru drwy ddysgu Saesneg i'n plant ond mae'r safonau addysgol yn dal i ddisgyn yn is na gweddill y byd yn ôl ystadegau ac mae'r pethau gwael sy'n cael eu gwneud yn ein hysgolion wedi'u cyfiawnhau ar sail ddeallusol.

Ceir nifer fawr o berchnogion busnesau bach sy'n nesu at oed ymddeol a llai o fusnesau newydd yn dod yn eu lle. A yw Cymru gyfan eisiau bod fel Gwynedd mewn gwirionedd? Rhowch i fusnesau yr hyn y maent ei eisiau yn cynnwys rhyddid i ddewis.

Un profiad a gefais: Pan na ddarparwyd cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfod busnes cyhoeddus, fe gwynais; dywedwyd wrthyf yn bendant pe bai gen i fusnes yn Ffrainc, byddai'n rhaid i mi ddysgu Ffrangeg - os nad ydw i eisiau dysgu Cymraeg, yna dylwn symud fy musnes allan o Gymru.

FFAITH: Mae popeth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gyffwrdd yn llanast am fod gormod o wleidyddion yno heb brofiadau o fywyd go iawn. Yn lle gofyn am syniadau ynglŷn â sut i helpu datblygiad, rhaid i chi ychwanegu'r Gymraeg sy'n eithrio llawer o arloeswyr busnes ac yn codi gwrychyn rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg. Mae eich agwedd hunanol yn lladd unrhyw obaith real ar gyfer dyfodol ein plant a'r ffaith drist yw nad ydych chi eisiau trafod y peth hyd yn oed.

Mae angen rhyddid i ddewis ar Gymru, a rhaid estyn y rhyddid hwn i bob rhiant allu dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg ar gyfer eu plant, yn rhydd o ddogma gwladwriaeth a gorfodaeth.

Nid yw Datblygu Economaidd a safonau gostyngol y Saesneg yn mynd gyda'i gilydd a bydd Cymru yn disgyn yn is eto o gymharu â gweddill y byd. Mae addysg Gymraeg yn chwalu ac yn cynhyrchu cenhedlaeth ar ôl cenhedlaeth o blant heb fawr ddim llythrennedd, neu rifedd pe ddi i hynny (mae perfformiad addysgol plant Cymru bellach yn waeth nag unrhyw ran arall o'r DU a'r gwaethaf yn yr Undeb Ewropeaidd drwyddi draw).

Mae angen i chi feddwl sut i achub Cymru rhag dirywiad anorfod, a pharhaol o bosibl, i statws trydydd byd, mae angen gweld Cymru fel gwlad sy'n agored i fusnes.

Mae mesurau'r Gymraeg wedi creu elit sy'n rheoli o blith y cenedlaetholwyr Cymreig sy'n cynrychioli rhan fach iawn o boblogaeth Cymru. Mae'r bobl hyn wedi cymryd cyfran anghymesur o swyddi cyhoeddus drwy orfodi'r Gymraeg fel gofyniad swydd hanfodol ac eto ni allwn ddod o hyd i unrhyw fandad yn nwylo'r blaidd wleidyddol sy'n llywodraethu na sail foddhaol dros gyfiawnhau'r sefyllfa hon ac un sy'n ddigynsail ar lefel ryngwladol.

Mae un cofnod o gyfarfod cyngor Gwynedd yn dangos agwedd y rhai sy'n rheoli'n eglur. Rwy'n credu ei fod yn anghyfreithlon – yn bendant yn anfoesol – a hefyd yn tramgwyddo safonau ond mae gan Gyngor Gwynedd set wahanol o safonau a byddai unrhyw berson rhesymegol sy'n ystyried mewnfuddsoddi yn edrych ar hwn ac yn rhedeg milltir. Yn ôl y ffordd y mae Cymru'n mynd, mae'r hyn sy'n digwydd i Wynedd heddiw yn mynd i ddigwydd i Gymru fory:

http://www.gwynedd.gov.uk/ADNPwyllgorau/2012%20hyd%20at%20fis%20Mai/Is-Bwyllgor%20laith/2012-03-06/english/04_01_Minutes%20of%20the%20last%20meeting.pdf

(vi) Gan gyfeirio at y gŵyn bod Cwmni Bysus Padarn yn arddangos y geiriau "Gwynedd

Hospital" ar flaen eu bysus, eglurodd y Swyddog Cydraddoldeb ac laith y gofynnwyd i'r Ysbyty gysylltu â'r cwmni gan nad oedd y llwybr bws dan sylw dan gontract i'r Cyngor hwn. 'Roedd hynny wedi digwydd, ond nid oedd yn ymddangos bod yr Ysbyty am fynd â'r mater ymhellach yn sgil ymateb y cwmni na fyddai

ymwelwyr yn ymwybodol o enw'r Ysbyty.

Nododd aelodau nad oeddent yn derbyn dadl y cwmni gan mai "Ysbyty Gwynedd" yw enw swyddogol yr Ysbyty.

Cytunodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith i adrodd yn ôl ymhellach ar hyn.

Mynegodd y Cadeirydd ei siomedigaeth gydag ymateb y cwmni a phwysleisiodd y dylid codi cywilydd arnynt gan eu bod yn amharchu'r iaith Gymraeg.

Oherwydd bygythiadau i eraill sydd wedi siarad allan yn y gorffennol a'r bygythiadau yng nghofnodion y cyngor uchod, gofynnaf i fy manylion gael eu cadw'n gyfrinachol rhag i rywun geisio dial.

Y Gymraeg a datblygu economaidd

John Nicholson – Bio-Power

Crynodeb:

1. Nid yw'r Gymraeg yn helpu datblygiad economaidd mewn unrhyw ffordd. Mae'n gwneud y gwrthwyneb...
 - a) mae'n rhoi baich cost enfawr ar lywodraeth leol drwy gost cyfieithu a chyhoeddi dogfennau mewn dwy iaith
 - b) mae'n annog pobl fedrus a phroffesiynol i beidio â dod i weithio yng Nghymru, gan ein hamddifadu o wasanaethau cyhoeddus a phroffesiynol lefel uchel
 - c) mae'n atal mewnfuddsoddiad, sy'n fawr ei angen i greu swyddi a chyfoeth go iawn.
2. Ni ddylai dim rwystro unrhyw ddau berson rhag cyfathrebu â'i gilydd mewn unrhyw iaith a rennir o'u dewis – yn cynnwys Cymraeg a Saesneg fel ei gilydd.
3. Ni ddylai pobl sy'n byw yng Nghymru fod dan unrhyw anfantais rhag defnyddio adnoddau neu wasanaethau oherwydd yr iaith y dewisant ei siarad.
4. Nid yw taflu arian cyhoeddus mawr i mewn i gynlluniau iaith Gymraeg yn ddim byd mwy na cheisio gorfodi bywyd i mewn i iaith farw. Mae'n ffaith fod pawb yn deall ac yn gallu cyfathrebu yn Saesneg, ac mae Saesneg yn tyfu'n iaith gyffredin rhwng pobl ym mhob rhan o'r byd. Dim ond anomaledd bach rhyfedd, hanesyddol all y Gymraeg fod, ac ni fydd ganddi rôl gyfathrebu arweiniol byth yn ein datblygiad yn y dyfodol.
5. Ni ddylid rhoi unrhyw bwysau ar bobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Dewis yr unigolyn yn llwyr ddylai hyn fod.
6. Dylid cofio bob amser na all person newid dau beth sylfaenol, sef ble cafodd ei eni a phwy yw ei rieni. Felly, mae rhagfarnu yn erbyn pobl ar sail eu man geni neu eu magwraeth deuluol yn ynfyd.
7. Dylai ein gwaith ganolbwyntio ar ddatblygu cymunedau cydlynol integredig, nid rhannu pobl yn ddau grŵp ar wahân, 'Cymry wedi'u geni a'u magu'n lleol' a 'mewnfudwr o Sais' ac ati.

Rydw i wedi arwain sawl busnes yn y rhan fwyaf o ardaloedd o Gymru. Mae'n amlwg iawn i mi pa mor wahanol yw'r agwedd tuag at y Gymraeg mewn ardaloedd gwahanol o Gymru. Rwyf hefyd wedi gwasanaethau fel cynghorydd lleol ac yn dyst i gymaint o ragfarn sy'n bodoli yn erbyn yr aelodau hynny o'r gymuned nad ydynt yn siarad Cymraeg. Ar sawl achlysur, gwelais gamau bwriadol i rwystro busnes rhag cael ei gynnal yn Saesneg neu gan bobl y gwyddys nad ydynt yn cyfathrebu yn Gymraeg. Mae'r pethau hyn oll yn gwneud niwed mawr i'r economi leol a chreu cyfoeth yn gyffredinol.

Bydd hi'n ddiddorol darllen unrhyw honiadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn y gall y Gymraeg greu budd economaidd. Er y bydd darparu gwasanaethau cyfieithu a rhai tebyg yn Gymraeg yn bendant yn creu gwaith a budd economaidd i nifer fach o bobl, effaith gyffredinol hyn yw rhoi baich cost ar y gymuned ehangach.

Rwy'n herio pob cyflwyniad sy'n honni bod y Gymraeg yn creu budd economaidd i brofi bod y defnydd o'r Gymraeg yn cynyddu cyfoeth hirdymor yn gyffredinol, a'i bod yn fwy na gwastraff ar adnoddau.

Yn fy marn i, dylai llywodraeth Cymru atal pob cyllid tuag at gefnogi neu hyrwyddo'r Gymraeg. Dylai pobl allu siarad pa bynnag iaith a ddymunant, ac i'r mwyafrif llethol, Saesneg fydd honno. Dylai pob ysgol gynradd weithredu'n bennaf yn Saesneg fel bod plant yn cael addysg sylfaenol dda yn Saesneg, i allu cystadlu ym marchnad waith y DU gyfan. Dylid canolbwyntio cymorth at ddatblygu a chryfhau busnesau creadigol solet sy'n darparu cynnyrch a gwasanaethau i ddiwallu anghenion eglur.

Myth yw'r honiad fod creu swyddi'n mynd i gynyddu twf economaidd a chreu cyfoeth. Er mwyn cyflawni twf, rhaid i swyddi fod yn gynhyrchiol yn economaidd. Mae'n bosibl fod palu ffordd ac ailosod yr arwyneb dro ar ôl tro yn cyflogi llawer o bobl, ond ni fydd yn creu twf economaidd heblaw bod y gwaith yn trwsio ffordd ddiffygiol yn effeithlon am gost resymol. Yn yr un modd, nid yw cyfieithu testunau o Saesneg i Gymraeg a Chymraeg i Saesneg yn creu unrhyw gyfoeth economaidd. Mae'n draul ar adnoddau y gellid eu defnyddio'n well i fynd i'r afael ag anghenion gwirioneddol.

Y ffordd orau o gadw'r Gymraeg yn 'fyw' (neu mewn defnydd ehangach) yw sicrhau bod digon o swyddi buddiol yn economaidd mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith, Bydd hyn yn helpu i atal siaradwyr Cymraeg presennol rhag gadael yr ardal i ddod o hyd i swyddi sy'n talu'n well, neu'n fwy ystyrlon, y tu allan i'r ardal.

Yn hwyr neu'n hwyrach, bydd yn rhaid i bobl Cymru wynebu penderfyniad mawr, 'Beth sydd bwysicaf? a) sicrhau twf economaidd yn arwain at gyfoeth ehangach i Gymru gyfan, NEU b) parhau i wario arian cyhoeddus yn ceisio gorfodi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg'. Gorau po gyntaf y wynebir y penderfyniad hwn.

Os yw Cymru, dan y pwerau newydd a roddwyd i Gynulliad Cymru, yn ymdrechu i ddod yn fwy annibynnol a hunangynhaliol, yna dylid cyfeirio'r holl adnoddau at brosiectau i greu canlyniadau cadarnhaol gwarantiedig o ran budd economaidd. Nid yw breuddwydion am genedl lle mae pawb yn siarad Cymraeg yn dod i mewn i'r categori hwn.

Gwasg mewn Gwasgfa?

Tystiolaeth gan Dalen Newydd Cyf. I'r Grwp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd. Dafydd Glyn Jones (Cadeirydd), Gwawr Jones (Ysyrifennydd), Gethin Jones,

1. Mae sefyllfa'r wasg Gymraeg a'i dyfodol yn bynciau perthnasol iawn i unrhyw ystyriaeth o'r Gymraeg a Datblygu Economaidd.
2. Deil penderfyniad y Llywodraeth ar fater Y Byd, Chwefror 2006, yn siom ac yn ddirgelwch. Yr oedd hi o aelodau Dalen Newydd Cyf, yn fuddsoddwyr yn Ddyddiol Cyf., ond eisoes yn gweithio ar gynllun gwahanol a chyfochrog y gobeithid y byddai'n llenwi bwlch arall mewn newyddiaduraeth Gymraeg. Y cynllun hwnnw oedd cyhoeddi cadwyn o bapurau Gymraeg wythnosol am ddim gan ddechrau ym Môn ac Afon.
3. Drwy'r cyfan mae rhyw 'afael' ar bapur newydd, - papur go-iawn, wedi ei wneud o bapur. Dylai cymuned ieithyddol o hanner miliwn allu cynnal tri neu bedwar papur dyddiol. Ond beth a wneir pan yw dau o bapurau Saesneg Cymru, y Western Mail a'r Daily Post, yn wynebu anawsterau yn rhannol oherwydd gwasgfa economaidd ac yn rhannol oherwydd cwmp enfawr yn eu cylchrediad, ynghyd a her technoleg wahanol?
4. Yn wyneb ystadegau sobreiddiol 2011, daw yn amlwg mai sefydlogi dylai fod yn flaenoriaeth unrhyw strategaeth ar gyfer y Gymraeg. O ran magu teimlad o 'berchenogaeth' neu 'feddiant' ar iaith, a thrwy hynny ei sefydlogi fel rhan o fywyd bob dydd, nid oes dim un ffactor pwysicach na'r gallu i'w darllen, a'r arferiad o'i darllen yn rheolaidd. Dyma pam mewn sawl ardal o Gymru y bu cyfraniad y papurau bro, oddi ar ddechrau'r 1970au, yn gwbl all weddol, Y rhain, heb unrhyw amheuaeth, fu llwyddiant diwylliannol mawr Gymru yn rhan olaf yr hen ganrif: buont yn buont yn angor i'r Gymraeg yn wyneb llawer o ddylanwadau eraill a oedd yn ansefydlog.
5. Bwriad Dalen Newydd oedd, ac a fydd eto os gwelir amgylchiadau ffafriol, cyhoeddi dau bapur lleol masnachol wythnosol, Tarian Arfon a Tarian Môn. Yr ydym am bwysleisio mai papurau lleol a fyddai'r rhain, nid papurau bro; h.y. byddent ar yr un tir a'r Holyhead & Anglesey Mail neu'r Caernarfon Herald, nid llais Ogwen neu Bapur Menai. Gwnaed copïau peilot o'r ddau bapur, 32 tudalen yr un, a'u defnyddio i gynnal arolwg o ffynonellau hysbysebion yn y ddwy ardal. Byddid yn dosbarthu yn rhad ac am ddim, gan dalu i gwmni dosbarthu a chan anelu at gylchrediad o 30,000 (17,500, Arfon; 12,500, Mon). Byddai Tarian Arfon yn gwasanaethu hen sir Gaernarfon, sef rhan o sir bresennol Gwynedd a rhan o sir bresennol Conwy, a Tarian Mon y cyfan o Fan. Cynulleidfa'r papurau bro fyddai ein sylfaen. Byddid yn adeiladu ar y

sylyfaen hon a gweithio tuag at yr hyn a fyddai, i bob diben, yn wasg Gymraeg genedlaethol wythnosol gyda chynulleidfa eang, ond yn bodoli ar gyfres o fersiynau lleol.

6. Ni allwn anwybyddu casgliad 'Arolwg Bianchi' (2008): 'Mae'r sector newyddion print Cymraeg yn dameidiog, yn dlawd ac yn rhy anghyflawn i ddiwallu hyd yn oed anghenion mwyaf sylfaenol y darllenydd modern am wybodaeth ynglŷn â'r gymdeithas y mae'n byw ynddi. ... Nid oes dim cyfrwng print Cymraeg ar gyfer newyddion yng ngwir ystyr y gair.'
7. Ac eithrio hysbysiadau cyhoeddus, nid oes cronfa genedlaethol Gymreig o hysbysebion. Mae hysbysiadau Llywodraeth y Cynulliad, llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus cenedlaethol yn allweddol yng nghynhaliaeth y wasg Saesneg dyddiol ac wythnosol yng Nghymru heddiw. Dangoswyd hyn yn glir yn adroddiad gwerthfawr Ysgol Newyddiaduraeth Caerdydd, *The Regional and Local Media in Wales* (2006).
8. Y dewis arall fyddai cymhorthdal uniongyrchol, megis a delir i rai cyhoeddiadau Cymraeg drwy Gyngor Llyfrau Cymru, ond ar raddfa lawer yn fwy. Bydd y gweithgor yn ymwybodol o anawsterau hyn. Buom ninnau'n gyson yn pwysleisio nad oeddem yn dymuno dibynnu ar grantiau a bod gwahaniaeth o ran egwyddor rhwng hynny a derbyn hysbysiadau cyhoeddus fel rhan o fusnes. I gyfiawnhau'r math hwnnw o gefnogaeth byddai raid i'r papurau Cymraeg, yn union fel y rhai Saesneg, gynnig cylchrediad a fyddai'n rhoi gwerth am arian i'r holl hysbysebwr, preifat a chyhoeddus. Byddai Dalen Newydd yn troi pob carreg i sicrhau hysbysebion masnachol ac yr ydym wedi arloesi drwy ymweld i thua 500 o brif fusnesion Môn ac Arfon.
9. Hoffem feddwl y gallai'r ddwy Darian ddod yn gychwyn ar gadwyn o bapurau Cymraeg wythnosol yn ymestyn dros y rhan helaethaf o Gymru ac yn cynnig cylchrediad mawr (100,000 efallai, yn darged). Ac edrych ymlaen, un posibilrwydd fyddai cyhoeddi papur ar ddau ddiwrnod yr wythnos (unwaith am ddim ac unwaith ar werth, efallai), a phwy a wŷr na fyddai llwybr yn arwain o'r fan honno tuag at y nod o wasg ddyddiol - nod y mae'n rhaid ei gyrraedd, hwyr neu hwyrach, ryw fodd neu'i gilydd.
10. Ni fyddem yn diystyru'r posibilrwydd o ddealltwriaeth a grŵp neu gwmni arall pe gwelid bod hynny'n ffordd o greu cylchrediad helaeth un ai ar gyfer hysbysebion cyffredinol neu (yn fwy addas efallai) ar gyfer hysbysiadau cyhoeddus cenedlaethol yn unig. (O ran hysbysiadau masnachol a hysbysiadau cyhoeddus Lleol, byddai'r ddau grŵp yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd, a byddent yn gwbl annibynnol yn olygyddol.) Un posibilrwydd fyddai cydweithio rhwng (a) Tariannau Mon-Arfon, gyda chylchrediad 'trwchus' o fewn ardal gyfyngedig, a (b) papur am-ddim arall gyda chylchrediad

'teneuach' ond cyffredinol drwy Gymru. Ond oherwydd y ffactor a grybwyllwyd o'r blaen, sef nad oes cronfa genedlaethol Gymreig o hysbysebion masnachol, ymddengys y byddai raid i (b) hefyd wrth ryw fath o sylfaen Leol - y brifddinas, efallai? Y Strategaeth (gan mai dyna'r allweddair) fyddai cychwyn yn y ddau begwn, Gwynedd-Morgannwg, a gweithio tuag at gyrraedd y rhan helaethaf o Gymru o dipyn i beth. (Fe ddylai fod gan Gaerdydd ei hun, am ei bod yn brifddinas, o Leiaf un papur dyddiol Cymraeg. Ond stori arall yw honno.)

11. Gobeithiwn gwêl y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yma rywbeth perthnasol i'w ymchwil, a byddwn yn falch o fod a rhan mewn unrhyw drafodaeth yn dilyn o hyn.

Crynodeb

Mae'r wasg yn ddiwydiant sy'n allweddol i ddyfodol unrhyw iaith. Heddiw mae'r iaith Gymraeg a'r wasg brintiedig fel ei gilydd mewn argyfwng. Mae Dalen Newydd Cyf. yn gweithio ar bosibilrwydd a all helpu'r naill a'r llall. Yr amcan yw creu cadwyn o bapurau wythnosol Cymraeg am-ddim a fyddai yn y pendraw yn cyrraedd y rhan helaethaf o Gymru. Byddent yn wahanol o ran arddull a chynnwys i'r papurau bro fisol, a gobeithir y byddent yn ad-dalu i ryw fesur am y methiant i sefydlu gwasg ddyddiol Gymraeg. Byddent yn ddibynnol ar hysbysebu, ac ar ôl cynnal arolwg o 500 o fusnesion yn Arfon a Mon rydym yn dra ymwybodol o'r anawsterau yn y maes hwn. Sut y gallai llywodraeth Cymru helpu? Drwy gyflenwi hysbysiadau cyhoeddus yn rheolaidd, rywbeth yr ymddengys ei fod eisoes yn hanfodol ym mharhad y wasg Saesneg yng Nghymru. Byddai argymhelliad gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen i'r perwyl hwn yn gam yn y cyfeiriad iawn.

Galwad am Dystiolaeth – Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd

John R Walker – AccData

Crynodeb

Wedi bron 30 mlynedd yng Ngwynedd, a threulio'r rhan fwyaf o'r amser hwnnw yn rhedeg fy musnes fy hun, nid oes gennyf unrhyw amheuaeth o gwbl fod gosod gorfodaeth o'r Gymraeg a pholisi Cyngor wedi bod yn 'gusan marwolaeth' i ddatblygu busnes yng Ngwynedd ac Ynys Môn, a bod y problemau amlwg a niferus sy'n gysylltiedig â hyn bellach yn lledaenu i weddill Cymru yn dilyn mabwysiadu Cymraeg gorfodol mewn ysgolion ac yna'r Cwricwlwm Cymreig. I bob pwrpas, mae hwn bellach wedi gwneud Cymru yn dir neb i'r gweithlu medrus a symudol iawn yn y DU (sydd â phlant) fydd ei angen fel arfer ar gyfer buddsoddiadau newydd a datblygu busnes. Nid yw gweithwyr tramor sy'n dysgu Saesneg fel iaith dramor er mwyn sefydlu busnes yn y DU yn disgwyl i'w Saesneg ail iaith gael ei thrin fel iaith ail ddosbarth yng Nghymru yn wobwr am eu hamser, eu hymdrech a'u harian. Gwaethygir hyn oll gan weithgarwch ymosodol - ac anghyfreithlon yn aml - ymgyrchwyr y Gymraeg sydd wedi amharu'n uniongyrchol ar fusnesau a gwneud Cymru yn lle nad yw'n denu neb i fuddsoddi. Hefyd, mae ymgyrch hyrwyddo ymosodol ac afresymol gan y sector cyhoeddus yn gyffredinol, a gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, yna Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn arbennig, ynghyd â'u cefnogaeth i unigolion a'r Gymraeg, yn erbyn hawliau cyflogwyr i gynnal eu busnesau fel y gwelant yn dda, wedi cyfyngu ar fewnfuddsoddiadau ac yn bendant, wedi costio llawer o swyddi presennol wrth i reolwyr ddewis lleoliadau lle maent yn rhydd i gynnal eu busnesau yn Saesneg heb orfodaeth. Gorfodaeth yw'r Safonau arfaethedig ar gyfer y Gymraeg. I'r mwyafrif helaeth o fusnesau mae'r Gymraeg yn cynnig llawer o anafanteision a dim manteision. Hyd yn oed ynghanol y Fro mae arolwg diweddar o fusnesau yng Ngwynedd a gynhaliwyd gan Gyngor Gwynedd yn datgelu bod dros 4 gwaith cymaint o ymatebwyr yn teimlo bod y Gymraeg yn effeithio'n negyddol ar ddatblygu busnes nag sy'n teimlo fod iddi effaith gadarnhaol.

Nid yw'n bosibl cynnal arolwg cyfreithlon a chyhoeddus o agweddau tuag at y Gymraeg mewn unrhyw fframwaith cyfeirio oherwydd yr hinsawdd o ofn sy'n gadael ymatebwyr â phwyntiau dilys i'w gwneud yn agored i gael eu disgrifio'n 'wrth Gymraeg' neu'n 'wrth Gymreig', sefyllfa afresymol sy'n arwain at ofn dial a allai fod ar amryw ffurf, o drolio'r rhyngwyd, cyfyngu ar fasnach, dychryn a fictimeiddio unigolion a'u teuluoedd yn cynnwys plant, i fygwth marwolaeth ac enghreifftiau gwirioneddol o drais a difrod troseddol i eiddo. Mewn materion yn ymwneud â'r Gymraeg mae'r mwyafrif o ddinasyddion a busnesau sy'n parchu'r gyfraith wedi'u dychryn ormod i godi llais gan adael y cyfan yn agored i'r lobi Cymraeg lleiafrifol, ond uchel eu cloch, i fonopoleiddio'r hyn a fu ers 30+ o flynyddoedd yn 'ddadl' unochrog. Er mwyn derbyn ymateb rhydd a theg rhaid i unrhyw arolwg neu ymgyngoriad am

agweddau at y Gymraeg fod yn gwbl anhysbys ac yn gwbl gyfrinachol. Rhaid felly ei gynnal gan drydydd parti annibynnol heb gysylltiad â diwydiant hyrwyddo'r Gymraeg, sy'n amlwg yn cynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ni ddylid cynnwys propaganda unochrog gydag arolygon. Ni ddylai arolygon gynnig cyflwyniadau rhagfarnllyd, cyflwyno cwestiynau arweiniol, na rhagdybied bod pobl o blaid, fel y cyflwynwyd yn y rhagymadrodd i'r ymgynghoriad hwn, a'r rhan fwyaf o'r lleill a welais dros y blynyddoedd. Felly, mae'r ymgynghoriad hwn yn edrych yn ddiffygiol o'r cychwyn o ran cyfreithlonrwydd.

Pan gyflwynwyd opsiwn cymharol anhysbys mewn arolwg busnes diweddar gan Gyngor Gwynedd

(http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1163/Gwynedd_Business_Survey_1st_Half_201213_Full_Results_January_2013_Final.pdf) gwelwn o Ffigurau 19 ac 20 ar dudalennau 36-37 fod 4.2 gwaith cymaint o ymatebwyr yn teimlo bod y Gymraeg yn effeithio'n negyddol (32.1%) ar ddatblygu busnes o gymharu â'r rhai sy'n teimlo'i bod yn effeithio'n gadarnhaol (7.7%). Ymateb cychwynnol i hyn fyddai fod 60.2% o ymatebwyr felly'n amwys ond mae hyn yn annhebygol gan fod y rhai sy'n dewis enwi eu busnesau yn annhebygol iawn o gyfaddef fod ganddynt unrhyw 'safbwyntiau negyddol' os ydynt yn ceisio cymorth gan y Cyngor hwn gyda'i record hirsefydlog o wahaniaethu cadarnhaol tuag at ddefnyddwyr y Gymraeg a'u 'dwyeithrwydd gorfodol', hynny yw mynd ati'n systematig i gael gwared ar yr opsiwn i bobl fyw eu bywydau'n gyfan gwbl drwy'r Saesneg os ydynt yn dymuno drwy fethu â gweithredu cynllun iaith ddewisol ar gyfer cyfathrebu. Mae'n ffaith hysbys hefyd fod modd adnabod llawer o fusnesau sy'n gweithredu o gyfeiriad IP sefydlog yn eithaf hawdd. Mae'r canlyniadau felly'n dal i fod yn debygol o dan-ddatgan gwir gyfran y busnesau y mae'r Gymraeg yn effeithio'n negyddol arnynt.

Byddwn yn amcangyfrif fod tua 80% o'm cysylltiadau busnes yng Ngwynedd yn ystyried y Gymraeg yn ffactor negyddol sylweddol, er mai ychydig iawn fyddai'n mentro dweud hynny y tu allan i'r cylch o gydweithwyr y gallant ymddiried ynddynt. Mae'r rhai a fyddai'n anghytuno yn tueddu i ddibynnu ar y Gymraeg fel rhan o'u model busnes - cyfieithwyr a gweithwyr yn y cyfryngau neu'r diwylliant Cymraeg fel arfer, neu â chontractau gyda'r sector cyhoeddus sy'n mynnu'n bendant eu bod yn defnyddio'r Gymraeg. Yn wir, ymddengys bod rhai o'r busnesau hyn ond yn bodoli i wasanaethau'r sector cyhoeddus. Mae'n ddiddorol, ond mae rhai o'r bobl fusnes Cymraeg iaith cyntaf hyn y deuthum i'w hadnabod yn dda iawn dros fwy na degawd mewn sawl achos, hefyd wedi mynegi eu pryderon wrtha i'n breifat ynghylch yr effaith negyddol y mae gorfodi'r Gymraeg a gwahaniaethu'n ei chael ar yr economi a gwedd cymdeithasol yn lleol ac yn rhanbarthol. Ânt i drafferth i nodi nad yw 'diwydiant hyrwyddo'r Gymraeg' a gweithgarwch anghyfreithlon y lleiafrif yn eu cynrychioli nhw. Yn wir, maent wedi profi i fod ymhlith fy nghwsmeriaid hirdymor mwyaf teyrngar er eu bod yn gwbl ymwybodol o fy marn i mai mater o ddewis

personol ddylai'r Gymraeg fod ym mhob sefyllfa. Mae hyn yn awgrymu mai 'sefydliadol' i raddau helaeth yw'r problemau sy'n codi o'r Gymraeg.

O'r hyn sydd i'w weld yn fwyafriaf o berchnogion busnesau Saesneg eu hiaith, mae llawer, fel fi, yn rhy agos i oed ymddeol i wneud gadael Cymru yn opsiwn ymarferol ond dyna'n union beth hoffwn ei wneud a beth y mae mwyafriaf y rhai sy'n aros a fynegodd farn wrtha i eisiau ei wneud hefyd. Dangosodd arolwg diweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod dros 30% o berchnogion busnesau bach eisiau gadael Cymru ar hyn o bryd. Gallwch ystyried hynna o bosibl fel y senario orau bosibl! Mae tua 30% o berchnogion busnesau bach yng Ngogledd Cymru yn nesu at oed ymddeol - sefydlodd nifer eu busnesau cyn i eithafion gwaethaf polisi'r Gymraeg ddod yn amlwg. Yng Ngwynedd, fe ddywedwn fod yn agosach at 80% o berchnogion busnesau bach Saesneg iaith gyntaf bellach eisiau gadael Cymru a dyna yw'r dyfodol y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyn o bryd yn deddfu tuag ato gan fod polisi iaith yng Ngwynedd yn cael ei ddefnyddio fwyfwy fel model i lusgo Cymru i lawr i'r un lefel o chwalfa economaidd. A heuir a fedir! Collais gyfrif ar y busnesau a phobl eraill weithgar yn economaidd, pwysig i fusnes yn aml, sydd wedi gadael Cymru am Loegr neu'r tu hwnt. Mae'n mynd yn anos cael hyd i staff medrus yn lle'r rhai sy'n gadael. Cymraeg gorfodol yn yr ysgol, a fersiwn arbennig Cyngor Gwynedd o deilwra cymdeithasol mewn ysgolion, yw'r prif reswm sy'n cael ei roi dros adael. Mae rhai wedi gadael er mwyn cael gwell gofal iechyd. Mae rhai wedi derbyn colledion 5-ffigur am fod hynny'n well nag aros.

Mewn byd lle bydd rhieni uchelgeisiol yn symud 'ar draws y dref' i fod yn nalgylch ysgol well, mae hi bron yn amhosibl dirnad y byddai unrhyw riant gwybodus yn barod i symud eu plant i ysgolion Cymraeg – mae'r niwed a achosir drwy symud i mewn ac allan o ysgolion nad ydynt yn Saesneg eu cyfrwng wedi'i ddogfennu'n ddigonol. Caiff ei gydnabod yn llawn gan y Weinyddiaeth Amddiffyn sy'n talu am addysg breifat mewn 5 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru drwy'r Lwfans Ysgolion Dydd (Gogledd Cymru) i atal niwed i blant aelodau o'r lluoedd arfog yn sgil symud i mewn ac allan o addysg mentor allanol. Gwelir yr un broblem yn union yn achos staff technegol a rheoli symudol iawn sydd eu hangen ar gyfer datblygu busnes a chreu safleoedd newydd, ond nid oes unrhyw help ar gael i'r rhain oni bai bod eu cyflogwyr yn barod i roi cymhorthdal tuag at addysg trwy gyfrwng y Saesneg mewn ysgol mentor allanol breifat, hyd yn oed os oes llefydd addas ar gael, sydd ddim bob amser yn wir. Mewn llawer o achosion, mae Cymraeg gorfodol yn yr ysgolion bellach yn fater sy'n atal staff allweddol rhag cael eu recriwtio i fyw a gweithio yng Nghymru. Yn y gorffennol, byddai cwmni a ymsefydlai yng Ngwynedd fel arfer yn rhoi gwybod i'w staff newydd fod addysg cyfrwng Saesneg ar gael yn awdurdod lleol Conwy, ac yn eu cynghori i brynu tŷ mewn dalgylch addas, ond gellir dadlau nad yw hyn yn wir mwyach gan fod yr ysgolion sy'n honni mai Saesneg yw eu cyfrwng yn newid i weithredu drwy gyfrwng y Saesneg gyda chryn dipyn o Gymraeg a throi'n raddol i fod yn ysgolion Cymraeg eu cyfrwng. Mae ystadegau ar gael, heb fod yn ddigon eang yn anffodus, sy'n dangos fod ysgolion Cymraeg eu cyfrwng yn tangyflawni o sawl pwynt canran o

gymharu ag ysgolion cyfatebol Saesneg eu cyfrwng (o addasu ar gyfer ffactorau cymdeithasol). Mae'r ymgyrch gyfundrefnol o hau gwybodaeth anwir ynglŷn â manteision addysg Gymraeg a dwyieithog bellach yn cael ei hamlygu ac yn dod yn fwy hysbys y tu allan i Gymru. Felly, o safbwynt addysg yn unig, ni welir Cymru bellach fel rhan o'r DU ac mae'n dioddef o'r herwydd, gyda chwmnïau yn y DU a thramor i bob pwrpas yn anwybyddu'r ardal fel lleoliad posibl ar gyfer datblygiadau newydd. Mae busnesau presennol yn gadael Cymru am yr un rhesymau er bod y dirwasgiad wedi'i gwneud hi'n llawer haws meddwl am esboniadau eraill.

Mae'r ateb rwy'n ei ffafrio ar gyfer polisi'r Gymraeg mewn busnes yr un fath â fy ateb ym mhob sefyllfa. Os yw Cymru'n mynd i ailadeiladu ei heconomi (a'i gwasanaethau cyhoeddus sy'n dirywio) mae'n hanfodol fod pob ffurf ar orfodaeth Gymraeg a dwyieithog yn cael eu dileu ar unwaith ynghyd â phob ffurf ar wahaniaethu ar sail iaith, boed yn wahaniaethu cadarnhaol annheg neu'n wahaniaethu negyddol sydd â'r un canlyniadau ymarferol â gwahaniaethu hiliol. Rhaid i chi ddechrau drwy gael gwared ar Gymraeg gorfodol o bob lefel o addysg. Yr ail newid mwyaf defnyddiol fyddai cyflwyno cynllun iaith ddewisol lle gall busnesau ac unigolion bennu a ydynt eisiau i bob gohebiaeth (yn cynnwys yr hyn a elwir yn swmp-bost a ffurflenni statudol) yn Saesneg yn unig, yn Gymraeg yn unig, neu yn y ddwy iaith. Hefyd, rhaid i gymorthdaliadau annheg i fusnesau 'iaith Gymraeg' stopio hefyd - mae'n ffynhonnell gwrthdaro mawr yn y sector busnes.

Adborth to dai for

David Wyn Williams

Polisiau caffael

I glywed fel gwaith cartref! Yn syml iawn, gwobr yw'r Gymraeg. Dim ond ar gael i fusnesau sydd a'r amser a'r brwdfrydedd I fanteisio arni;
"This offer is only available to businesses to want to make money in Wales"

Polisiau/arferion cyflogaeth

Dylid pob cyfweiliad gan fudiadau cyhoeddus cael ei wneud drwy'r Gymraeg. Blaenoriaeth yn hollol i'r iaith. Os nad oes pobl ar gael I gyfweild yng Nghasnewydd (gan gynnwys Adnoddau Dynol y Sir) amser i nhw weithio rhywle arall. Yn fasnachol, hollol lan i fusnesau bach, pam ymyrryd? (Gweler uchod) Os meant amfanteisio, yna cefnogwch a chynghorwch gymaint s y'n bosib (a dyna yw f'arbenigedd)

Cymorth i fusnesau (ariannol a chynghorol)

Fodlon cyflwynwch hyn gyda chostau teg am deithio a gewch chi ostyngiad cychwynnol!
Er y cyngor ges i gan arbennigwr y Cynulliad oedd £40 yr awr

Cynllunio

Dwi am lywio Ffederasiwn newydd i fusneau Cymraeg - gweler "Iaith y Gymdeithas" ar Facebook (100+ o aelodau)
(Rwyf ar hanner gwneud MA yn y Cyfryngau Creadigol, Ymarferol ym Mhrifysgol Aberystwyth
felly gen i filoedd yn fwy o eiriau wedi eu hysgrifennu yn barod ar y pwnc, rhwch wybod os
am weld y traethodau hyd yn hyn, er nifer o'r syniadau ar fy mlog i golwg yn barod:
<http://golwg360.com/blog/dai-lingual>)

a) Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

Yn yr un modd mai'r lwerddon yn defnyddio y gwahaniaethau ym mywyd a diwylliant 'Yr Ynys Werdd' i farchnata'r wlad yn ryngwladol, gall bwysleisio gwahaniaethau yn ein gwlad denu diddordeb a buddsoddiad rhyngwladol pellach.

Dylai bod dwy-ieithrwydd yn ran anatod o'n marchnata mewnol ac allanol fel gwlad, wedi'r cwbl dyma'r unig un o'r ardaloedd (gan gynnwys Cernyw a Ynys Manaw felly) Celtaidd le mae'r iaith yn ffynnu. Beth mae hyn yn arddangos am ein diwylliant? Ein bod yn gydweithredol, gymunedol ac yn rhoi pwysigrwydd mawr ar ddiwylliant – rhinweddau sydd i'w hamlygu ac ymfalchio ynddynt.

Rhaid cofio fod aml-ieithrwydd yn gyffredin dros y byd i gyd, i raddau dim ond yr hen Ewrop sy'n disgwyl byw fel monoglot : Lloegr, Ffrainc ac yr Almaen. Mae bob man

arall yn aml ei hiaith, a chofiwch fod Ffrainc a'r Almaen yn ymylu ar ei gilydd ac felly mae eu ieithoedd nhw'n cymysgu rhywfaint hefyd.

Mae'r diffyg geiriau Cymraeg yn Saesneg yn destun sgwrs finnau a Gareth Glyn yn ein ffilm "Glyn, Wyn a Phen Gwyn" sydd ar restr fer Gwyl Ffilmiau Caerdydd y penwythnos hon ("Cardiff Mini Film Festival.") Mae hyn yn ardal amlwg le mae iaith arall yn gryfder – a ydy ni'n ystyried bod is-deitlau yn wendid ar y dramau o Sgandinafia?

b) Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Gweithiaf ar hyn o bryd ar brosiect sydd yn amlygu'r Cymraeg er mwyn bod yn safle we i ddilynwyr cerddoriaeth werin dros y byd : proto-wefannau yw www.youtube.com/panwalesmusiccymru a www.panwalescymru.wordpress.com sydd yn defnyddio ein diwylliant a'n iaith fel cryfder.

Yn ogystal, finnau yw awdur y trydary-yn sy wedi ei RT (ail-drydar) fwyaf erioed yn y Gymraeg am wn i:

Cafodd "RT os ydych chi'n deall y neges yma" bron 700 RT o fy nghyfrif www.twitter.com/cardiffirinj ; a nifer o ddilynwr yn ei sgil. Credaf fod hi'n hollbwysig amlygu ein hiaith a'n diwylliant ym mlwyddyn www.womex.com ac felly gweithiaf yn ddi-dor at y bwriad hynny, gan taw datblygiad economaidd yw sail pob dim:

Dyna oedd sail colli'r iaith yn y cymoedd wrth i ddiwydiant trwm gyrraedd,

A dyna'r sail i'r diddordeb eang sydd yn yr iaith yng Nghaerdydd nawr wedi dyfodiad y Cynulliad. Y bobl leol sydd fwyaf angerddol ynglyn a'r iaith yn fy mhrofiad i o weithio yn y bydd addysg yn yr ardal ers 2008 yw teuluoedd Trelai a Troubridge, ardaloedd mwyaf di-freintiedig y ddinas le nad oes dyfodol sicr i'w plant oni bai eu bod yn dysgu Cymraeg ac felly yn gallu ar sgiliau a gwaith arall.

Rhaid dechrau o'r man cychwyn mai Cymru yw'r gwlad, Cymraeg yw'r iaith ac felly cyfieithu er mwyn y di-Gymraeg/ mewnfudwyr ydyn ni, nid er mwyn y Cymry Cymraeg. Mid daw pob dim arall yn sgil hynny.

Cefais eisoes fy ngofyn i sefydlu Ffederasiwn o Fusnesau Cydweithredol Cymraeg i fusnesau sy'n gweithio trwy'r Gymraeg yn hanesyddol ac yn draddodiadol – mae busnesau megis Siop y pethe a'r Llew Du yn Aberystwyth erioed wedi defnyddio'r Gymraeg a chael busnes sy'n talu'r biliau. Dim ond yn ddiweddar mae angen iddynt ail-strwythuro i sicrhau dyfodol yr un mor llwyddiannus a dyna pham yr angen am ffederasiwn i gydlynu ac arwain ar hyn gan ddefnyddio esiamplau eraill. Credaf bydd angen cefnogaeth y Cynulliad i wiredu hyn a dwi'n fodlon cwrdd i drafod pe bai angen.

c) Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

Sai'n hapus iawn a geiriad yr uchod i ddweud y gwir – ife trawsieithiad o'r Saesneg ydyw? Fodd bynnag,

Mae'n rhaid bod y sector gyhoeddus yn arwain ar yr iaith, oherwydd heb esiampl pendant o lwyddiannau'r iaith ni fydd 'Jones & Jones & Sons local business' a diddordeb buddsoddi mewn beth maent yn gweld ar hyn o bryd fel tipyn o geffyl pren i danseilio eu busnes.

Rwyf wedi cwyno ddwy-waith i Fro Morgannwg am ddiffyg arwyddion ffyrdd Cymraeg yn fy mhentref heb lwc,

A dwi'm yn deall gan mod i'n ceisio creu gwaith iddynt, ac felly tal a phob dim i siaradwr Cymraeg hoffon i feddwl, gan mai Cymry sy'n deall os yw arwydd yn iawn neu beidio. Hynny yw, rhaid bod yn fwy hunanol. Atebwch y ffon yn y Gymraeg, mynnwch fod y cwmnïau masnachol sy'n gwerthu dros y ffon yn dod o hyd i Gymry Cymraeg i gyfathrebu a chi, ac yn sydyn iawn mae yna fwy o waith i'r rhai sy'n gadael Ysgol Gyfun Cwmtwrch.

Pe bai pob cwyn am ddiffyg yr iaith yn cael ei droi yn waith, ni fyddai modd mwyach cael ei "muggio" yng Nghymraeg yng Nghaernarfon. Ac er gymaint o sbort yw hynny mae'n siwr, dwi'n credu byddai pawb yn hoffi gweithio yn yr hen iaith.

ch) Enghreifftiau o arferion da o ran cyflogi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg

Nid y Mudiad Meithrin mwyach yn anffodus, maent dal i gyflogi Cymry nad sydd am ddysgu'r iaith.

Heblaw'r traddodiadau o addysg a ffermio, mae'r iaith ar chwal a mae'n rhaid cyfaddef hynny yn syth.

Megis Masnach Deg, rhaid cael diwylliant sydd am wobrwyo menter leol, ac o ddifri beth sy'n mwy lleol na'r iaith (a dydi iaith ddim yn rhagfarnllyd chwaith, gall bobl dwad ddysgu os ydynt am wneud hynny.)

Dyma'r busnesau dwi'n mwynhau gwasanaeth Gymraeg dda / sy'n cyflogi Cymry Cymraeg:

SWALEC

Llew Du Aberystwyth

Llew Du Talybont

Y Lolfa

Coleg Cymru

Prifysgol Aberystwyth

Dylanwad Wines

Morgans Butchers

Gwesty Cymru

Baravin

Telesgop

Siop Inc

BBC Radio Cymru

Ffigar Sports

Nifer fawr o'r busnesau sy'n defnyddio'r hashtag #yagym (fi wnaeth weinyddu'r cyfrif i'r awr Gymraeg ddiwethaf yw wythnos hon, bob nos Fercher am 8yh.

d) Enghreifftiau o fusnesau sydd wedi bod ar eu hennill o farchnata eu hunain fel rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg

Dyma fy arbenigrwydd. Mae pob un o'r clientiaid dwi'n gweithio gyda wedi gwella oherwydd fy mod wedi ymgynhori a'u hanghenion ieithyddol :

Aberystwyth Toy Shop, Pier St Uni Day Centre, Prifysgol Caerdydd, Izmir, Broad St, y Barri, Y Lolfa, Gwasg Prifysgol Cymru, Radio Ceredigion

Hyn yn dilyn esiampl Glengettie, Bwydydd Castell Howell, a pha enghraifft well na'r dwr a oedd ar y snwcer ac ar Friends : Ty Nant. Siawns na fyddai Welsh Water from the Stream of the House wedi cyrraedd yno yn yr un modd.

dd) Awgrymiadau ar gyfer hwyluso'r gwaith o hybu datblygu economaidd a'r Gymraeg gyda'i gilydd

Gwefan i hybu diwylliannau traddodiadol Cymru, ffederasiwn o fusnesau gwirioneddol Cymraeg. Cysylltwch!

Ymateb i'r alwad am dystiolaeth: Defnydd o'r iaith Gymraeg

David Lermon, ICAEW

Mae Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr (ICAEW) yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar ddatganiad yr alwad am dystiolaeth gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen y Gymraeg a Datblygu Economaidd ar 16 Ebrill 2013.

Cefndir

Mae ICAEW yn gorff cyfrifyddiaeth proffesiynol byd-eang. Gweithredwn o dan Siarter Frenhinol, gan weithio er lles y cyhoedd. Goruchwylir y modd y mae ICAEW yn rheoleiddio ei aelodau, yn enwedig ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag archwilwyr, gan Gyngor Adrodd Ariannol y DU. Rydym yn darparu arweinyddiaeth a chymorth ymarferol i dros 141,000 o'n haelodau sy'n gyfrifwyr siartredig mewn mwy na 160 o wledydd, gan weithio gyda llywodraethau, rheoleiddwyr a'r diwydiant i sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cynnal.

Mae aelodau ICAEW yn gweithredu ar draws ystod eang o feysydd mewn busnes, ymarfer a'r sector cyhoeddus. Maent yn darparu arbenigedd ac arweiniad ariannol yn seiliedig ar y safonau proffesiynol, technegol a moesol uchaf. Maent wedi'u hyfforddi i sicrhau eglurder a thrylwyrdd, gan helpu i greu gwerth economaidd cynaliadwy hirdymor.

Mae gan ICAEW, sy'n aelod gweithredol o Commerce Cymru (Busnes Cymru gynt) a Chyngor Adnewyddu'r Economi, 3,000 o aelodau yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

Mae gan ICAEW dros 20,000 o aelodau'n gweithio y tu allan i'r DU. Caiff cymhwyster ICAEW ei gydnabod ledled y byd fel cymhwyster busnes proffesiynol o fri. Mae gan aelodau hawl i gael eu galw'n gyfrifwyr siartredig ac i ddefnyddio'r llythrennau dynodol ACA neu FCA. Gellir sefyll arholiadau am y cymhwyster mewn amryw o wledydd ar draws y byd yn cynnwys Tsieina, Rwsia, Malaysia a Phacistan: fodd bynnag, caiff y papurau eu gosod a'u marcio yn Saesneg bob amser.

Crynodeb

Ni chredwn y dylai hyrwyddo'r Gymraeg fod yn flaenoriaeth mewn polisi datblygu economaidd ac nid ydym yn argyhoeddedig fod gan y Gymraeg a dwyieithrwydd ran fawr i'w chwarae wrth gefnogi twf busnes a datblygiad economaidd. Credwn ei bod hi'n hanfodol annog busnesau Cymru i fod yn fwy, nid yn llai, allblyg.

Ymateb Manwl

Yn yr ymateb hwn, rydym yn canolbwyntio ar y tri chwestiwn cyntaf a ofynnwch yn eich galwad am dystiolaeth, gan na allwn roi sylwadau ar y tri olaf.

- a) *Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?*

Nid ydym yn siŵr y gall wneud hynny. Er y gall gweithredu'n ddwyieithog greu rhai manteision mewn marchnadoedd penodol, mae angen cydnabod – yn arbennig efallai o ran cadw cyfoeth o fewn cymunedau penodol drwy annog gwario incwm yn lleol, ac o bosibl, drwy'r effaith ar dwristiaeth oddi mewn i Gymru – bod costau ychwanegol yn gysylltiedig â chynnal busnes yn ddwyieithog, yn enwedig mewn byd lle mae Saesneg yn cael ei gweld fwyfwy fel *lingua franca* sy'n dderbyniol. Hyd yn oed mewn twristiaeth, mae'n bosibl y gallai pwyslais rhy gryf ar y Gymraeg amharu ar brofiad ymwelwyr.

Ymhellach, o ystyried nad yw 78% o boblogaeth Cymry yn siarad Cymraeg, byddem yn bryderus y gallai unrhyw gynnydd yn y pwyslais mewn polisi cyhoeddus ar bwysigrwydd rhuglder yn y Gymraeg fel sgil allweddol yn y gweithle ychwanegu rhwystrau i gyflogaeth a datblygu gyrfa i fwyafrif y llafurlu Cymreig.

b) Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Ni chredwn y gallai nac y dylai wneud hynny. O ystyried yr heriau enfawr sy'n wynebu economi Cymru o ran cyflogaeth a chystadleurwydd, rydym yn amheus a ddylai cefnogi defnydd cynyddol o'r Gymraeg fod yn flaenoriaeth i bolisi datblygu economaidd yng Nghymru.

Yn fwy cyffredinol, credwn ei bod hi'n hanfodol i Lywodraeth Cymru ddiogelu cystadleurwydd busnesau Cymreig, ac yn hynny o beth, byddem yn dadlau mai'r hyn sy'n hanfodol i fusnesau Cymru (yn enwedig gweithgynhyrchu a gwasanaethau busnes i fusnes) yw bod yn fwy, nid yn llai, allblyg.

Nid ydym yn derbyn fod problemau sylweddol o ran parodrwydd neu amharodrwydd busnesau i wneud busnes drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn wahanol i wasanaethau'r Cyngor Lleol neu'r Bwrdd Iechyd Lleol, gall cwsmeriaid sy'n teimlo nad yw eu banc neu eu cymdeithas adeiladu yn rhoi digon o bwys ar y Gymraeg fynd i rywle arall, ac nid ddylai'r Llywodraeth geisio gorfodi rhywbeth nad yw'r farchnad yn ei werthfawrogi. I lawer o fusnesau Cymru (yn enwedig rhai allblyg) cymharol ychydig o bwysigrwydd sydd i'r Gymraeg¹.

c) Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

Eto, rydym yn amau a allai neu a ddylai geisio gwneud hynny. Er ein bod yn cefnogi annog a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat ar sail wirfoddol, ac y

¹ Tanlinellir hyn gan Sgiliau Dyfodol Cymru, 2003, a ddangosodd fod cyflogwyr yn graddio sgiliau yn y Gymraeg fel un o'r ddau sgil generig lleiaf pwysig (Arolwg Sgiliau Generig, tudalen 21) ac mai dim ond 6% o'r holl breswylwyr a gyfwelwyd oedd yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf yn y cartref (Ibid., tudalen 73). Yn fwy diweddar, gwelodd Arolwg Sgiliau Cyflogwyr y DU 2011 mai dim ond lleiafrif bach o gyflogwyr a nododd fod angen mynd i'r afael â bylchau sgiliau'n gysylltiedig â'r Gymraeg (a graddio sgiliau yn y Gymraeg yn llai pwysig nag unrhyw sgiliau eraill a nodwyd ac eithrio sgiliau iaith dramor) (Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y DU 2011 - canlyniadau Cymru, tudalen 58).

byddem yn cefnogi ymyriadau fel Gwobrau neu nodau barcud sy'n cydnabod ymarfer da busnesau unigol o ran darparu gwasanaeth dwyieithog, ni chredwn y dylai'r sector cyhoeddus geisio defnyddio offerynnau polisi cryfach (megis deddfwriaeth neu bolisi caffael) i orfodi neu gymell busnesau (a chyflogwyr yn fwy cyffredinol) i ddefnyddio'r Gymraeg lle byddai'n well ganddynt beidio â gwneud hynny.

Mewn gwlad lle nad yw 78% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, byddem yn dadlau ei bod hi'n anorfod y bydd y Saesneg, mewn llawer iawn o achosion, yn parhau i fod yn iaith ragosodedig y gweithle a busnesau. Yn wir, byddem yn nodi mai Saesneg yw'r iaith ragosodedig mewn nifer o fentrau y tu allan i'r DU mewn gweithluoedd â gwahanol famieithoedd (hyd yn oed pan na fydd Saesneg yn eu plith). Rydym yn amau hefyd a oes yna broblem go iawn ar hyn o bryd. Mae Arolygon Defnydd o'r Gymraeg Bwrdd yr Iaith yn awgrymu fod llai na 15% o ymatebwyr yn y sector preifat a llai na 5% o ymatebwyr yn y sector cyhoeddus yn credu nad oedd eu cyflogwyr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Ymateb i ymgynghoriad “Y Gymraeg a datblygu economaidd” gan Uned Technolegau Iaith, Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor.

Mehefin 21, 2013.

Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

Crynodeb

- Mae technolegau sy'n ymdrin ag ieithoedd dynol yn hanfodol yn ddarpariaeth a llwyddiant cwmnïau mwyaf y sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu heddiw.
- Mae arbenigedd yn Uned Technoleg Iaith Canolfan Bedwyr yn y technolegau hyn ar gyfer y Gymraeg.
- Llwyddiant cynlluniau trosglwyddo gwybodaeth yr UTI, megis Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth ac Ysgoloriaethau wrth gynorthwyo cwmnïau yng Nghymru i elwa drwy gynlluniau trosglwyddo gwybodaeth.
- Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru heb fanteisio'n llawn ar dechnolegau hwyluso cyfieithu, nac ychwaith ehangu llawer i ieithoedd eraill. O'r herwydd mae asiantaethau cyfieithu tu allan i Gymru yn elwa.
- Mae'r model cymorthdaliadau ar ffurf grantiau cyhoeddi wedi cynorthwyo'r diwydiant i ffynnu.
- Mae poblogrwydd e-lyfrau, apiau, gemau electronig ac ati yn profi bod angen parhau i arloesi, fel arall bydd y diwydiant cyhoeddi yn gyfyng ac amherthnasol.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gefnogi ymchwil ac arloesi ar gyfer y sector technoleg iaith a lleferydd Cymraeg.
- Mae'r Gymraeg a dwyieithrwydd yn cynnig cyfleoedd mewn marchnad amlieithog fyd-eang.
- Fel gwlad ddwyieithog, mae gan Gymru fantais naturiol mewn sgiliau ar gyfer diwydiannau sy'n gofyn am arbenigedd ieithyddol ac amlieithog.

Ymateb Llawn

Cyfeiriwn yn arbennig at y Sector Technolegau Iaith a Lleferydd (SALT), y Diwydiant Cyfieithu, a'r Diwydiant Cyhoeddi yng Nghymru. Fel gwlad ddwyieithog, mae gan Gymru fantais naturiol mewn sgiliau ar gyfer diwydiannau sy'n gofyn am arbenigedd ieithyddol ac amlieithog.

1. Technolegau Iaith a Lleferydd

Technolegau iaith a lleferydd yw'r maes o fewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu sy'n ymdrin ag ieithoedd dynol. Yn ddiweddar bu pwyslais arbennig yn y maes ar dechnolegau dadansoddi testun a sain, deall barn a sentiment, cyfieithu peirianyddol, digido, adnabod lleferydd, testun i leferydd yn ogystal â chymhorthion awduro.

Mae'r technolegau hyn yn gydrannau hanfodol yn ddarpariaeth a llwyddiant cwmnïau mwyaf y sector Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu heddiw. Wrth i feddalwedd a gwasanaethau fel y darperir gan y cwmnïau hyn ymledu drwy'r byd ac yn fwyfwy i ein gwaith a'n bywydau bob dydd, mae'n hanfodol bellach i'r technolegau gynorthwyo amlieithrwydd.

Datblygwyd arbenigedd yng Nghymru, yn bennaf yn Uned Technolegau Iaith Canolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, i ymdrin â'r technolegau hyn ar gyfer y Gymraeg. Mae'r UTI wedi cynorthwyo cwmnïau yng Nghymru i elwa ar nifer o gyfleoedd drwy gynlluniau trosglwyddo gwybodaeth e.e. Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) ac Ysgoloriaethau Cyfnewid Gwybodaeth (KESS ac ATM) .

Mae'r Uned hefyd wedi cynorthwyo partneriaethau rhwng cwmnïau lleol â chwmnïau rhyngwladol fel Microsoft, er mwyn mewnbynnu a chynnal yr arbenigedd a chpasiti ieithyddol Cymraeg gorau mae'r cwmnïau hyn eu hangen ar gyfer eu buddsoddiad yn y farchnad Cymraeg a Chymreig.

Mae darparu adnoddau technolegau iaith a lleferydd Cymraeg yn faes o weithgarwch economaidd pwysig felly, sy'n cyflenwi anghenion y farchnad ddomestig ac sy'n cysylltu cynnig cyfleoedd i farchnad fyd-eang amlieithog.

Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i gefnogi ymchwil a datblygu ar gyfer y sector technolegau iaith a lleferydd yng Nghymru, ac i gefnogi cwmnïau bach lleol i ddarparu arbenigedd yn y maes.

2. Y Diwydiant Cyfieithu

Yn fyd-eang mae'r diwydiant cyfieithu yn werth biliynau o bunnoedd, ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf datblygodd diwydiant cyfieithu bychan ond llewyrchus yng Nghymru sy'n rhoi cyflogaeth o ansawdd uchel yn aml mewn ardaloedd gwledig lle mae swyddi proffesiynol yn brin.

Fodd bynnag mae'r diwydiant yn dal yn fach ac yn dameidiog, heb fanteisio i'r eithaf ar dechnolegau hwyluso cyfieithu na busnes blaengar i gynyddu'u cyfran o'r farchnad. O'r herwydd mae asiantaethau cyfieithu o'r tu allan i Gymru yn medru cystadlu'n llwyddiannus am gontractau cyfieithu Cymraeg/Saesneg, gyda'r elw yn llifo allan o Gymru. Nid yw'r diwydiant ychwaith wedi ehangu llawer i ieithoedd eraill, nac i sefyllfaoedd lle mae angen cyfieithu i nifer helaeth o ieithoedd yr un pryd.

Credwn fod angen i Lywodraeth Cymru gefnogi'r diwydiant cyfieithu Cymraeg yng Nghymru. Credwn yn ogystal bod angen i'r sector cyhoeddus Cymreig caffael gwasanaethau cyfieithu gan gwmnïau o Gymru gan helpu i'r diwydiant datblygu ac i gystadlu yn y farchnad amlieithog ehangach. Fel hyn gwelir cefnogi dwyieithrwydd yng Nghymru nid fel baich economaidd ond yn hytrach yn gyfle masnachol.

3. Y Diwydiant Cyhoeddi

Mae'r diwydiant cyhoeddi wedi dangos sut y gellir cynnal cwmnïau cyhoeddi bychain, trefn ddsbarthu, siopau llyfrau, ac awduron yn gweithredu drwy'r Gymraeg yn rhai o ardaloedd mwyaf anghenus Cymru. Mae'r model sy'n targedu'r cymorthdaliadau ar ffurf grantiau cyhoeddi wedi cynorthwyo'r diwydiant i ffynnu, a chredwn fod hwn yn fodel llwyddiannus i'w efelychu mewn sectorau creadigol eraill. Mae poblogrwydd e-lyfrau, apiau, gemau electronig ac ati yn dangos bod angen parhau i arloesi. Rhaid i'r gefnogaeth a roddir i'r sector, o ran hyfforddiant a chymorthdaliadau, fod yn hyblyg i ymateb i gyfryngau newydd.

Fel arall bydd diwydiant sydd wedi'i gyfyngu i lyfrau traddodiadol yn mynd yn fwyfwy hen-ffasiwn ac amherthnasol.

Mae hyn o bwys yn enwedig wrth gyfieithu o'r Gymraeg a gwerthu i farchnadoedd eraill. Mae'r farchnad Tsieina a galw enfawr am ffuglen, yn enwedig ar gyfer plant. Felly mentrwyd yn ddiweddar i werthu llyfrau o gyfieithiadau o Gyfres Rwdlan i Tsieina. Mae'n debyg mewn amser daw cyfleoedd i greu gemau neu fersiynau e-lyfrau rhyngweithiol o'r storïau.

Os bydd mentrau fel hyn yn llwyddo, bydd yn hwb sylweddol i'r farchnad lyfrau a'r diwydiannau creadigol eraill yn y Gymraeg, gydag arian breindaliadau tramor yn cefnogi datblygiad creadigrwydd yn y Gymru Gymraeg.

Am fwy o wybodaeth ar y materion hyn, gweler y canlynol:

Adroddiad SALT Cymru (Jones, Prys et al. 2008)
http://www.saltcymru.org/english/SALT%20Cymru%20_HE%2006%20KEP%201002_%20Project%20Closure%20Report.pdf (<http://goo.gl/zmnfl>)

Gwell Offer Cyfieithu ar gyfer y Diwydiant Cyfieithu yng Nghymru (Prys, Prys & Jones, 2009) <http://www.catcymru.org/wordpress/wp-content/uploads/PDFGwell%20offer%20technoleg%20cyfieithu%20ar%20gyfer%20y%20Diwydiant%20Cyfieithu%20yng%20Nghymru.pdf> (<http://goo.gl/dLm4e>)

Tystiolaeth yr UTI i Bwyllgor Materion Cymreig y Tŷ Cyffredin: Globalisation and Its Impact on Wales: Second Report of Session 1, Volume 2 By Great Britain. Parliament. House of Commons. Welsh Affairs Committee (2008-09)
<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm200809/cmselect/cmwelaf/184/184i.pdf> (<http://goo.gl/Nzq3E>)

Yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd - UCAC

Mae Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) yn croesawu'r cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaiddadroddiad y tasglu i'r Cwricwlwm Cymreig, Hanes a Stori Cymru. Mae UCAC yn cynrychioli 5,000 o athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr addysg bellach ac addysg uwch ym mhob rhan o Gymru.

Yn sgil yr angen i ymateb i lu o ymgynghoriadau eraill yn ystod yr un cyfnod, nid ydym wedi cael amser i baratoi ymateb manwl at sylw'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac ymddiheurwn am hynny. Byddem yn barod iawn i roi rhagor o dystiolaeth yn y dyfodol, petai hynny o gymorth i'r Grŵp.

Serch hynny, hoffem dynnu sylw'r Grŵp at bwysigrwydd y ffactorau canlynol:

Sicrhau digonedd o gyrsiau cyfrwng Cymraeg, ôl-14 ac ôl-16 (yn enwedig mewn pynciau galwedigaethol, ond heb eu cyfyngu i'r rheiny) mewn ysgolion a Cholegau Addysg Bellach er mwyn sicrhau bod pobl yn cyrraedd y gweithlu gyda chyfuniad o sgiliau addas ar gyfer y gweithle penodol, a sgiliau dwyieithrwydd gan gynnwys yr hyder i ymdrin â phynciau ac â phobl yn y ddwy iaith. Er bod pwysau ar y sector Addysg Bellach i ddarparu mwy o gyrsiau Cymraeg/dwyieithog, mae'r nifer o gyrsiau yn parhau'n nifer ac yn gyfran fach iawn. Efallai bod angen ystyried sut y gellid defnyddio'r system ariannu ôl-16 newydd yn well er mwyn creu cymhelliannau i ddarparu cyrsiau Cymraeg

Am yr un rhesymau ag uchod, sicrhau cyflenwad digonol o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg/dwyieithog, a chysiau Addysg Uwch

Yn sicr mae cael gweithlu dwyieithog yn gallu bod yn fantais i gwmnïoedd – mae'n fodd i feithrin perthynas â chwsmeriaid ac â chymunedau; os yw'r sgiliau o fewn y gweithlu, mae'n werth eu marchnata

Cynllunio gweithluoedd; yn enwedig pan fydd gan y Llywodraeth rôl mewn pennu niferoedd cyrsiau neu brentisiaethau mewn pynciau penodol, mae'n bwysig bod hynny'n cael ei wneud ar sail dadansoddiad o'r angen am weithwyr dwyieithog

Polisiau caffael – pan fydd unrhyw gorff cyhoeddus yn rhoi cytundeb i dendr, dylid sicrhau bod meini prawf y tendr yn ei gwneud hi'n ofynnol bod gan y cwmnïoedd sy'n cystadlu: yr ymwybyddiaeth ofynnol o'r cyd-destun dwyieithog, neu'r gallu i ddarparu'n ddwyieithog – yn ôl yr angen. Gwelwn yn llawer rhy aml, cwmnïoedd yn ennill cytundebau am waith yng Nghymru (gan gynnwys cytundebau gan Lywodraeth Cymru) nad oes ganddynt syniad ynghylch sut i ymdopi â sefyllfa o ddwyieithrwydd, neu sy'n meddwl y gallant ddarparu (e.e. drwy gyflogi cyfieithwyr), ac yn methu'n llwyr. Mae hynny'n cael effaith negyddol ddwbl (i) nid yw'r gwasanaeth a ddarperir yn cyflawni'r gofynion (ii) mae'r gwaith wedi mynd i gwmni tu allan i Gymru, pan allai fod wedi cyfrannu at economi leol a chreu swyddi lleol petai'r meini prawf wedi gofyn am yr arbenigedd/dealltwriaeth o ran y Gymraeg/dwyieithrwydd.

Ymateb i'r Alwad am Dystiolaeth: Defnydd o'r iaith Gymraeg

Katy Chamberlain – Busnes mewn Ffocws

Yn Busnes mewn Ffocws, rydym yn croesawu'r cyfle i gyfrannu ein profiad i alwad Grŵp Gorchwyl y Gymraeg a Datblygu Economaidd am dystiolaeth

Cefndir

Mae Busnes mewn Ffocws wedi bod yn darparu cymorth i fusnesau yng Nghymru ers dros ugain mlynedd, drwy ddarparu cyngor busnes i fusnesau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod. Gyda'n partneriaid, rydym ar hyn o bryd yn darparu rhaglen gymorth Dechrau Busnes Llywodraeth Cymru yn y De. Rydym hefyd yn arwain y consortiwm o gwmnïau sy'n darparu gwasanaeth Siop Un Stop Busnes Cymru y Llywodraeth i fusnesau sy'n bodoli'n barod ledled Cymru. Hefyd, rydym yn darparu adeiladau ar gyfer dros 220 o fusnesau bach ar draws y De.

Ein profiad

Yn ein hymateb, byddwn yn canolbwyntio ar ddau gwestiwn.

Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

Yn ein contractau, gan bwysu'n benodol ar ein gwaith ar y gwasanaeth Dechrau Busnes, rydym yn darparu cyngor, hyfforddiant a chymorth ymarferol i unigolion sy'n ceisio dechrau eu busnesau eu hunain. Nod y gwasanaeth yw galluogi pobl i weithio, ennill bywoliaeth a defnyddio'u talentau er eu budd eu hunain, ac yn y pen draw, er lles Economi Cymru. Gallai hyn fod yn syml drwy gynnal eu hunain a'u teuluoedd, neu gallai arwain at ddatblygu busnes a fydd yn tyfu ac yn creu swyddi i eraill.

Mae'r bobl sy'n troi at y gwasanaeth yn amrywio'n sylweddol o ran eu lefelau o brofiad a hyder. Mae rhai wedi bod i ffwrdd o fyd gwaith ers peth amser. Rydym yn cynnig cyfle i bob cleient dderbyn cymorth yn Gymraeg neu yn Saesneg fel rhan o'r gwasanaeth.

Dyma rai ystadegau allweddol:

- O'r busnesau a gynorthwywyd gennym i ddechrau masnachu yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2013, roedd peth gallu yn y Gymraeg gan 14% o'r perchnogion.
- Roedd 10% o'r ymholiadau a dderbyniwyd gennym yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2013 gan gleientiaid â gallu yn y Gymraeg (2012: 9%)
- O'r ymholiadau a dderbyniwyd gan y rhai â gallu yn y Gymraeg, mae 21% ohonynt wedi mynd ymlaen i ddechrau eu busnes o gymharu â chyfartaledd o 16% o'r cleientiaid nad ydynt yn siarad Gymraeg.

Yn ein profiad ni, mae'r gallu i ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth ar gael i bawb, a hefyd ei fod yn wirioneddol groesawgar ac yn darparu cymorth go iawn mewn modd sy'n ennyn hyder yn y defnyddiwr.

Yn 2010 cynhaliwyd gweithdai gyda rhai o'n cleientiaid a rhanddeiliaid eraill i gefnogi ein hymrwymiad i gydraddoldeb, a deall eu gofynion o'r gwasanaeth. Roedd eu hadborth yn nodi ei bod hi'n bwysig hyrwyddo'r ffaith fod y gwasanaeth ar gael yn Gymraeg. Er mai ychydig sy'n ei ddefnyddio, dywedodd ein rhanddeiliaid wrthym fod gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn galluogi pobl (yn enwedig y rhai sy'n siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf) i dderbyn cymorth na fyddent wedi gofyn amdano pe bai'n cael ei gynnig yn Saesneg yn unig.

Enghreifftiau o arferion da o ran cyflogi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg

Fel cyflogwr sy'n gwasanaethu ystod eang o fusnesau ac unigolion ar draws y De, mae'n bwysig bod ein gweithlu, sy'n ymwneud â chleientiaid neu fel arall, yn adlewyrchu amrywiaeth Cymru. Un enghraifft benodol yw ein harferion recriwtio, gan ein bod yn hysbysebu yn Gymraeg, yn defnyddio asiantaethau Cymraeg eu hiaith, a lle bo angen, yn cynnal ymarferion canolfannau asesu yn Gymraeg.

Rydym hefyd yn hyrwyddo ac yn annog ein gweithwyr i ddysgu Cymraeg.

Diolch am y cyfle i ymateb i'r alwad hon am dystiolaeth. Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud.

Y Gymraeg a Datblygu Economaidd - Tystiolaeth S4C

Cyflwyniad

Mae S4C yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y berthynas rhwng y Gymraeg a datblygu economaidd. Yn benodol, mae ein hymateb yn ystyried y cwestiynau canlynol yn yr ymgynghoriad, yng nghyd-destun darparu gwasanaeth S4C ac ein polisïau:

- a) **Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?**
- b) **Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?**
- c) **Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?**

Mae'r papur yma hefyd yn ystyried:

- ch) **arferion da o ran cyflogi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg**
- d) **enghreifftiau o gynhyrchwyr annibynnol, sydd wedi eu comisiynu gan S4C, a thrwy hynny wedi bod ar eu hennill o farchnata eu hunain fel rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg.**

Cefndir

S4C yw'r unig sianel deledu Cymraeg yn y byd. Bu'n gwasanaethu Cymru gyfan ers 1982, gan adlewyrchu bywyd y genedl a'i chymunedau. Mae'n wasanaeth cyhoeddus cynhwysfawr, sy'n cynnig ystod lawn o raglenni, gan gynnwys newyddion a materion cyfoes, rhaglenni dogfen, drama, adloniant, chwaraeon, addysg a rhaglenni plant.

Mae S4C yn gwerthfawrogi ei rôl arbennig i gyflenwi rhaglenni a chynnwys Cymraeg o ansawdd uchel ar gyfer ei chynulleidfaoedd – boed yn siaradwyr Cymraeg rhugl, yn llai rhugl, yn ddysgwyr neu'n ddarpar ddysgwyr – a'r rheiny'n cael eu gwella trwy ddarparu gwasanaethau isdeitlo a botwm coch ar draws pob plattform.

Cyhoeddwr-ddarlledwr yw S4C, sy'n gweithredu trwy gomisiynu cynhyrchwyr annibynnol – o Gymru yn bennaf – i wneud y mwyafrif o'i rhaglenni. Mae'r BBC hefyd yn darparu 10 awr o gynnwys yr wythnos ar gyfer S4C o dan statud – mae hyn yn cynnwys y gwasanaeth **Newyddion**, yr opera sebon hirhoedlog **Pobol y Cwm**, a pheth o'r arlwy ym myd chwaraeon.

Llywodraethu S4C

Fel gwasanaeth cyhoeddus - yn hytrach na darlledwr gwladol - mae S4C yn gwerthfawrogi ei hannibyniaeth weithredol a golygyddol. Dyletswydd Awdurdod S4C, sy'n deillio o statud, yw darparu gwasanaeth S4C. Caiff penodiadau i'r Awdurdod eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ond fe ymgynghorir â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru hefyd bellach fel rhan o'r broses penodiadau.

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, mae Cytundeb Gweithredu newydd rhwng Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC mewn grym, sy'n gwarantu annibyniaeth

weithredol a golygyddol S4C, ac sydd hefyd yn rhoi atebolrwydd priodol i Ymddiriedolaeth y BBC am y modd y defnyddir arian o ffi'r drwydded. Ers mis Ebrill eleni, mae'r mwyafrif o gyllid S4C bellach yn dod o Ffi'r Drwydded, trwy Ymddiriedolaeth y BBC, o fewn telerau'r Cytundeb Gweithredu. Mae Ymddiriedolwr y BBC yng Nghymru hefyd yn aelod o Awdurdod S4C.

Cyllid ar gyfer S4C

Mae cyfrifoldeb Llywodraeth y DU am gyllid S4C yn dyddio'n ôl i ddechrau'r sianel ym 1982, ac er bod ffynhonnell a'r mecanwaith cyllido wedi amrywio, dros y ddeng mlynedd ar hugain ddiwethaf, mae'r darpariaethau statudol wastad wedi amlinellu'r gofyniad ariannol i alluogi S4C i ddarparu gwasanaeth Cymraeg o ansawdd uchel.

Cafodd y fformwla cyllido statudol gwarantedig blaenorol ei ddiddymu ym 2011 a'i ddisodli â *dyletswydd* statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau "cyllid digonol" gan Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Yn 2010, mi roedd grant S4C o'r DCMS yn £101m ond yn dilyn Yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant Llywodraeth y DU, cafwyd toriad o 24% yng nghyllideb S4C dros gyfnod o bedair blynedd - sy'n gyfwerth mewn termau real â gostyngiad o 36%. Yn 2011 roedd y grant wedi lleihau i £90m ac wedyn i £83m yn 2012. Yn 2013, lleihawyd y grant yn bellach i £6.7m yn dilyn y cytundeb gydag Ymddiriedolaeth y BBC i ariannu y rhan fwyaf o gyllid S4C o'r Ffi Drwydded.

Mae'r elfen o ariannu gan y DCMS o tua £6.7m yn 2013/14 wedi'i gwarantu tan fis Mawrth 2015 yn unig. Yn ogystal â hynny, cafodd toriadau pellach o 1% yn 2013/14 a 2% yn 2014/15 eu cyhoeddi yn Natganiad yr Hydref 2012, gyda thoriadau pellach yn cael eu cyhoeddi wedyn yn Natganiad Cyllideb y DU 2013 o 1.06% yn 2013/14 ac 1.09% yn 2014/15. Disgwylir i adolygiad pellach o wariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16 gael ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2013 ac mae'n debygol o effeithio ymhellach ar yr incwm y mae cyrff cyhoeddus a ariennir gan y DCMS yn ei dderbyn.

Am weddill cyfnod Siarter gyfredol y BBC, hyd at ddiwedd Mawrth 2017, cytunwyd y bydd y BBC yn cyfrannu'r cyllid canlynol o ffi'r drwydded i S4C:

2013-14: £76.3m, 2014-15: £76m, 2015-16: £75.25m a 2016-17: £74.5m

Mae'r Cytundeb yn darparu ar gyfer toriadau cynyddrannol pellach o tua 1% yn lefel y cyllid o'r ffynhonnell hon ym mlwyddyn ariannol 2015-16 a 2016-17.

Yn dilyn y gostyngiad yn ei model cyllido, a newidiadau iddo, mae S4C eisoes wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni arbedion. Mae'r rhain yn cynnwys dau gylich colli swyddi a gostyngiad mewn staff o 25%, sydd wedi gostwng cost gyfartalog ei chynnwys am bob awr o £16,374 yn 2009 i £11,743 yn 2012, a'r penderfyniad i derfynu'r gwasanaeth manylder uwch Clirlun ym mis Rhagfyr 2012, gan arbed £1.5 m y flwyddyn.

Mae penderfyniadau o'r fath wedi cael eu gwneud gyda'r nod o sicrhau'r gwerth gorau posib am arian gan leihau i'r eithaf yr effaith y bydd arbedion yn ei chael ar gynulleidfa S4C a chynnwys ar y sgrin. Mae'n debygol nad felly y bydd hi gyda

gostyngiadau yn ein cyllid yn y dyfodol, gan y byddai unrhyw ostyngiadau pellach mewn cyllid yn gostwng ein cyllideb cynnwys.

a) Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

Oherwydd model y sianel fel cyhoeddwr-ddarlledwr, mae'r mwyafrif o gyllid S4C yn cael ei drosglwyddo i'r sector preifat. Mae hyn wedi arwain at sector cynhyrchu annibynnol sy'n gryf, yn arloesol ac o safon fyd-eang, ac sydd wedi tyfu ochr yn ochr â S4C ers dechrau'r sianel ym 1982.

Ers y cyfnod hynny, mae S4C wedi denu £2.2 biliwn o fuddsoddiad o'r tu allan i mewn i Gymru, er budd yr economi leol. Daeth Adolygiad Hargreaves o'r Diwydiannau Creadigol yng Nghymru i'r casgliad, "*heb S4C, mae'n ddigon posib na fyddai gan Gymru unrhyw gwmnïau teledu annibynnol o gwbl*".

Yn 2012 fe wnaeth dros 60 cwmni annibynnol dderbyn comisiynau gan S4C i ddarparu rhaglenni yn yr iaith Gymraeg, gwariant a oedd yn werth dros **£63m**. Mae dadansoddiad diweddar gan Arad Research, yn seiliedig ar ragosodiad effaith lluosydd Keynes, yn dangos:

- Bod gwariant cychwynnol o **£63.7m** gan S4C ar raglenni a chynnwys yn 2012 a brynwyd gan gwmnïau annibynnol yng Nghymru wedi creu effaith economaidd ychwanegol o **£60.5m** ac effaith economaidd ar y cyfan o **£124.3m** yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru
- Bod pob punt sy'n cael ei gwario ar gynnwys a brynir gan gwmnïau annibynnol yng Nghymru'n creu effaith economaidd ar y cyfan o bron i £2 (£1.95) ar y diwydiannau creadigol yng Nghymru.

Roedd adroddiad gan DTZ a WERU yn amcangyfrif, yn seiliedig ar allbwn neu wariant crynswth S4C yn 2010:

- Bod gwariant S4C yn creu cyfanswm cyflogaeth o fewn economi Cymru o **2,111** o swyddi cyfwerth ag amser llawn, y rhan fwyaf o'r rhain yn swyddi lle defnyddir yr iaith Gymraeg. O'r rhain, roedd **1,226** o swyddi wedi cael eu creu mewn sectorau sy'n perthyn i'r diwydiannau creadigol
- Bod gwariant S4C wedi ysgogi gwariant pellach o **£88m** i economi Cymru.

b) Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Prif swyddogaeth S4C yw creu rhaglenni a chynnwys yn yr iaith Gymraeg ac o reidrwydd, mae staff y cwmnïau annibynnol sy'n cael eu comisiynu gan y sianel yn defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithleoedd. Mae nifer o'r cwmnïau wedi eu lleoli mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith pob dydd yn y cymunedau yma ac mae presenoldeb y cwmnïau yn creu swyddi sy'n caniatáu i bobl i gael gweithio yn eu cynefin trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae S4C yn codi incwm hysbysebu fel ffynhonnell o gyllid ychwanegol, ac mae'r nifer o hysbysebwr sy'n hysbysebu yn yr iaith Gymraeg ar y sianel wedi cynyddu'n

sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd **22** o gwmnïau/cyrff wedi hysbysebu ar S4C yn yr iaith Gymraeg yn 2011 ond fe gynyddodd hyn i **47** cwmni yn ystod 2012, cynnydd o **114%**. Roedd **34%** o'r cwmnïau yma, 16 allan o 47, yn rhai bach neu ganolog o ran maint (SMEs), wedi eu sefydlu yng Nghymru. Mae'n arwyddocaol eu bod wedi gwneud penderfyniad masnachol i hysbysebu trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn hyrwyddo a chreu tyfiant i'w busnesau. Yn y cyd-destun yma, mae'n bwysig nodi yn gyffredinol fod hysbysebu ar deledu'n drwm dan ddylanwad marchnad hysbysebu Llundain, gyda thua 90% o referniw hysbysebu S4C yn dal i gael ei greu gan asiantaethau yn Llundain.

Mae S4C yn gynyddol yn cyflawni rôl arloesol a blaenllaw yn y byd digidol yng Nghymru ac mae'n gweithio mewn ffyrdd mwyfwy creadigol i gyrraedd a gwasanaethu cynulleidfaoedd Cymreig. Mae S4C hefyd yn gobeithio y bydd ei buddsoddiad mewn prosiectau digidol sy'n cael eu creu gan gwmnïau yng Nghymru'n helpu'r cwmnïau hynny i gystadlu'n rhyngwladol trwy fanteisio ar gynhyrchion digidol ar blatfformau rhyngwladol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae S4C wedi bod yn datblygu cynnwys digidol ar-lein ac wedi sefydlu **Cronfa Ddigidol**, sy'n werth £1m dros y pedair blynedd nesaf. Y bwriad yw cefnogi gwasanaethau a nwyddau creadigol newydd ar draws llwyfannau digidol gyda'r bwriad o gryfhau allbwn S4C a chynhyrchu incwm masnachol.

Ym mis Mai, fe wnaeth S4C ryddhau **Cyw a'r Wyddor** a **Gwylltio**, dau ap addysgiadol newydd sydd wedi eu croesawu gan arbenigwyr yn y maes. Yn ogystal, yr un mis, fe ryddhawyd **App yr Urdd**, i gyd fynd ag Eisteddfod yr Urdd 2013 a gynhaliwyd yn Sir Benfro. Roedd hwn yn fenter ar y cyd rhwng S4C a'r Urdd i roi cymorth i ymwelwyr i gael y gorau allan o'r profiad o ymweld â'r maes. Yn ystod yr ŵyl, fel lawr-lwythwyd yr ap 15000 o weithiau. Mae ap **Gwylltio**, sydd ar gyfer plant a phobl ifanc 7-13 oed, yn llawn ffeithiau a gwybodaeth am fyd natur ac yn cyd-fynd â chyfres newydd fydd yn dechrau ar S4C ym mis Mehefin. Mae S4C yn bartner darlledu i gynllun addysg **LIFE** yng Nghasllwchwr, Abertawe. Cynllun yw hwn i wella sgiliau llythrennedd disgyblion drwy ddefnyddio technoleg newydd ac mae S4C wedi bod yn rhannu arbenigedd digidol a chynnwys, yn ogystal ag annog y disgyblion i wyllo a chreu aps drwy gyfrwng y Gymraeg.

Effaith Cynrychiadau S4C ar yr Economi

Mae nifer o gyfresi drama fwyaf poblogaidd S4C wedi eu cynhyrchu ar leoliad, mewn ardaloedd ar draws Cymru, gan ddod â budd economaidd amlwg i'r ardaloedd hyn. Er enghraifft, fe gynhyrchwyd y gyfres ddrama, **Teulu**, yn ardal Aberaeron, ac mae safle parhaol wedi ei sefydlu ym Mhorthaethwy ar gyfer y gyfres boblogaidd, **Rownd a Rownd**.

Yn ogystal, mae S4C yn credu bod cyd-gynhyrchu 'cefn wrth gefn' yn un ffordd bosib o greu cynnydd mewn cyfnod economaidd heriol. Gall hyn roi hwb sylweddol i'r diwydiannau creadigol a dod ag arian gan gwmnïau rhyngwladol i gymunedau yng Nghymru - megis gyda'r gyfres dditectif a fydd i'w gweld cyn bo hir, **Y Gwyll/Hinterland**, a gafodd ei ffilmio yng Ngheredigion - a chreu cynnwys a ellir ei werthu mewn marchnadoedd rhyngwladol. Mae **Y Gwyll**, cyfres dditectif gyntaf

S4C ers dros ugain mlynedd, yn bartneriaeth rhwng Fiction Factory, All3Media, Tinopolis ac S4C ac fe gafodd y cynhyrchiad ei ffilmio yn Gymraeg a Saesneg (**Hinterland**). Bydd yn cael ei darlledu ar S4C yn yr hydref, ar BBC Four yn 2014 ac mae BBC Cymru Wales hefyd wedi prynu dwy bennod. Yn ogystal, mae'r gyfres wedi ei gwerthu i gwmni o Ddenmarc sy'n gwneud **The Killing** a **Borgen**. Mae'r model partneriaeth, cefn-wrth-gefn yma'n un pwysig i S4C wrth inni edrych y tu hwnt i Gymru eto - ac o safbwynt yr iaith, y fersiwn Gymraeg fydd yn cael ei darlledu gyntaf, a bydd llawer o Gymraeg yn y fersiwn Saesneg i adlewyrchu'r gymuned sy'n byw yng Ngheredigion.

Mae S4C yn defnyddio arian masnachol i fuddsoddi mewn cynyrchiadau a chynnwys rhyngwladol sy'n dod â budd economaidd yn ôl i Gymru. Yn ogystal, mae gan Lywodraeth Cymru eisoes y grym i gefnogi cwmnïau Cymraeg wrth iddynt anelu yn rhyngwladol ac rydym yn croesawu'r cymorth a gynigir gan yr adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gwmnïau cynhyrchu i fynychu marchnadoedd teledu rhyngwladol a chynyddu presenoldeb cynnwys o Gymru yn rhyngwladol.

c) Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

Ddiwedd mis Mai, fe gyhoeddodd S4C a Chyngor Celfyddydau Cymru bartneriaeth newydd gyda memorandwm o ddealltwriaeth rhwng y ddau gorff. Y bwriad yw cyd-weithio yn effeithiol ac yn rhagweithiol er mwyn y gynulleidfa ac i gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni. Yr elfen gyntaf i'w chyhoeddi fel rhan o'r cyd-weithio yw **Y Labordy**, sef cynllun sgriptio uchelgeisiol fydd yn cynnig cyfle i bedwar unigolyn arbennig i archwilio a datblygu sgiliau ysgrifennu drama ar gyfer teledu, ffilm, y theatr a radio yn Gymraeg. Mae Creative Skillset Cymru ac Asiantaeth Ffilm Cymru yn noddi'r cynllun hefyd.

Drwy brosiectau o'r math yma, a thrwy rannu syniadau, gwybodaeth, arbenigedd ac ymchwil, rydym yn gobeithio cefnogi'r talentau creadigol gorau yng Nghymru, gan wneud Cymru'n fwy egniol a chynhwysol. Bydd y ddealltwriaeth hefyd yn golygu bydd buddsoddiadau o gronfeydd S4C a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac yn creu effaith economaidd gryfach.

Yn ogystal, mae nifer o gynlluniau a phrosiectau S4C ar y cyd a chyrrff cyhoeddus yn creu budd economaidd trwy greu cyfle i'r gynulleidfa weithio a byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys, y gyfres **Chwe Nofel**, lle buom yn cyd-weithio gyda'r Cyngor Llyfrau, neu **Y Plas**, lle y cydweithiwyd â nifer o sefydliadau i greu rhaglen hanes newydd fydd yn cael ei darlledu fis Medi, yn fyw o Blas Llanerchaeron (plasty yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol). Yn ogystal mae ffrwd drydar **Ti, Fi a Cyw** yn rhoi'r cyfle i rieni ddysgu Cymraeg gyda'u plant tra roedd **Cariad@laith** 2013 wedi canolbwyntio ar griw o ddysgwyr dros Brydain.

ch) arferion da o ran cyflogi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg

Cyflogir **133** o staff llawn amser gan S4C, gan gynnwys **97** o siaradwyr Cymraeg rhugl ac **11** o ddysgwyr. Darperir cyrsiau mynediad i'r iaith Gymraeg a hefyd

cyrsiâu gloywi iaith ar gyfer siaradwyr profiadol. Mae'r holl gyfathrebiadau ar gyfer staff o fewn S4C yn cael eu cynnal yn ddwyieithog, gan gynnwys e-byst gwybodaeth a chynnwys wedi ei osod ar SBEC, gwefan fewnol staff S4C.

Mae ystod eang o bolisiau gan S4C er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a hefyd er mwyn cysoni safonau, er enghraifft ym maes cynhyrchu rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys canllawiau rhaglenni a chanllawiau iaith Gymraeg S4C ar gyfer rhaglenni.

Yn ein Cynllun Iaith, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Iaith, ac sydd nawr yn cael ei reoleiddio gan Gomisiynydd y Gymraeg, mae S4C fel corff cyhoeddus, wedi mabwysiadu'r egwyddor, y bydd wrth ddelio â'r cyhoedd yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd S4C yn gweithredu'r egwyddor honno wrth drafod â'r cyhoedd yng Nghymru. Ein harfer safonol fydd sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg.

Bydd S4C yn gofyn i gwmnïau a sefydliadau eraill sy'n ymdrin â'r cyhoedd yn enw S4C i gydymffurfio â'n Cynllun Iaith. Rydym hefyd yn annog ein cynhyrchwyr annibynnol i weithredu cynlluniau eu hunain neu gydymffurfio ag ysbryd Cynllun Iaith S4C wrth ddarparu gwasanaethau i S4C.

Mae S4C yn buddsoddi'n helaeth mewn cynlluniau hyfforddiant ar gyfer y diwydiant. Sefydlwyd **Cyfle** ym 1986 er mwyn hyfforddi pobl i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg mewn meysydd technegol ar gyfer y diwydiant, mewn ymateb i greu S4C. Mae'n gweithredu fel cwmni hyfforddi ar gyfer Diwydiannau'r Cyfryngau Creadigol, Cymru, gyda chanolfannau hyfforddi yng Nghaernarfon ac yng Nghaerdydd. Bu S4C mewn partneriaeth gyda Creative Skillset Cymru (y Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y diwydiannau creadigol yn y Deyrnas Unedig) ers ei sefydlu yn 2002, ac mae aelodau o staff S4C yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Ymgynghorol y corff. Mae S4C wedi annog Creative Skillset Cymru i wneud y defnydd mwyaf helaeth posib o'r iaith Gymraeg wrth weithredu ei gynlluniau a pholisiau. Yn ogystal, fel amod o God Ymarfer Comisiynu S4C, bydd cynhyrchwyr annibynnol yn darparu dadansoddiad o'r anghenion sgiliau a hyfforddi i'r corff fframwaith (sef Creative Skillset Cymru) sy'n gyfrifol am nodi a choladu data ynghylch anghenion hyfforddi yng Nghymru.

Mae S4C hefyd wedi cyfranni a chefnogi nifer o ymgyrchoedd hyfforddiant ychwanegol, gyda'r bwriad o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y diwydiant ac ar sgrin. Er enghraifft, mae S4C wedi lansio cynllun i ddatblygu awduron a chyfarwyddwyr newydd Cymraeg i wneud dwy ffilm fer mewn partneriaeth â phrosiect **It's My Shout**, fydd yn cael eu darlledu ar y Sianel. Yn ogystal, yn dilyn cystadleuaeth ar **Y Lle**, cynhyrchwyd pum ffilm fer ar y thema o 'gariad cyntaf' a chafodd eu dangos yn **Ffresh, Gŵyl Delwedd Symudol Myfyrrwr Cymru**.

d) enghreifftiau o gynhyrchwyr annibynnol, sydd wedi eu comisiynu gan S4C, a thrwy hynny wedi bod ar eu hennill o farchnata eu hunain fel rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg.

Mae'r holl raglenni sydd wedi eu comisiynu oddi wrth y cynhyrchwyr annibynnol yng Nghymru gan S4C yn yr iaith Gymraeg. Mae'r cwmnïau yn cyflogi siaradwyr

Cymraeg ac yn ogystal, mae'r cwmnïau eu hunain, drwy wario a llogi gwasanaethau yn eu hardaloedd, yn creu effaith economaidd ychwanegol i fuddsoddiad S4C. Mae tystiolaeth hefyd gan y cwmnïau o gyfraniad eu staff i fywyd lleol eu hardaloedd gan gymryd rhan mewn amrediad eang o weithgareddau lleol yn yr iaith Gymraeg.

Mae'r cynhyrchwyr sydd wedi eu sefydlu yng Ngogledd Cymru, fel **Rondo a Cwmni Da**, yn cynnig swyddi sy'n cael eu hystyried fel rhai o safon uchel ac sy'n darparu cyflogau sydd ar gyfartaledd, yn uwch na'r hyn sy'n cael eu cynnig gan y rhan fwyaf o gyflogwyr yn eu hardaloedd lleol. Mae hyn hefyd yn atal y diboblogi sy'n digwydd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru, trwy gadw pobl ifanc yn eu hardaloedd cynefin yn lle eu bod yn gadael er mwyn ffeindio gwaith. Mae cwmnïau, fel **Tinopolis a Telesgôp** hefyd yn cynnig gwaith mewn ardaloedd difreintiedig dinesig gan gynnwys Llanelli ac Abertawe.

Yn ogystal felly i'n hymateb ni i'r ymgynghoriad yma, byddem yn eich annog i gysylltu â **TAC** (Teledwyr Annibynnol Cymru) a'r cwmnïau unigol am fwy o enghreifftiau penodol o'i heffaith economaidd a'u cyfraniad, fel busnesau lleol, yng nghyd-destun effaith economaidd yr iaith Gymraeg.

Adleoli S4C: astudiaeth dichonoldeb

Ym mis Hydref 2012 fe gyhoeddodd S4C gynlluniau i gynnal astudiaeth dichonoldeb i adleoli rhannau o waith S4C y tu allan i Gaerdydd. Ar y pryd fe ddwedodd Ian Jones, Prif Weithredwr y Sianel ei fod yn benderfynol o sicrhau bod buddiannau economaidd S4C yn cael eu rhannu ar draws Cymru lle bo hynny'n bosib, er mwyn ceisio creu gwaith a chyfleoedd hyfforddi mewn ardal neu ardaloedd y tu allan i Gaerdydd.

Ers y cyhoeddiad mae tîm prosiect wedi bod yn gweithio ar yr astudiaeth dichonoldeb, ac ymhlith y meini prawf ar gyfer y gwaith yw effaith posib unrhyw gynllun adleoli ar yr iaith, diwylliant ac economi ar yr ardaloedd hynny dan sylw. Ym mis Chwefror fel rhan o'r astudiaeth dichonoldeb fe wahoddwyd datganiadau o ddiddordeb gan sefydliadau, mudiadau ac ardaloedd ledled Cymru.

Roedd Cyfrifiad 2011 yn dangos fod y niferoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru wedi gostwng ar y cyfan. Er bod rhai ardaloedd yn dangos cynnydd bychan, mae pryder mawr am y gostyngiad mewn rhai ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn draddodiadol wedi bod ar ei chryfaf.

Mae S4C wedi ystyried canlyniadau ac oblygiadau Cyfrifiad 2011 ac yn pwysu a mesur a allai adleoli rhannau o waith a gweithgaredd S4C y tu allan i Gaerdydd, fod o fudd i S4C ac i ddyfodol y Gymraeg yn y cadarnleoedd.

Sylwadau ar yr awr Gymraeg gan Huw Marshall

Sefydlwyd yr awr Gymraeg ym mis Tachwedd 2012. Ges i'r syniad wedi gweld trydar gan ffrind o swydd Efrog gyda'r hashnod #yorkshirehour.

Mae'r syniad yn un digon syml, awr o drydar pob wythnos rhwng 8 a 9 ar nos Fercher. Y cyfan sydd rhaid i unigolion/mudiadau/chwmnïau ei wneud yw trydar neges yn son am eu busnes/cynnyrch/digwyddiad drwy gyfrwng y Gymraeg gan ychwanegu'r hashnod #yagym.

Erbyn heddiw, mewn prin 8 mis, mae bron i 1,800 yn dilyn y cyfrif.

Mae'r awr cyffredin yn creu oddeutu 500 trydar, gan gynnwys ymatebion ac ail drydar, gan gyrraedd tua 70,000 o gyfrifon trwy dros 100 o gyfrifon.

Mae'r awr wedi creu rhwydwaith newydd o fusnesau bach sy'n gweld y budd o weithredau drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r busnesau yn deud wrtha'i ar lafar eu bod wedi cynyddu eu niferoedd o ddilynwyr, gwerthiant ac ymwybyddiaeth o'r ffaith eu bod yn cynnig gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn dilyn gofyn gan gymuned yr awr Gymraeg fe trefnwyd #seshbusnes, trwy trydar yn unig, yn Aberystwyth, yma daeth 20 o gefnogwyr yr awr o pob ran o Gymru at ei gilydd i gymdeithasu, rhannu profiadau a derbyn sesiynau syml ar:

- A) defnydd o rhwydweithiau cymdeithasol gan gwmni Lliwiol.
- B) y manteision o farchnata yn y Gymraeg gan swyddog masnachol o S4C
- C) sut i integreiddio e-commerce i gwefan gan Tinopolis Rhyngweithiol

Y bwriad yw cynnal #seshbusnes yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar y cyd a Busnes Cymru ac yna un arall, gan gynnwys farchnad pop up, yng Nghaerdydd mis Tachwedd.

Yn y #seshbusnes yn Aberystwyth mi wnes i ddatgan fy mod yn rhoi'r gorau i rhedeg yr awr fy hun, mi wnes i rhoi manylion y cyfrif trydar i hanner dwsin o selogion yr awr. Y gymuned sydd nawr yn rhedeg yr awr yn cymryd eu tro i weinyddu'r awr. Ers hynny mae o wedi mynd o nerth i nerth.

Y cam nesaf fydd adeiladu gwefan lle gall y gymuned hysbysebu eu hunain ar ffurf mwy parhaol.

Enghraifft da o syniad syml, di-gost, sydd wedi codi ymwybyddiaeth o'r gwerth masnachol o weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Galwad am dystiolaeth – Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd

Comisiynydd y Gymraeg Meri Huws

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r cais am dystiolaeth yn edrych ar y cysylltiad rhwng y Gymraeg a Datblygu Economaidd. Ysgrifennwn i gyflwyno rhai sylwadau fydd yn sail i'n cyflwyniad i'r Grŵp ar yr 17 o Orffennaf.

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, corff annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- o Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- o Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Dros amser fe fydd pwerau newydd i osod a gorfodi safonau ar sefydliadau yn dod i rym trwy is-ddeddfwriaeth. Hyd nes y bydd hynny'n digwydd bydd y Comisiynydd yn parhau i arolygu cynlluniau iaith statudol trwy bwerau y mae wedi eu hetifeddu o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Un o flaenoriaethau'r Comisiynydd yw craffu ar ddatblygiadau polisi o ran y Gymraeg. Felly, prif rôl y Comisiynydd yw darparu sylwadau yn unol â'r cylch gorchwyl hwn gan weithredu fel eiriolwr annibynnol ar ran siaradwyr Cymraeg yng Nghymru y gallai'r ymgynghoriad hwn effeithio arnynt. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei harddel er mwyn osgoi unrhyw gyfaddawd posibl ar swyddogaethau'r Comisiynydd ym maes rheoleiddio, a phe byddai'r Comisiynydd yn dymuno adolygu'n ffurfiol berfformiad cyrff unigol neu Lywodraeth Cymru yn unol â darpariaethau'r Mesur.

Dan ddarpariaethau Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd, mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Yng nghyswllt y gwaith hwn, rydym yn darparu cymorth i fusnesau sector preifat i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg gyda thîm o swyddogion yn gweithio â busnesau bach, canolig a mawr ar draws Cymru a thu hwnt.

Sylwadau cychwynnol

Cydnabyddir pwysigrwydd yr economi yng nghyswllt cynaladwyedd cymunedau a gyda chanlyniadau'r Cyfrifiad 2011 yn tystio i leihad mewn niferoedd siaradwyr Cymraeg mae'n bwysig fod y cyswllt rhwng economi a hyfywedd cymunedau Cymraeg yn cael ei gydnabod a'i drafod. Rydym felly'n croesawu fod y Llywodraeth yn parhau i ymchwilio i'r pwnc pwysig hwn ond nodwn fod angen gwaith sylweddol pellach. Bydd y Comisiynydd yn craffu yn fanylach ar y maes hwn yn y dyfodol drwy weithgarwch yr Arsyllfa.

Yng nghyswllt ein gwaith â busnesau, mae Iaith Byw:Iaith Fyw yn gofyn i'r Comisiynydd:

“hybu defnydd gwirfoddol y sector preifat o'r Gymraeg – ac annog siaradwyr Cymraeg i fanteisio ar y gwasanaethau hynny.”

Er mwyn gwireddu hynny, mae'r Comisiynydd yn gweithio'n uniongyrchol â busnesau i'w helpu i lunio Polisiâu Iaith Gymraeg a datblygu isadeiledd busnes lle mae modd iddynt ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Rydym hefyd yn cydweithio â'r CBI, Ffederasiwn Busnesau Bychain, Siambrau Masnach a grwpiau ymbarél eraill i normaleiddio'r Gymraeg oddi mewn i'r gymuned fusnes a hefyd ei chyflwyno'n strategol i gynulleidfaoedd newydd. Mae'r Comisiynydd hefyd yn dylanwadu ar bolisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yng nghyswllt datblygu economaidd a chynlluniau cefnogi yn y maes sgiliau a hyfforddiant iaith sy'n helpu i ddatblygu a chynnal gweithleoedd Cymraeg neu ddwyieithog.

Mae ffocws gwaith Tîm Sector Preifat y Comisiynydd yn seiliedig ar gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau, normaleiddio statws a rhoi llwyfan gweledol i'r Gymraeg ar y Stryd Fawr a chreu gweithleoedd Cymraeg neu ddwyieithog lle mae sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu meithrin gan gyflogwyr. Er mwyn gwireddu hyn, bydd angen sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth greiddiol oddi fewn i gyfundrefnau cefnogi busnes lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a manylwn ymhellach ar hyn isod. Rydym wedi ceisio ymateb i'r cwestiynau a nodwyd yn eich Cais am Dystiolaeth isod:

Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

Tra bo modd gofyn cwestiynau fel yr uchod, dylai'r Grŵp gydnabod cymhlethdod y cwestiwn dan sylw. Wrth geisio mesur 'gwerth economaidd' y Gymraeg, dylid ystyried pa ffactorau sy'n cyfrannu tuag at 'fudd' economaidd gwirioneddol. Yn ein hymwneud â busnesau, rydym yn derbyn adborth cyson yn nodi fod defnyddio'r Gymraeg yn bwysig iddynt o ran cynnig gofal cwsmer da, cyfleu hunaniaeth Gymreig ac ennyn ffyddlondeb/ewyllys da cwsmeriaid. Yn y bôn, gellid dweud bod y ffactorau hyn oll yn cyfrannu tuag at gynyddu elw cwmnïau ond bod angen gwell deialog â busnesau i amlygu'r cyswllt hwn rhwng defnydd o'r Gymraeg a chynyddu trosiant. Heb archwilio'r cyswllt hwn ymhellach, bydd hi'n anodd cael cyflogwyr i gydnabod y budd economaidd.

Cynhwyswyd cwestiwn ar agweddau cyffredinol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes mewn Arolygon Defnydd Iaith yn 2004-06. Bryd hynny, barn unigolion oedd yn gweithio yn y sector am agweddau eu cyflogwyr oedd bod:

- 36.7% yn gefnogol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes, yn ffurfiol ac anffurfiol.
- 23.4% yn gefnogol i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ond nid mewn materion busnes ffurfiol.
- 13.9% ddim yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg.
- 16.2% dim o'r rhain.

□ 9.8% ddim yn gwybod.

Dengys hyn fod ewyllys i ddefnyddio'r Gymraeg yn bodoli ond bod gwaith pellach i'w wneud er mwyn i gyflogwyr allu ystyried y Gymraeg fel ystyriaeth fusnes ffurfiol ac angenrheidiol. Dylai'r Grŵp ystyried sut all y Llywodraeth a phartneriaid eraill gyfrannu tuag at sicrhau fod y Gymraeg yn dod yn ystyriaeth fusnes lorweddol i fusnesau megis yr ymdriniaeth o amgylchedd neu gynladwyedd.

Enghreifftiau o arferion da o ran cyflogi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg

i) Y Gymraeg fel Sgil

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi derbyn argymhellion ar y Gymraeg fel sgil yng nghyswllt adolygiad o Bolisiâu Sgiliau a'r Iaith Gymraeg yn Chwefror 2011 gan Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru. Roedd cylch gorchwyl y Bwrdd yn cynnwys yr angen i "roi cyngor ar ddigonolrwydd a phriodolrwydd y cyflenwad sgiliau – gan gynnwys sgiliau iaith Gymraeg – ar gyfer yr economi presennol ac yn y dyfodol." Gofynnwyd iddynt hefyd "ystyried y dystiolaeth ynglŷn â'r galw am sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle. Beth yw anghenion sgiliau Cymraeg cyflogwyr? A sut orau y gellir cyfarfod a'r anghenion hyn?" Mae'r adroddiad yn datgan nad yw'r systemau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn cynnig peirianwaith digonol i adnabod gofynion sgiliau Cymraeg economi'r presennol a'r dyfodol ac mae'n gosod nifer o argymhellion defnyddiol. Awgrymwn fod y Gweithgor yn ystyried argymhellion y Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau yng nghyswllt yr alwad am dystiolaeth gan ei

fod yn cynnig arweiniad clir yng nghyswllt y Gymraeg a sgiliau. Mae hefyd yn gyson ag ymrwymiad iaith Fyw:Iaith Byw i:

"Wella'r wybodaeth sydd ar gael am y farchnad lafur o ran y galw am staff sydd â sgiliau Cymraeg, ar lefel ranbarthol ac fesur sector, a chyhoeddi'r wybodaeth drwy'r sianeli priodol."

Bydd data yn ymwneud â'r farchnad lafur cyfrwng Cymraeg yn fuddiol yng nghyswllt y drafodaeth ar Iaith ac Economi ond bydd hefyd yn ffon fesur i asesu llwyddiant. Mae pwynt gweithredu 50 o iaith Fyw:Iaith Byw ar ymchwil a data eto'n berthnasol yng nghyswllt hyn. Yng nghyswllt datblygu sgiliau a hyfforddiant iaith Gymraeg, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal Arolwg o Anghenion Sgiliau Cymraeg yn y Gweithle a bydd angen gweithredu ar yr argymhellion maes o law.

ii) Gweithleoedd Dwyieithog

Mae gweithleoedd Cymraeg a dwyieithog yn creu peuoedd ieithyddol lle mae modd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio a gwella eu sgiliau ieithyddol. Mae pwyntiau gweithredu iaith Fyw: Iaith Byw (26-30) yn pwysleisio'r angen i edrych ar atgyfnerthu'r Gymraeg o fewn gweithleoedd a hynny trwy ganllawiau, safonau gweithredu, gwella cydnabyddiaeth i'r Gymraeg fel sgil a chreu cyfleoedd i bobl ddysgu Cymraeg yn y gweithle.

Ymhellach i'r uchod, mae angen gwaith pellach i i) gynyddu dealltwriaeth sefydliadau o bwysigrwydd y gweithle dwyieithog a ii) helpu busnesau i gynllunio gweithleoedd

dwieithog trwy ddatblygu sgiliau iaith eu staff. O'n hymwneud â busnesau, gellir casglu nad yw'r mwyafrif o gyflogwyr preifat yn ystyried y Gymraeg fel ffactor i'w hystyried wrth gynllunio'r gweithlu. Yn amlach na pheidio, fe'i hystyrir fel rhinwedd yn hytrach na sgil ac nid yw cyflogwyr yn ei hystyried wrth fynd ati i gyflogi na hyfforddi staff.

Enghreifftiau o fusnesau sydd wedi bod ar eu hennill o farchnata eu hunain fel rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg

Mae astudiaethau achos yn bodoli ac eisoes wedi eu cynnwys mewn adroddiadau ar y pwnc hwn. Nodwn serch hynny y byddai hefyd yn fuddiol i dderbyn tystiolaeth gan fusnesau neu fentrau cymdeithasol sy'n gweithredu un ai i) yn organig trwy gyfrwng y Gymraeg neu, ii) yn gweithredu cynlluniau masnachol er budd y Gymraeg. Mae'r rhain yn bodoli ac mae eu cyfraniad tuag at hyfywedd ieithyddol cymunedol angen ei gofnodi a'i gydnabod.

Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

Mae polisïau economaidd yn gallu cael effaith uniongyrchol ar les y Gymraeg. Mae'n bwysig felly fod y Gymraeg yn cael ei phrif-ffrydio'n gyson oddi fewn i strategaethau a chynlluniau gweithredu ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi, ac yn ymateb i ymgynghoriadau yn y cyswllt hwn yn cynnwys ymateb i strategaeth genedlaethol y Llywodraeth ar Adfywio: 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Prin yw'r cyfeiriadau at y Gymraeg yn y ddogfen bwysig hon ac mae angen sicrhau fod y Gymraeg yn cael lle haeddiannol o fewn dogfennau o'r fath, a hefyd mewn unrhyw gynlluniau gweithredu dilynol. Mae'r un peth yn wir yng nghyswllt 7 Ardal Adfywio Llywodraeth Cymru. Dylai'r Gymraeg fod yn ystyriaeth lorweddol i bob ardal adfywio a dylid adlewyrchu hynny yn eu Fframweithiau Strategol unigol. Ymhellach, mae rhai o'r ardaloedd adfywio hyn yn cynnwys cymunedau lle mae dros 70% yn siarad Cymraeg. A yw'r Llywodraeth wedi cymryd y cyfle i adnabod cyfleoedd unigryw ac arloesol i ddatblygu cynlluniau adfywio economaidd lle mae'r Gymraeg yn greiddiol i'r cynlluniau arfaethedig yn yr ardaloedd hyn?

Ar lefel leol, mae Strategaethau Adfywio Lleol yr Awdurdodau Lleol unigol hefyd yn cynnig cyfleoedd i ystyried gweithredu o blaid y Gymraeg yn lleol a dylid sicrhau fod y Gymraeg yn ystyriaeth weithredol o fewn y strategaethau hyn.

Mae'r un egwyddor o brif-ffrydio'r Gymraeg yn wir yng nghyswllt Paneli Sector yr Adran Economi a hefyd wasanaeth cefnogi busnes y Llywodraeth: Busnes Cymru. Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i bobl sy'n dechrau neu'n tyfu eu busnes. Ar hyn o bryd, cyfeirir yr unigolion hyn ymlaen at Dîm Sector Preifat y Comisiynydd os ydynt yn dymuno derbyn cymorth i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg yn eu busnes. Tra'n bod yn croesawu'r cyfeirio pwrpasol yma, byddem hefyd yn gofyn a oes angen prif-ffrydio'r Gymraeg ymhellach i wasanaethau cefnogi busnes y Llywodraeth. A yw'r cyrsiau sefydlu busnes er enghraifft yn cyfeirio at y Gymraeg a'r angen i ystyried y Gymraeg wrth sefydlu busnes? A yw'r cyngor ar farchnata yn darparu gwybodaeth am ddylunio yn ddwyieithog?

Mae Busnes Cymru yn cyflogi Ymgynghorwyr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Ymgynghorwyr Amgylcheddol sy'n helpu busnesau i lunio Polisiâu Cydraddoldeb a Pholisiâu Amgylcheddol. Nid yw'r math hwn o ddarpariaeth yn bodoli ar hyn o bryd yng nghyswllt y Gymraeg a gofynnwn a oes angen edrych ar y dulliau mwyaf effeithiol o gyflwyno darpar fusnesau a busnesau twf i dempled Polisi laith y Comisiynydd? Trwy sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei chyflwyno'n gynnar wrth i fusnesau sefydlu, byddai hynny'n cyfrannu tuag at normaleiddio'r Gymraeg yn niwylliant cefnogi busnes Cymru.

Awgrymiadau ar gyfer hwyluso'r gwaith o hybu datblygu economaidd a'r Gymraeg gyda'i gilydd

Polisiâu Caffael

Mae ymrwymiad mewn Cynlluniau laith Gymraeg dan Ddeddf yr laith Gymraeg 1993 i osod amodau iaith mewn cytundebau cyhoeddus. Golyga hyn fod disgwyliad cynyddol ar gontractwyr i weithredu ar ofynion ieithyddol cytundebau o natur gyhoeddus. Gellir casglu fod gosod amodau fel hyn wedi codi lefel ymwybyddiaeth contractwyr preifat o'r angen i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau yn ogystal â chynyddu'r ddarpariaeth. Gymraeg sydd ar gael ond erys gwaith i brif-frydio'r Gymraeg ymhellach i strwythurau cefnogi caffael y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus.

Yng nghyfnod Bwrdd yr laith Gymraeg, cyhoeddwyd Canllaw Caffael oedd yn gosod arweiniad i'r sector cyhoeddus ar sut i osod amodau ieithyddol mewn cytundebau. Roedd y Canllaw yn edrych yn benodol ar osod amodau oedd yn berthnasol i'r cytundeb dan sylw gan osgoi ymarferiad 'ticio bocs' o nodi fod cwmni yn gweithredu Polisi laith Gymraeg. Mae egwyddorion y Canllaw hwn yn parhau'n berthnasol yng nghyswllt y Gymraeg a chontractio.

Yng nghyswllt contractio a'r iaith Gymraeg, mae'n bwysig nodi hefyd fod adran 48 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi'r hawl i'r Comisiynydd roi hysbysiad cydymffurfio i gontractwyr yn uniongyrchol. Pan ddaw'r gyfundrefn Safonau i rym, bydd hyn yn golygu fod modd i'r Comisiynydd fynd i'r afael â'r materion uchod trwy:

i. Sicrhau fod sefydliadau yn gosod amodau ieithyddol mewn cytundebau o natur gyhoeddus, a ii. Sicrhau fod contractwyr yn uniongyrchol ddarostyngedig i safonau.

Dyrannu Grantiau

Fel uchod, mae modd gosod amodau yn ymwneud â'r Gymraeg wrth osod grantiau cyhoeddus. Mae'r gofynion hynny serch hynny yn gorfod amrywio yn ôl amgylchiadau unigol. Mae gan y Comisiynydd Ganllaw Dyrannu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd sy'n rhoi arweiniad i sefydliadau ar sut i osod amodau ieithyddol yn y cyswllt hwn a dylid sicrhau fod arweiniad y Canllaw yn cael ei brif-frydio o fewn i strwythurau dyrannu grantiau, benthyciadau a nawdd y Llywodraeth a chyrrff cyhoeddus.

Mae Atodlen 5(5) Mesur y Gymraeg 2011 yn cyfeirio at 'Personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd ac sy'n derbyn cyfanswm o £400,000 neu fwy o arian

cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol'. Mae sefydliadau sy'n disgyn o fewn y categori hwn yn agored i gael eu cynnwys yn Atodlen 6 y Mesur, drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru. O wneud hyn, ac mewn amgylchiadau penodol, bydd modd i'r Comisiynydd wneud y sefydliadau hyn yn agored i orfod cydymffurfio â safonau.

Y Gyfundrefn Gynllunio a'r Iaith Gymraeg

Gall y gyfundrefn gynllunio hwyluso datblygu economaidd priodol gan ei gynllunio mewn safleoedd addas a sicrhau ystyriaeth o ofynion ac anghenion lleol. Dylai'r gyfundrefn gyfrannu tuag at feithrin cymunedau Cymraeg drwy hwyluso safleoedd datblygu economaidd sydd yn gynaliadwy ac sydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg. Nid yw'r gyfundrefn gynllunio fel mae'n sefyll yn ateb y diben o safbwynt gwarchod y Gymraeg ac mae consensws cryf nad yw'r Nodyn Cyngor Technegol 20 a gyhoeddwyd yn 2000 yn rhoi arweiniad digonol i awdurdodau lleol ynghylch sut a phryd i asesu effaith polisïau a cheisiadau cynllunio ar y Gymraeg. Sgil effaith hynny yw bod dulliau awdurdodau lleol o ystyried y Gymraeg yn anghyson ac yn annigonol. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi cysylltu â'r Llywodraeth ar y mater uchod.

Nodwn hefyd fod modd gosod amodau ynghlwm â cheisiadau cynllunio ac mewn rhai achosion, (e.e. Arwyddion a Hysbysebion Gwybodaeth), gellir gorfodi fod yr arwyddion gwybodaeth hynny yn ddwyieithog. Credwn felly fod angen ymchwilio ymhellach i'r hyn y gellir ei gyflawni o fewn gofynion Polisi Cynllunio Cymru ac ymchwilio yn benodol i'r defnydd o amodau ieithyddol yn ymwneud â defnydd busnesau o'r Gymraeg ar arwyddion newydd. Mae defnydd gweledol o'r Gymraeg ar arwyddion cyhoeddus yn cynnal statws y Gymraeg ac yn cyfrannu tuag at ei hyfywedd. Sut fydd Llywodraeth Cymru felly'n defnyddio ei bwerau ym maes cynllunio i hybu defnydd ehangach o'r Gymraeg – e.e. ar arwyddion busnesau yng Nghymru?

Grŵp Gorchwyl a Gorggen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd

Mentrau Iaith Cymru

Mae Mentrau Iaith Cymru yn fudiad cenedlaethol sy'n cefnogi gwaith y 22 Menter Iaith dros Gymru. Mudiadau lleol, cymunedol yw'r Mentrau Iaith sy'n gweithredu er budd y Gymraeg. Rydym yn cynnal amrywiaeth o brosiectau yn y meysydd plant a theuluoedd, ieuencid, datblygu economaidd, datblygu cymunedol, treftadaeth a diwylliant. Mae mwy o wybodaeth am y Mentrau, ynghyd â dolenni i wefannau pob Menter ar gael ar www.mentrauiaith.org

Rydym yn croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Gymraeg a Datblygu Economaidd.

Mae ein hymateb i'r cwestiynau penodol a ofynnir gan y Grŵp isod.

a) Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

Gofal Cwsmer

Mae busnesau mawr bach yn elwa o ddarparu gwasanaethau dwyieithog yng Nghymru: trwy barchu dewis iaith eu cwsmeriaid mae busnesau yn meithrin perthynas gofal cwsmer cryf â'u defnyddwyr gwasanaeth. Mae gwaith ymchwil gan Beaufort Research ar ran Llais Defnyddwyr Cymru yn dystiolaeth o hyn: *"[Allan o dros 700 o bobl] dywedodd bron i dri chwarter (73%) ohonynt y byddent yn fwy tebygol o brynu eto gan fusnes neu argymhell busnes a oedd wedi darparu gwasanaeth Cymraeg llawn iddynt."*

Delwedd Corfforaethol Cynhwysol a Chyfrifol

Yn gysylltiedig â'r maes gofal cwsmer mae delwedd gorfforaethol Cymraeg a dwyieithog. Mae brandio a chyfathrebu dwyieithog yn allweddol i ddenu cwsmeriaid sy'n siarad Cymraeg. Credwn fod angen cyplysu brandio a marchnata dwyieithog â gwasanaethau cyfrwng Cymraeg o safon a gweithrediad ystyrlon i gwrdd ag anghenion siaradwyr Cymraeg.

Cefnogaeth

Credwn fod angen cefnogaeth gadarn ar gyfer busnesau mawr a bach ym mhob rhan o Gymru, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn ddarostyngedig i Mesur y Gymraeg 2011. Dylai'r gefnogaeth hyn gynnwys:

- Ail-sefydlu'r gwasanaeth cyfieithu am ddim (Llinell Gyswilt)
- Ymgyrch arwyddion dwyieithog a bathodynau i staff sy'n siarad Cymraeg: mae angen codi ymwybyddiaeth o'r adnoddau hyn
- Cefnogaeth ymarferol i ddatblygu cynlluniau iaith a chynyddu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg

Yn ogystal â hyn oll credwn fod modd i Fentrau a busnesau ar draws Cymru greu swyddi cyfrwng Cymraeg nad ydynt yn bodoli ar hyn o bryd trwy adnabod cyfleoedd economaidd sy'n unigryw i'w hardaloedd lleol, e.e. y maes awyr agored, twristiaeth, treftadaeth ac egni gwyrdd.

b) Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

Mae ein Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg yn egluro ein gweledigaeth ar gyfer cynyddu gwerth economaidd y Gymraeg. Hoffem gyfeirio'r grŵp at y cynllun hwnnw yn benodol.

Yn fras, credwn:

- Fod angen i'r Gymraeg ddod yn sgil hanfodol ar gyfer gwaith ar draws sectorau – trwy gynyddu'r defnydd ohoni a chreu swyddi newydd mae modd cefnogi datblygu economaidd.
- Trwy gynyddu'r swyddi sy'n galw am y Gymraeg fel sgil hanfodol ceir mwy o ddefnydd, mwy o alw am wasanaethau a mwy o ddysgu.
- Fod angen creu gwell troedle economaidd i siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Nid yw'r Gymraeg yn cael ei hystyried yn sgil yn ddigonol ar hyn o bryd oherwydd rhesymau hanesyddol. Mae hyn yn cyfyngu'r defnydd o'r Gymraeg oherwydd diffyg gwasanaethau ac yn arwain at allfudiad anghynladwy o siaradwyr Cymraeg ifanc.
- Fod angen adnabod cyfleoedd economaidd sydd yn berthnasol i ardaloedd lle mae yna niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg ac annog siaradwyr Cymraeg i'w perchnogi, e.e. y maes awyr agored, twristiaeth, egni gwyrdd.

c) Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

Credwn fod angen i'r Gymraeg ddod yn ganolog i bolisi yn y sector cyhoeddus nid dim ond i wella gwasanaethau ond i greu swyddi sy'n galw am y Gymraeg fel sgil hanfodol. Ar hyn o bryd yng Nghymru rydym yn wynebu sefyllfa lle mae galw cynyddol am wasanaethau cyfrwng Cymraeg ar un llaw ond ar y llaw arall mae allfudiad gan gannoedd o siaradwyr Cymraeg ifanc bob blwyddyn oherwydd diffyg gwaith.

Mae datblygiadau yn y sector cyhoeddus, yn enwedig yn y maes polisi adnoddau dynol a recriwtio yn allweddol i fynd i afael â'r sefyllfa hon. Gellid ystyried polisi iaith Cyngor Gwynedd yn y cyd-destun hwn. Ar wahân i Wunedd does dim Awdurdod Lleol yn defnyddio'r Gymraeg yn weinyddol fel canlyniad o bolisi iaith mewnlol. Mae'n debyg bod dylanwad polisi iaith y Cyngor a'r cyfleoedd gwaith cyfrwng Cymraeg mae hynny yn eu creu yn gyfrifol yn rhannol am gynnal y Gymraeg yn ardal Caernarfon trwy gynyddu'r galw am weithwyr sy'n medru'r Gymraeg.

ch) Enghreifftiau o arferion da o ran cyflogi gweithwyr sy'n siarad Cymraeg

Ym Mhenrhyndeudraeth mae Traveline Cymru yn cyflogi gweithwyr dwyieithog i weithio o fewn un safle ac ymateb i alwadau yn Gymraeg a Saesneg. Yn hytrach nag ystyried gwasanaethau a gweithwyr Cymraeg a Di-Gymraeg ar wahân mae'r cyflogwr wedi manteisio ar ddwyieithrwydd fel sgil i waredu'r angen am ddwy ganolfan alwadau.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi sefydlu canolfan alwadau sy'n derbyn holl alwadau'r cyngor fel pwynt cyntaf, ac mae'n raid i bob un o'r staff fod yn ddwyieithog

i ddelio â'r galwadau. Mae hyn yn ei dro, fel yr enghraifft uchod, yn creu gweithle dwyieithog / cyfrwng Cymraeg.

Mae ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal yn allweddol i'r enghreifftiau hyn o arfer da: yn lle ystyried darparu gwasanaethau Cymraeg yn *ychwanegol* i wasanaethau cyfrwng Saesneg (a sefydlu ail ganolfan galwadau i ddelio â galwadau Cymraeg) mae'r cyflogwyr wedi cwrdd â'r angen am wasanaethau Cymraeg a Saesneg trwy recriwtio gweithwyr dwyieithog ac mae gwasanaeth dwyieithog o safon sydd hefyd yn gost-effeithiol yn ganlyniad naturiol o hynny.

d) Enghreifftiau o fusnesau sydd wedi bod ar eu hennill o farchnata eu hunain fel rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg

e)

Mae enghreifftiau o arfer da yn cynnwys:

- Portmeirion
- Blas ar Fwyd (Llanrwst)
- Pellenig (Cwmni Awyr Agored)
- Y Harbwrfeistr (Aberaeron)
- Fflam Eryri (Eglwysbach)
- Y Castell (Caernarfon)
- Cwrw Llyn (Rhydyclafdy, Pen Llyn)
- Siop Siocled (Dinbych)
- Cyfreithwyr Swayne Johnson (Rhuthun a Dinbych)
- Aballu (Wrecsam)

Yng nghyd-destun y maes twristiaeth mae gwaith ymchwil fel rhan o adroddiad STEAM (2009) yn egluro sut mae brandio dwyieithog yn fanteisiol i fusnesau: *“In a world of global brands and creeping homogenisation distinctiveness is increasingly hard to find and can be a powerful marketing tool which is advantageous when competing with the rest of the UK and mainland Europe. North Wales has a unique linguistic and cultural heritage which enriches local communities and which could be more effectively utilised to add value to the visitor experience. Bilingualism is an added dimension with bilingual skills in the workplace increasingly recognised to be a valuable asset.”*

Yn ogystal â marchnata eu hunain fel busnesau sy'n defnyddio'r Gymraeg credwn fod angen i bob busnes gyflysu brandio Cymraeg a dwyieithog â darpariaeth Cymraeg ystyrlon (e.e. trwy gyflogi staff sy'n medru'r Gymraeg a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a gyda chwsmeriaid). Hefyd hoffwn weld y Gymraeg yn dod yn rhan ganolog o atebolrwydd cymdeithasol corfforaethol (CSR) yng Nghymru fydd yn annog busnesau i ystyried effaith pob agwedd o'u gwaith ar y Gymraeg yn lleol.

dd) Awgrymiadau ar gyfer hwyluso'r gwaith o hybu datblygu economaidd a'r Gymraeg gyda'i gilydd

Credwn fod y Mentrau Iaith, ynghyd â mudiadau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn allweddol o ran cynnal swyddi cyfrwng Cymraeg a chefnogi swyddi eraill trwy ein

gwaith. Mae'r Mentrau Iaith yn cyflogi 300 o weithwyr llawn amser dros Gymru ac yn cyflogi gweithwyr rhan-amser, achlysurol a llawrydd ar ben hynny. Mae'r Mentrau hefyd yn cydnabod yr angen i feithrin a hyrwyddo entrepreneuriaeth yn lleol er mwyn cefnogi busnesau a darparu cyfleoedd i bobl weithio trwy gyfrwng y Gymraeg i gynnal y Gymraeg yn lleol – mae enghreifftiau o brosiectau o'r fath gan y Mentrau sy'n hyrwyddo entrepreneuriaeth (e.e. prosiect *Mentro* Menter Bro Dinefwr, Prosiect *EgNi* Menter Iaith Conwy ac eraill).

Dymuniad Mentrau Iaith Cymru yw gweld datblygu economaidd yn digwydd llaw yn llaw â'r nod o greu Cymru ddwyieithog. Credwn fod modd cynorthwyo i ddatblygu'r economi drwy edrych ar y Gymraeg fel sgil sydd yn creu cyfleoedd gwaith gan gyflogwyr, ac yn galluogi pobol i gael swyddi a gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, credwn fod modd creu swyddi newydd i siaradwyr Cymraeg mewn meysydd sydd heb eu datblygu yn llawn.

Mae ein gweledigaeth ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg a'r economi gyda'i gilydd yn cael eu hegluro yn ein Cynllun Marchnad Lafur Cyfrwng Cymraeg. Gofynnwn i'r grŵp ystyried yr awgrymiadau yn y papur.

Safonau'r Iaith Gymraeg

Ymateb CBI Cymru

Cyflwyniad

Mae CBI Cymru'n croesawu'r cyfle hwn i ymateb i ymgynghoriad Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) ar safonau'r iaith Gymraeg (y Safonau). Y CBI yw prif sefydliad busnes y DU, yn cynrychioli tua 240,000 o fusnesau sy'n cyflogi cyfanswm o draean o weithlu'r sector preifat. Yng Nghymru, rydym ni'n cynrychioli cyflogwyr mwyaf y wlad, gan gynnwys 75% o'r angor gwmnïau ac amrediad o FBCh sy'n tyfu. Y CBI yw'r prif sefydliad busnes sy'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflwyno amgylchedd fusnes mwy cystadleuol.

Hinsawdd economaidd heriol

Er mwyn i'r sector preifat sbarduno'r adferiad economaidd, mae'n rhaid i Gymru fod yn lle deniadol i sefydlu busnes ynddo a chreu swyddi. Yn yr hinsawdd economaidd hon, mae'n rhaid mesur pob polisi gan y Llywodraeth yn erbyn eu gallu i gefnogi twf y sector preifat a gwneud Cymru'n lle mwy deniadol i wneud busnes ynddo. Mae sector preifat sy'n gryf ac yn ffynnu er budd pawb. Mae angen economi lwyddiannus er mwyn ffurfio sail i ddyheadau iechyd, addysg a chyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

O ystyried yr hinsawdd economaidd, mae'n rhaid gweithredu Safonau'r iaith Gymraeg mewn ffordd na fydd yn cyfyngu ar ddewis y defnyddiwr, yn gwneud Cymru'n lle llai deniadol i wneud busnes ynddo neu ddifrodi agwedd gadarnhaol y gymuned fusnes ehangach tuag at yr iaith.

Mae busnes yn darparu gwasanaethau yn ôl y galw

Mae cwmnïau sy'n aelodau o'r CBI yn gweithredu drwy sawl rhan o Gymru - gwledig a threfol, ardaloedd naturiol Gymreig ac ardaloedd diwydiannol Saesneg. Mae gan aelodau agwedd gadarnhaol tuag at yr iaith fel arfer ac maent yn barod i ymestyn y defnydd ohoni mewn busnesau lle mae galw sylweddol gan weithwyr a chwsmeriaid. Mae sawl busnes yng Nghymru, mewn gwahanol ffyrdd, wedi dewis cynnwys yr iaith Gymraeg yn eu marchnata neu eu perthynas a chwsmeriaid – ar sail wirfoddol.

Argymhellion allweddol

Mae'r CBI yn gwneud yr argymhellion allweddol canlynol i'r Comisiynydd ac i Lywodraeth Cymru:

- Mae'n rhaid gosod twf a swyddi fel prif flaenoriaeth: O ystyried y cynnydd y gellid ei wneud yn wirfoddol, dyma'r amser anghywir i fod yn cyflwyno rheolau ychwanegol i fusnesau sy'n gweithredu yng Nghymru:
- Mae'r dull gwirfoddol yn gweithio: Mae busnesau yng Nghymru eisoes yn darparu amrediad o wasanaethau yn ôl y galw, sydd wedi eu cyflawni drwy ddull gwirfoddol
- Mae angen trafodaeth ddiwyll: Dylai'r Comisiynydd gynnal asesiad effaith rheoleiddio ar y Safonau drafft i gyd ac ymgynghori a busnesau ynglŷn â sail y Safonau drafft rheiny. Mae'n rhaid hefyd egluro rôl y sector preifat wrth gyflwyno Safonau. Mae busnesau angen sicrwydd ac eglurder a gwybod 'beth', 'sut' a 'pha bryd' er mwyn cynllunio ar gyfer unrhyw ofynion

Twf a swyddi: y brif flaenoriaeth

Mae sector preifat sy'n gryf ac yn ffynnu yn hanfodol i ddyfodol llewyrchus yng Nghymru. Mae angen economi lwyddiannus er mwyn ffurfio sail i ddyheadau iechyd, addysg a chyfiawnder cymdeithasol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys iechyd yr iaith Gymraeg.

Mae busnesau'n cefnogi amcanion strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru: Iaith Fyw: Iaith i Fyw Mae creu Cymru fwy dwyieithog yn nod tymor hir. Y ffordd fwyaf effeithiol y gyrraedd y nod hon yw drwy addysg, cymorth ac anogaeth a chydabod fod rhai cwmnïau, yn enwedig rhai llai, angen mwy o gymorth gweithredol gan y llywodraeth nag eraill.

Mae cwmnïau o Gymru'n dod o dan ddylanwadau byd eang.

Mae Cymru'n farchnad fechan ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau, gyda phoblogaeth fechan heb fod yn gyfoethog iawn (GDP y pen yn gymharol isel) o dair miliwn. Mae'n rhaid, felly i fusnesau sydd a'r dyhead i dyfu, wasanaethu marchnadoedd y tu allan i Gymru – yn y DU ac o amgylch y byd. Bydd cwmnïau o Gymru felly'n cystadlu'n frwd gyda chystadleuwyr mewn rhannau eraill o'r Du a thramor bob dydd. Yn erbyn y cefndir hwn, mae natur yr amgylchedd fusnes y mae'r busnes yn dewis lleoli ei hun ynnddi yn hanfodol bwysig.

Mae hwn yn gyfnod heriol i bob gweithiwr yn y sector preifat yng Nghymru. Mae nifer o gwmnïau mwyaf Cymru mewn ras fyd eang i oroesi; ac o ganlyniad, maen nhw'n gwneud toriadau ac yn chwilio am farchnadoedd newydd i werth eu nwyddau neu eu gwasanaethau. Ar adeg fel hyn, mae angen i Lywodraeth Cymru a'r Comisiynydd sicrhau bod tystiolaeth sy'n sail i bob penderfyniad polisi a wneir yn adlewyrchu'r sefyllfa economaidd gyfredol ac y rhoddir digon o ystyriaeth i benderfyniadau fydd yn cael effaith uniongyrchol ar wahanol rannau o'r sector preifat.

Mae cost dechnegol, y gallu, gweinyddu a rheoli wrth gydymffurfio a deddfwriaeth heb fod digon o alw/elw ariannol, yn rhywbeth na all nifer o fusnesau yng Nghymru ei wneud, yn enwedig yn yr hinsawdd economaidd anodd.

Argymhellion

Mae'r CBI yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Comisiynydd ac i Lywodraeth Cymru:

Ni ellir diystyru cyflwr gwan economi Cymru ar hyn o bryd wrth benderfynu ar raddfa a chyflymder gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg.

Mae'r dull gwirfoddol yn gweithio

Mae aelodau'r CBI wedi hen arfer cefnogi defnyddio a mabwysiadu'r Gymraeg yn y sector preifat wrth wneud hynny ar sail wirfoddol ac yn ôl y galw. Fel y nododd y CBI yn yr ymateb i Orchymyn Cymhwysedd yr Iaith Gymraeg, gellid gwella gwasanaethau iaith y sector preifat yng Nghymru heb fod angen gorfodaeth y gyfraith.

Mae rhai cwmnïau telegyfathrebu, bysiau a threnau a chwmnïau gwasanaethau yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau dwyieithog. Mae'n debyg y bydd Mesur yr Iaith Gymraeg (y 'Mesur') yn newid canfyddiad yr iaith o ddatganiad cadarnhaol o ymrwymiad i Gymru, i fater cydymffurfio - a chostau hynny'n tueddu i fod wedi eu rheoli a'u cadw cyn lleied â phosibl.

Y galw yw'r prif rwystr i dwf y gwasanaeth

Y prif rwystr o hyd i ymestyn gwasanaethau Cymraeg yn y sector preifat yw lefel isel y defnydd ohoni. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd yr Iaith Gymraeg yn llunio achos busnes deniadol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chwmnïau yng Nghymru i roi hwb i ddefnydd y Gymraeg ymysg defnyddwyr a rhoi sgiliau a hyfforddiant i unigolion er mwyn iddynt gael yr hyder i ddefnyddio'r iaith mewn amgylchedd ffurfiol. Os gwneir hyn yn effeithiol, byddai mwy o ddefnydd yn annog mwy o gwmnïau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg.

Mae mwyafrif y sector preifat yn parhau i fod y tu allan i rychwant y Mesur. O ganlyniad, fe fydd yn bwysig i'r Comisiynydd barhau i gefnogi'r cynllun nod barcut Buddsoddi yn y Gymraeg. Gallai'r dull achredu gwirfoddol hwn, gyda'r marchnata priodol, ennyn mwy o gefnogaeth yn y sector preifat na'r cwmnïau a gynhwysir yn y Mesur. Dylai gael ei effeillio gydag ymgyrch gyhoeddusrwydd i gynyddu galw'r defnyddiwr a gwaith i ddeall pam mae siaradwyr Cymraeg yn gyndyn o ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd swyddogol. Mae gan y dull hwn y potensial o gyflwyno mwy o ddefnydd o'r iaith ar draws y sector preifat.

Argymhellion

Mae'r CBI yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Comisiynydd ac i Lywodraeth Cymru:

- Mae'n rhaid parhau i gefnogi ac annog ymestyn gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn wirfoddol.
- Mae'n rhaid i'r Llywodraeth barhau i ystyried ffyrdd newydd o gynyddu galw'r defnyddwyr am wasanaeth.

Mae angen trafodaeth ddidwyll

Nid oes llawer o wledydd eraill wedi defnyddio Safonau iaith gorfodol. O ganlyniad, mae'n anodd gwybod beth fyddai'r effaith mewn gwirionedd ar economi Cymru a'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym wedi ein siomi felly nad yw'r ddogfen ymgynghori i'w gweld yn ymgynghori a busnesau ynglŷn â prun ai yw'r safonau/gweithgareddau a nodir yn rhesymol neu'n gymesur. Mae angen ymgynghoriad ar addasrwydd pob Safon a Gweithgaredd cyn y gellir gwneud mwy o gynnydd.

Mae angen fframwaith cydymffurfio syml.

Mae'r fframwaith cydymffurfio, fel y'i nodir yn y ddogfen ymgynghori, yn rhy gymhleth ar hyn o bryd. Mae'r ddogfen yn rhestru 66 o Safonau a'r 72 o weithgareddau, y mae'n rhaid i gwmnïau eu darparu'n ddwyieithog pe baen nhw'n dod o dan reolau'r Mesur. Rydym yn cwestiynu a fyddai dull cymhleth fel hyn yn unol ag Egwyddorion Gwell Rheolaeth ac Egwyddorion Hampton. Nid yw'r CBI yn ymwybodol bod asesiad effaith reoliadol wedi ei wneud ar y cynigion drafft yma. Dylai'r Comisiynydd ganolbwyntio ar ganlyniadau a rhoi'r hyblygrwydd i'r sector preifat weithredu'r fframwaith yn y ffordd fwyaf effeithiol i'w diwydiant nhw. Dylai'r Comisiynydd weithio gyda'r sector preifat i gyflwyno fframwaith cydymffurfio symlach a mwy effeithiol, gyda phwyslais ar weithredu gwirfoddol.

Mae'n rhaid manylu ar amserlen a diffiniadau.

Nid yw'r ddogfen ymgynghori'n gwneud llawer i roi'r sicrwydd sydd ei angen ar gwmnïau o Gymru ynglŷn â materion allweddol fel amserlenni a diffiniadau. Dylai'r Comisiynydd ei gwneud hi'n glir fod gweithredu'r Safonau yn y sector preifat yn broses tymor hir sy'n seiliedig ar ymgynghori a chonsensws. Dylid llunio map o'r

daith er mwyn cefnogi cwmnïau, wrth iddyn nhw weithio'n raddol tuag at gydymffurfiaeth lawn, a gwneud hynny mewn partneriaeth gyda'r cwmnïau yr effeithir arnynt.

Prawf rhesymoldeb

Rydym yn falch fod y Mesur yn cynnwys prawf rhesymoldeb a chyfrannedd. Yn synhwyrol, dylai'r Comisiynydd ystyried y prawf hwn wrth lunio Safonau a gweithgareddau drafft. Byddai methu a gwneud hynny'n creu cost ddiangen ac oedi wrth gynyddu siawns sefydliad o apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd. Byddem yn hoffi eglurder gan y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru, a yw'r Safonau a'r gweithgareddau hyn yn unol â'r darpariaethau rhesymoldeb o fewn Gorchymyn Cymhwysedd Deddf yr Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg.

Marchnad gymhleth sy'n newid yn gyflym

Canlyniad mwy o ddewis i'r defnyddiwr yw rhwydwaith mwy cymhleth o wasanaethau cyhoeddus. Mae cwmnïau preifat bellach yn darparu amrediad o wasanaethau arferai fod yn rhai cyhoeddus – megis telegyfathrebu – wedi arallgyfeirio gyda thechnoleg newydd ar gyfer nifer o wasanaethau newydd a ffyrdd newydd o gyfathrebu gyda darparwr gwasanaeth. Mae hon yn sector cymhleth sy'n symud yn gyflym.

Mae angen amodau teg ar draws Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y gallai gweithredu'r Safonau hyn fod yn wahanol mewn a rhwng sectorau, ac amrywio mewn gwahanol rannau o Gymru. Byddai hyn, meddent, yn galluogi cwmnïau i ddarparu lefelau o wasanaeth cyhoeddus Cymraeg yn ôl y galw, ac yn dibynnu ar eu lleoliad. Rydym yn credu y gallai dull o'r fath weithio drwy system wirfoddol. Ond, nid yw'n bosibl cynnig dyletswyddau statudol gwahanol i gwmnïau sy'n cystadlu i ddarparu'r un gwasanaethau. O dan gynllun statudol, ni fyddai rheolau cystadleuaeth yn galluogi dull fyddai wedi ei deilwra fel hyn. Mae'n rhaid i god statudol gynnig amodau teg rhwng cwmnïau o fewn y sectorau yr effeithir arnynt er mwyn sicrhau bod egwyddorion cystadleuaeth deg yn cael eu parchu.

Ni ddylai rheoleiddio leihau dewis y defnyddiwr.

Yn ogystal â hynny, mae nifer gynyddol o gyflenwyr ynni arbenigol sy'n cynnig gwasanaethau i grwpiau bychan o ddefnyddwyr. Mae'r dewis o gyflenwr gwasanaethau 'ynni gwrdd', er enghraifft, ar gael yng Nghymru. Ni fyddem am weld canlyniad anfwriadol bod y Gymraeg yn dod yn rhwystr anghyfreithlon i'r cwmnïau gwasanaeth bychan yma rhag gweithredu yng Nghymru. Ni fyddem chwaith am i hyn rwystro cwmnïau mwy newydd ac arbenigol mewn sectorau eraill, gan y byddai hyn yn niweidio'r Gymraeg.

Angen eglurder ar gyfer y sector gwasanaethau telegyfathrebu

Nid ydym yn gwbl siŵr pa gwmnïau/gweithgareddau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cynnwys drwy son am 'wasanaethau telegyfathrebu' o fewn y Mesur. Yn y bôn, telegyfathrebu yw cynorthwyo i drosglwyddo signalau dros bellter at ddiben cyfathrebu. Gallai diffiniad o'r fath gynnwys amrediad eang o gynnyrch a gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd drwy'r sector preifat. Hoffem i'r Comisiynydd rannu ei diffiniad gwaith o'r sector gyda'r CBI.

Gwasanaethau i'r cyhoedd

Rydym yn nodi y bydd yr ymgynghoriad yn gosod Safonau i'r cwmnïau sy'n 'darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn arian cyhoeddus'. Rydym yn credu mai bwriad y cymal yw cynnwys cwmnïau preifat sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ac nid cwmnïau preifat sy'n derbyn arian cyhoeddus.

Nid yw nifer na pa fath o gwmnïau sy'n darparu "gwasanaethau i'r cyhoedd" a gynhwysir yn y cymal £400k yn wybyddus ar hyn o bryd. O ganlyniad, mae'n anodd nodi'n fanwl gywir pa effaith/cost a ddaw gyda'r gofyniad statudol newydd hwn. Effaith hyn ar gwmnïau yw cyfnod hir o ansicrwydd, nad yw'n ddelfrydol o ystyried cyflwr presennol y farchnad.

Byddai o fudd i'r Comisiynydd neu i Lywodraeth Cymru drafod gyda'r busnes pa gwmnïau y maen nhw'n ceisio eu blaenoriaethu o dan y cymal hwn. Cred y CBI mai bwriad y cymal yw cynnwys sefydliadau a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (ASPBs) megis Canolfan Mileniwm Cymru, sy'n darparu gwasanaeth cyhoeddus ac yn derbyn mwyafrif eu harian gan y sector cyhoeddus. Nid ydym yn credu bod y cymal yn bwriadu cynnwys, er enghraifft, gweithgynhyrchwyr sy'n derbyn arian grant gan y llywodraeth. Byddem yn falch o gael eglurhad gan y Comisiynydd.

Trin y Gymraeg "yr un mor ffafriol" a'r Saesneg

Rydym yn nodi fod yr ymgynghoriad yn gofyn i'r cwmnïau dan sylw drin y Gymraeg 'yr un mor ffafriol' a'r Saesneg o fewn y Safonau Gan nad oes diffiniad o 'yr un mor ffafriol' nid yw'n glir beth fydd cydymffurfio yn ei olygu'n ymarferol. Byddem yn croesawu barn y Comisiynydd ar y mater hwn.

Cefnogaeth y Llywodraeth

O ystyried y cam digynsail hwn gan Lywodraeth Cymru i ddeddfu er mwyn gorfodi darparu gwasanaethau dwyieithog, dylai Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd ystyried adolygu'r amrediad o gymorth a ddarperir i fusnesau bach a mawr er mwyn gweithredu gwasanaethau cyfrwng Gymraeg.

Gallai Llywodraeth Cymru leihau cost cydymffurfio i gwmnïau drwy gynnig cyngor a chanllawiau ynglŷn â'r ffordd fwyaf effeithiol o gyflwyno gwasanaethau Gymraeg. Byddai cynnig cymorth cyfieithu sylfaenol ar gyfer pethau fel arwyddion yn cael ei groesawu. Gallai'r Comisiynydd hefyd ystyried dilysu gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg fel y gall busnesau gael sicrwydd o ansawdd y gwaith a geir. Bydd nifer sylweddol o gwmnïau gaiff eu heffeithio gan y ddeddf, yn defnyddio'r Gymraeg am y tro cyntaf. Byddai helpu i egluro'r broses i'r cwmnïau hyn yn dderbyniol iawn.

Argymhellion

Mae'r CBI yn gwneud yr argymhellion canlynol i'r Comisiynydd :

- Mae angen ymgynghori'n iawn gyda'r sector preifat ynglŷn â rhinweddau'r safonau/gweithgareddau gyda'r nod o ddatblygu fframwaith cydymffurfio symlach
- Mae'n rhaid i'r Comisiynydd roi canllawiau cliriach i'r sector preifat ynglŷn ag amserlenni a diffiniadau.
- Dylai'r Comisiynydd sicrhau fod pob un o'r Safonau a'r gweithgareddau'n pasio'r prawf rhesymoldeb a chyfrannedd cyn eu cynnig.
- Mae angen i'r Comisiynydd amlinellu sut y bydd y Safonau'n cael eu gweithredu mewn marchnad gymhleth mewn ffordd nad yw'n cyfyngu ar ddewis y defnyddiwr nac yn gosod baich ar fusnesau.
- Dylai'r Comisiynydd egluro beth yw ei bwriadau ar gyfer y sector telegyfathrebu.

- Dylai'r Comisiynydd ei gwneud hi'n glir pa fath o gwmnïau sy'n perthyn i ddiffiniad y Mesur o 'ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn arian cyhoeddus' (atodlen 5(5))
- Dylai'r Comisiynydd egluro ei diffiniad o drin y Gymraeg 'yr un mor ffafriol' a'r Saesneg (t9).
- Dylai'r Comisiynydd a Llywodraeth Cymru egluro eu hymrwymiad i ddarparu mwy o gefnogaeth i gwmnïau sy'n darparu gwasanaethau dwyieithog.

Casgliad

Er mwyn llwyddo i gael y canlyniad gorau dros y Gymraeg, rydym yn argymhell bod y Comisiynydd yn gochel rhag dull cyfreithiol ac yn ffafrio perthynas yn seiliedig ar gymorth a chanllawiau o'r ddwy ochr, gyda dull gwirfoddol yn sail iddo.

Mae'r CBI yn gobeithio'n fawr y bydd pob un sy'n rhan o hyn yn gweithredu'r Safonau mewn ffordd fel y gellir parhau ag ewyllys da mwyafrif helaeth y sector preifat, sydd y tu allan i rychwant y Mesur.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Comisiynydd a Llywodraeth Cymru er mwyn cael strategaeth y gellir gweithio arni ar gyfer y Gymraeg ar gyfer y sector preifat, sy'n amlwg yn ôl y galw, ac yn gweithredu ar sail wirfoddol ac sy'n hyrwyddo ac nid yn tramgwyddo twf economaidd.

Yr Economi a'r Gymraeg

Menter a Busnes a'r Iaith Gymraeg

(efallai fod y rhagarweiniad hwn yn cyfrannu at gwestiynau (d) enghraifft o ymarfer da o safbwynt cyflogi siaradwyr Cymraeg ac (e) enghraifft o fusnes sydd wedi elwa trwy farchnata eu hunain fel defnyddwyr o'r Gymraeg)

Cefndir

Sefydlwyd Menter a Busnes yn 1989 gyda'r nod o gynyddu'r niferoedd o siaradwyr Cymraeg oedd yn defnyddio gwasanaethau dechrau busnes ac i sicrhau fod siaradwyr Cymraeg yn gwneud y cyfraniad gorau posib i economi Cymru. Roedd ymchwil blaenorol wedi dangos bod llai o siaradwyr Cymraeg na grwpiau eraill yn dod at wasanaethau busnes prif ffrwd, ac ymchwil pellach bod siaradwyr Cymraeg yn dueddol o fod yn llai mentrus o ran busnes a gyrfaedd na grwpiau eraill, a bod hyn yn llesteirio datblygiad yr economi yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd lle'r oedd niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg yn byw. Sefydlwyd nifer o brosiectau yn y dyddiau cynnar oedd yn gweithio yn benodol gyda siaradwyr Cymraeg e.e. Cwysi (teuluoedd fferm), Gorwelion (disgyblion, myfyrwyr a rhieni Cymraeg), MSc Entrepreneuriaeth cyfrwng Cymraeg, prosiectau Rhwydweithio Busnes ac eraill. Gydag amser, fe wellodd y sefyllfa o ran gweithgaredd economaidd siaradwyr Cymraeg ac roedd ymchwil yn dechrau dangos eu bod wedi dal i fyny gyda grwpiau eraill o ran mentro i fyd busnes ac ymddygiad entrepreneuriaidd yn gyffredinol. Yn ystod y cyfnod cynnar yn targedu siaradwyr Cymraeg, datblygodd Menter a Busnes gryn arbenigedd o ran datblygu prosiectau newydd, blaengar a chreadigol, ac o ran rheoli prosiectau yn llwyddiannus. Gydag arian craidd oddi wrth y Llywodraeth (neu asiantaethau'r Llywodraeth) yn lleihau, daeth yr angen i ail-ddiffinio raison d'être y Cwmni, a phenderfynwyd mai trwy gyfrannu yn weithredol at yr economi oedd gwneud hyn. Hynny yw, byddai Menter a Busnes yn ymddwyn yn fentrus ei hun yn ogystal â chynorthwyo eraill i wneud hynny. Gwelwyd hefyd fod y sialensiau oedd yn wynebu rhai sectorau e.e. y diwydiant amaeth yr un peth dim ots pa iaith oeddynt yn siarad, a gweithiwyd yn ddwyieithog gyda theuluoedd fferm ers 1997. Aethpwyd ati i ddarparu gwasanaethau masnachol ac ymgynghorol, a hefyd datblygwyd nifer o brosiectau blaengar nad oedd yn targedu siaradwyr Cymraeg yn unig, ond yn targedu grwpiau ehangach (gan gynnwys siaradwyr Cymraeg). Enghraifft o hyn yw'r Ffatri Fenter. Llwyddwyd i gael arian Ewropeaidd ar gyfer y prosiect ac yn dilyn cyfnod o ymchwil a chynllunio cafwyd arian i weithredu prosiect cenedlaethol a oedd yn targedu pobl ifainc 16 - 30 i'w hannog a'u cefnogi i dreialu busnes. Oherwydd mai Menter a Busnes oedd yn ei reoli, gyda dealltwriaeth a phrofiad mewn dulliau o weithio gyda'r diwylliant Cymraeg, llwyddwyd i ddenu canran uwch o siaradwyr Cymraeg i fod yn gleientiaid i'r prosiect. Cadwyd arbenigedd y Cwmni o ran targedu siaradwyr Cymraeg hyd heddiw. Mae cynnig gwasanaeth o ansawdd i siaradwyr Cymraeg wedi parhau yn un o brif werthoedd y

Cwmni, ac yn un o'r 'Unique Selling Points' ac mae hyn yn sicr o fantais wrth gystadlu am waith.

Polisi Presennol

Y Gymraeg yw prif iaith gyfathrebu'r cwmni, gan adlewyrchu ei genhadaeth greiddiol o ran hybu mentergarwch a hyder masnachol ymhlith siaradwyr Cymraeg. Wrth wneud hynny, mae Menter a Busnes yn gweld yr iaith Gymraeg fel nodwedd ganolog ac allweddol o'i hunaniaeth ei hun ac yn cydnabod y gwerth ymarferol ac economaidd o gynnal yr hunaniaeth Gymraeg honno i'r dyfodol.

Cyfathrebu mewnol

Cymraeg yw iaith gyfathrebu fewnol y cwmni gan amlaf, sydd yn cynnwys cyfathrebu llafar ffurfiol ac anffurfiol, a phob cyfathrebu ysgrifenedig yn cynnwys e-bost, adroddiadau ac ati. Serch hynny, wrth i'r cwmni dyfu a darparu mwy o wasanaethau prif ffrwd ac 'etifeddu' rhai gweithwyr di-gymraeg trwybrosesau TUPE rydym bellach yna darparu cynnwys y fewnrwyd yn ddwyieithog; felly hefyd unrhyw e-byst sydd wedi eu cyfeirio at y staff cyfan. Byddwn yn darparu offer cyfieithu mewn cyfarfodydd staff llawn.

Darparu gwasanaethau

Oherwydd cenhadaeth greiddiol y cwmni i hyrwyddo mentergarwch ymhlith siaradwyr Cymraeg, darperir gwasanaethau'r Cwmni yn y Gymraeg fel blaenoriaeth ond darperir gwasanaethau i unigolion yn ddwyieithog neu ar sail eu dewis iaith unigol fel bo'n briodol Fodd bynnag, gall fod yna achosion lle mae gwasanaethau'r cwmni wedi eu hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol neu at gynulleidfa ddwyieithog benodol. Yn yr achosion hynny darperir gwasanaethau perthnasol yn ddwyieithog, gan gynnal yr un safonau yn y ddwy iaith fel ei gilydd. Rhoddir blaenoriaeth i'r Gymraeg o fewn pob trefniant dwyieithog. Bydd holl gyswllt uniongyrchol cyffredinol y cwmni gyda'r cyhoedd yng Nghymru - yn ysgrifenedig, ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus - yn y Gymraeg, oni bai ei fod wedi ei anelu at gynulleidfa benodol ddwyieithog lle y bydd y cyswllt yn ddwyieithog gyda blaenoriaeth i'r Gymraeg. Bydd cyswllt y cwmni gydag unigolion - ar y ffôn neu mewn cyfarfodydd nad ydynt yn gyhoeddus - yn newis iaith yr unigolion hynny, naill ai Cymraeg neu Saesneg. Cyfrifoldeb staff Menter a Busnes fydd darparu'r dewis iaith hwnnw.

Y Sefyllfa Gyfredol

Nid yw Menter a Busnes yn derbyn arian craidd o unrhyw fath ers blynyddoedd maith, ac mae'r pwysau yn cynyddu i sicrhau incwm wrth reoli prosiectau mawr a gwneud gwaith masnachol. Mae lle'r Gymraeg yn dal yn gadarn yn y Cwmni ar hyn o bryd, ond y teimlad yw ei fod o dan warchae yn gynyddol:

- Pwysau o ran sut mae'r Llywodraeth yn gosod tendrau. Y tueddiad yw grwpio nifer o brosiectau cysylltiol at ei gilydd a gofyn i ddarparwyr i dendro am y cyfan. Lle mae

Menter a Busnes wedi bod yn darparu prosiect ac yn dymuno tendro am brosiect dilynol, rhaid ystyried tendro am grŵp o brosiectau, naill ai ar ein pennau ein hunain, neu fel rhan o gonsortiw. Mae hyn yn golygu, os ydym yn llwyddo i ennill y prosiectau, ein bod yn gorfod cymryd nifer o staff o sefydliadau eraill o dan reoliadau TUPE, rhai ohonynt fel arfer yn ddi-gymraeg. Enghraifft o hyn yw'r tendr Busnes Cymru.

- Pan yn rhan o gonsortiw sydd yn darparu gwasanaethau mae peryg i'r polisi iaith gael ei lastwreiddio. Rhaid ymdrechu i ddarbwylllo rhai partneriaid o bwysigrwydd yr iaith. Wedi dweud hynny buaswn yn dweud ein bod yn ennill peth tir yma - ac mae cael Menter a Busnes yn rhan o'r consortiw yn gwella dwyieithrwydd y gwasanaeth yn ei gyfanrwydd.
- Pwysau o rai adrannau o'r Llywodraeth yn gwrthod derbyn e.e. anfonebau Cymraeg a dogfennau eraill. Mae hyn yn groes i'w polisi wrth reswm – ond mae yn digwydd.
- Sylwadau o du staff ac ymgynghorwyr y Llywodraeth ynglŷn â pholisi recriwtio siaradwyr Cymraeg Menter a Busnes. Roedd prosiect ESiW yn enghraifft lle'r oedd rhaid dadlau dros gael siaradwyr Cymraeg, a lle bu rhaid i ni ddarganfod ffyrdd anuniongyrchol o sicrhau ein bod yn recriwtio siaradwyr Cymraeg ar gyfer y swyddi.
- Pwysau ymarferol weithiau yn deillio o anawsterau recriwtio'r sgiliau angenrheidiol o blith marchnad lafur eithaf cyfyng o siaradwyr Cymraeg.

I grynhoi

Er gwaetha'r anawsterau a'r bygythiadau nodwyd uchod, mae cwmni Menter a Busnes yn enghraifft o fusnes sydd yn llwyddo ac sydd hefyd yn defnyddio'r Gymraeg. Rhwng 2003 a 2013 mae trosiant y cwmni wedi cynyddu 350% a'r niferoedd staff wedi cynyddu o 35 i 85 (ac mae 50 arall yn gweithio yn llawrydd neu ar gytundeb) Mae'r mwyafrif helaeth o staff cyflogedig y cwmni yn ddwyieithog gyda 6 o ddysgwyr brwdfrydig a 3 yn ddi-gymraeg. Ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad Mewn ymateb i'r ymgynghoriad iaith-economi mae'r sylwadau isod yn gasgliad o sylwadau a gytunwyd ymhlith yr uwch dîm rheoli. Er bod cwmni Menter a Busnes yn cyfrannu at ddatblygiad polisi mewn meysydd perthnasol i faes gwaith y cwmni, a hefyd yn cyflawni peth ymchwil yn y meysydd hynny, carwn bwysleisio mai busnes darparu gwasanaethau yw Menter a Busnes yn ei hanfod. 'Practitioner' neu ymarferwr yw'r cwmni sy'n gweithredu ar sail chwarter canrif o geisio cyfrannu at ddatblygu'r economi yng Nghymru. Felly er bod y dystiolaeth neu'r sylwadau yn eithaf anecdotal - busawn yn gobeithio fod rhywfaint o hygyrdded iddynt yn seiliedig ar weithio wyneb yn wyneb gyda busnesau yn ddyddiol ers nifer o flynyddoedd.

- a. Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu Economaidd?
- b. Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

c. Sut gallai'r sector gyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

d. Enghreifftiau o ymarfer da o safbwynt cyflogi siaradwyr Cymraeg

e. Enghreifftiau o fusnesau sydd wedi elwa trwy farchnata eu hunain fel defnyddwyr o'r Gymraeg

f. Awgrymiadau sut i hwyluso datblygiadau fyddai'n hyrwyddo datblygu economaidd a'r iaith Gymraeg

a. Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu Economaidd?

- Nod Menter a Busnes yw anelu i fod yn un o 'Brif gwmnïau datblygu economaidd Cymru sy'n rhagori trwy fod yn ddwyieithog a chreadigol'. Mae cryn bwyslais o fewn y cwmni ar ddiogelu safon y gwasanaethau a gynigir ac fe enillir gwaith trwy dendrau cystadleuol ar sail llwyddiant blaenorol yn bennaf. Mae'r cwmni yn rhoi pwyslais mawr ar gyrraedd targedau uchelgeisiol a rhoi'r gwasanaeth gorau posib i'r cwsmer. Mae Menter a Busnes yn gweld y Gymraeg fel rhan annatod o safon y gwasanaeth a gynigir ac nid fel rhywbeth ar wahân. Credwn fod lle i gwmnïau eraill gael mantais fasnachol trwy ystyried fod dwyieithrwydd yn rhan annatod o ansawdd y gwasanaeth. Ceisio sicrhau fod gwasanaeth dwyieithog gyfystyr a gwasanaeth o ansawdd. Synonomous with quality.

- Fel cwmni rydym yn ystyried fod gennym 3 Safbwynt Gwerthu Unigryw (Unique Selling Point) ac mae'r gallu i ddarparu gwasanaeth gwbl ddwyieithog yn un o'r rhain. Fe allai hyn fod yn ystyriaeth i gwmnïau mewn meysydd eraill yn ogystal e.e. a oes cwmni yn y maes gofal sydd gyda U.S.P. am ddarparu gwasanaeth dwyieithog? ayyb Mae defnydd o'r iaith yn caniatáu i gwmnïau ddarparu gwasanaeth neu gynnwys unigryw neu wahanol ac i sefyll allan yn erbyn cystadleuwyr.

- Mae'r cymorth rydym ni'n darparu yn anelu i helpu perfformiad economaidd y busnesau hynny rydym ni'n ceisio helpu. Mae'r effaith ar Gymreictod y busnesau hynny, a'r defnydd o wneir o'r Gymraeg ganddynt yn eilradd i bob pwrpas. Serch hynny mae rhywun yn ymwybodol fod swyddogion sy'n medru siaradwr Cymraeg yn debycach o gael dylanwad cadarnhaol o safbwynt dwyieithrwydd y cwmnïau rydym yn helpu. Felly mae'n eithriadol o bwysig fod gwasanaethau cefnogaeth busnes Llywodraeth Cymru (dim ots pwy sy'n cael y cytundeb i'w darparu) yn medru dylanwadu ar gwmnïau yn ystod cyfnodau allweddol e.e. pan mae'r busnes yn cael ei sefydlu busnes, pan mae'r busnes yn llunio deunydd ac ymgyrchoedd marchnata, pan mae'r busnes yn ehangu ayyb. 'intervention points for business support'.

- Mae defnydd o'r Gymraeg yn caniatáu i gwmnïau ddarparu gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer cwsmeriaid yng Nghymru. Pan ystyrir fod 20% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg mae'n egwyddor busnes sylfaenol i fedru delio gyda chwsmeriaid yn yr iaith o'u dewis. Mae dwyieithrwydd yn dangos parch at anghenion cwsmeriaid

ac yn gonglffain o ofal cwsmer da - sydd yn rhan hanfodol o lwyddiant unrhyw fusnes. Mae hyn hefyd yn medru arwain at ffyddlondeb cwsmeriaid - sydd yn dewis cefnogi busnesau sy'n arddel y Gymraeg. Yn yr un modd mae'n medru diogelu teyrngarwch staff lleol - sydd yn debycach o aros gyda'r busnes a chynnig sefydlogrwydd o ran y tîm staff – sydd hefyd yn hanfodol cyn ystyried tyfu'r busnes.

- Mae rhai digwyddiadau a gwyliau Cymreig yn medru cael effaith gadarnhaol iawn ar economïau lleol a chenedlaethol e.e. Eisteddfod yr Urdd a'r Eisteddfod Genedlaethol - sydd yn comisiynu ymchwil rheolaidd i fesur y gwerth ariannol a'r effaith economaidd. Mae gwyliau diwylliannol llai hefyd megis Yr Ŵyl Gerdd Dant, Eisteddfod Powys, Gwyliau roc lleol niferus ayyb Wrth ystyried yr holl weithgaredd yma yn ei gyfanrwydd mae'n gwneud cyfraniad sylweddol iawn i'r economi Gymreig. Ond efallai y gellir gwneud mwy.....gweler (f)

- Mae rhai busnesau wedi eu selio ar yr iaith a'r diwylliant Cymraeg wrth reswm. Mae'r Astudiaeth Hyd a Lled gomisiynwyd gan y grŵp Iaith-economi ac a gwblhawyd gan Martin Rhisiart yn cyfeirio at y sectorau hynny lle mae'r siawns orau am dwf ac mae'r rhain yn cynnwys:

1. Teledu, radio a ffilm
2. Cyhoeddi, llyfrau, cylchgronau, recordiau
3. Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd
4. Addysg
5. Bwyd Amaeth
6. Iechyd a Cymdeithasol
7. Gweinyddiaeth Gyhoeddus
8. Hamdden a Thwristiaeth Amgylchedd
9. Ariannol a Busnes

Mae enghreifftiau niferus o fusnesau llwyddiannus yn rhai o'r sectorau hyn eisoes, sydd yn cyflogi llawer o bobl ac yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i'r economi yng Nghymru, ond buaswn yn cytuno gyda chanlyniadau'r astudiaeth fod potential am dwf pellach o fewn nifer o'r sectorau hyn. Ond efallai y gellir gwneud mwy.....gwêl (f)

- Wrth ystyried yn fanylach cyfraniad un o'r sectorau nodwyd uchod sef Twristiaeth, mae'r berthynas gyda'r iaith Gymraeg yn medru bod niwlog ac yn ddadleuol hyd yn oed (h.y. a yw denu ymwelwyr yn cynyddu'r nifer o fewnfudwyr? ayyb). Ar y llaw arall mae hefyd yn cynnig cyfle i ddatblygu 'cynnyrch' unigryw. Mae chwilfrydedd cynyddol mewn diwylliant a threftadaeth ac fe geir busnesau sydd yn cynnig

elfennau o hyn i gwsmeriaid e.e. tywyswyr lleol. Mae cwmni fel Y gorau o Gymru (enillydd cyntaf cystadleuaeth Gorsedd y Dreigiau) yn rhoi pwyslais ar y Gymraeg o fewn y busnes ac maent bellach yn cyflogi 6 o bobl ac yn enghraifft o fusnes ifanc a chyfoes sy'n dangos sut mae technoleg yn caniatáu sefydlu busnesau cenedlaethol/rhyngwladol mewn lleoliadau gwledig iawn (www.ygorauogymru.co.uk). Mae enghreifftiau ar gael yn ogystal o gynlluniau sydd yn cyplysu bwydydd a diodydd lleol a'r diwylliant Cymreig fel rhan o'r profiad gwyliau cyfan ac mae hyn eto yn medru cryfhau cyfraniad twristiaeth i'r economi leol e.e. Cwrw Llŷn (www.cwrwllyn.com)

- Mae cwmnïau sydd yn cydnabod iaith a diwylliant gwahanol yn medru cael gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd diwylliant mewn marchnadoedd tramor. Mae cyngor busnes ar ddatblygu marchnadoedd tramor wastad yn nodi fod deall diwylliant gwlad yn hanfodol er mwyn sefydlu perthynas allforio llwyddiannus. Fe nodir fod diwylliant gwlad yn seiliedig ar nifer o ffactorau gan gynnwys: sefydliadau cymdeithasol, iaith, addysg, crefydd, hanes, celfyddydau a llawer o bethau eraill. A yw busnesau Cymru yn defnyddio eu dealltwriaeth o ddiwylliant i gynyddu allforio?

- Fe allai defnydd o'r Gymraeg mewn rhai sectorau arwain at gyfleoedd penodol yng Nghymru e.e. llinell gymorth Cymraeg - fel arfer os yw cwmni wedi cydnabod yr angen am ddarparu gwasanaeth dwyieithog byddai'n sefydlu'r gwasanaeth llinell gymorth o fewn canolfan alwadau wedi ei lleoli yng Nghymru, yn hytrach nag yn Lloegr neu dramor. Yn yr un modd mae datblygiadau polisi wedi arwain at ddatblygu'r sector gyfieithu yng Nghymru sydd yn gyflogwr sylweddol. Ond faint o'r cwmnïau hyn fyddai'n medru ychwanegu iaith neu ddwy arall fel rhan o'i gwasanaeth?

b. Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

- Mae angen anogaeth a chefnogaeth i ddatblygu busnesau cynhenid ym mhob cwr o Gymru ac mae polisiâu cenedlaethol a rhanbarthol yn medru chwarae rhan yn hyn. Mae tueddiad i ddatblygu polisiâu mewn gwagle heb ystyriaeth i'r effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol fyddai'n medru cael ar yr iaith Gymraeg. Am y rheswm hynny dylid ystyried datblygiad polisi yn holistaidd ar draws y sectorau, yn arbennig o safbwynt; datblygu economaidd, cynllunio, addysg, twristiaeth, y celfyddydau a phwrcasu. Yn wir mae polisiâu pwrcasu, tendro a chynnig grantiau mewn sefyllfa i ddylanwadu yn sylweddol ar y defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg a'r tirlun ieithyddol.

- Mae angen ystyriaeth arbennig ar gyfer buddsoddi yn y cadarnleoedd i ddatblygu busnesau sy'n gydnaws gydag anghenion lleol. Mae gwella'r isadeiledd, ffyrdd TG ayyb yn rhan o'r darlun ond mae hefyd angen codi hyder bobl ifanc yn yr iaith a'i gwerth (economaidd) a'u hargyhoeddi fod modd sefydlu busnesau llwyddiannus mewn ardaloedd mwy gwledig. Mae'n rhesymegol i feddwl y byddai busnesau

cynhenid yn ymdrechu i fasnachu am yr hir dymor, a hefyd yn debycach o wneud defnydd naturiol o'r iaith Gymraeg o fewn eu busnesau.

- Dylai'r iaith a'r diwylliant Cymraeg fod yn rhan fwy amlwg o ymgyrchoedd marchnata i werthu Cymru e.e. lleoliadau hamdden - twristiaeth, lleoliadau busnes. Byddai hyn yn help i godi ymwybyddiaeth am yr iaith a'r diwylliant.
- Mae defnydd gweledol o'r iaith nid yn unig o fewn gweithleoedd ond hefyd wrth becynnu cynnyrch yn help i greu chwilfrydedd y cwsmer ac yn hybu defnydd o'r iaith. Mae'n bosib byddai rhai cwmnïau angen cymorth gyda chyfieithu, pecynnu a marchnata dwyieithog ayyb
- Mae angen sicrhau fod darparwyr cefnogaeth busnes nid yn unig yn medru darparu gwasanaeth dwyieithog ond eu bod yn rhagweithiol wrth geisio sicrhau hynny. Mae Menter a Busnes yn enghraifft o safbwynt datblygu economaidd ond mae angen cwmnïau tebyg ym mhob maes. Mae darparwyr cefnogaeth o bob math mewn sefyllfa i fedru argyhoeddi ynghylch manteision defnyddio'r Gymraeg. Mae'n siŵr fod rhai cwmnïau angen cymorth er mwyn caniatáu i hyn ddigwydd e.e. help gyda pholisïau recriwtio, uwchraddio sgiliau ieithyddol, cynhyrchu deunyddiau marchnata ayyb
- Mae gallu Menter a Busnes i ddarparu gwasanaeth dwyieithog yn 'taken as read' ac mae hynny'n helpu i ni i ennill tendrau a gwaith pellach. Mae angen diogelu a hyrwyddo gweithleoedd Cymreig. Fe soniwyd yn y rhagarweiniad fod y cwmni yn teimlo dan warchae ar adegau yn hyn o beth. Mae 'iaith fyw:iaith byw' yn nodi mai defnydd o'r iaith tu allan i addysg yw'r her fwyaf i'r iaith Gymraeg a buaswn yn tybio mai defnydd cymdeithasol a defnydd yn y gweithle yw'r ddau brif gyfle i fynd i'r afael â hynny. Mae'n hanfodol felly fod pobl yn cael mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle - a'u bod yn ymwybodol pa gwmnïau sy'n cynnig y cyfleoedd hynny. Eto mae'n siŵr byddai rhai cwmnïau angen cymorth o safbwynt polisïau a gweithredu er mwyn eu cynorthwyo i fod yn weithle Cymreig.
- Mae angen sicrhau fod busnesau yn medru gweithredu yn effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae defnydd naturiol o dechnoleg gwybodaeth yn un ystyriaeth ac mae'r gallu i gyfathrebu gyda busnesau eraill a gyda chyrrff cyhoeddus ar draws Cymru yn hanfodol os ydym o ddifri ynghylch hyrwyddo gweithleoedd Cymreig.
- Mae Menter a Busnes yn rhan o gonsortiwym sy'n darparu gwasanaeth 'Busnes Cymru' ac fe nodwyd yn y tendr buddugol fod o leiaf treian o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o'r rheiny o fewn Menter a Busnes ar y funud ond mae modd rhannu arbenigedd, sgiliau ieithyddol a sgiliau eraill ar draws y consortiwym. Mae Menter a Busnes yn medru cynorthwyo'n partneriaid eraill i ddeall yn well sut i ddarparu ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Oni bai fod ni'n diogelu gweithle Cymraeg o fewn y cwmni - byddai'r cyfan yn cael ei wanhau yn arw ac rydym wedi gweld hyn gyda chwmnïau eraill dros y blynyddoedd pan maen nhw wedi cyfaddawdu ar sgiliau ieithyddol y cwmni.

c. Sut gallai'r sector gyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

- Arwain trwy esiampl fyddai'r ffordd orau!
- Cynnig cefnogaeth i fusnesau lleol/cynhenid. Fe allai hyn fod ar ffurf adnoddau neu delerau ffafriol e.e. lleoliadau busnes (o ddewis y cwsmer) neu drethu ffafriol (yn gysylltiedig gyda chyflogi staff o bosib?)
- Ymgais fwriadol i ddenu talent yn ôl i'r ardaloedd sy'n colli canran uchel o bobl ifanc. e.e. fe allai Awdurdod Lleol gydweithio gyda busnesau lleol i noddi myfyrwyr yn rhannol mewn meysydd sydd â photensial economaidd o fewn y sir.
- Hyrwyddo cyfleon gyrfa yn y cadarnleoedd ieithyddol. Rhai blynyddoedd yn ôl bellach mi roedd Menter a Busnes yn gweithredu cynllun tracio o'r 'Llwybro' ar ran Llywodraeth Cymru - oedd yn cofnodi manylion pob disgybl 16 oed yng Nghymru ac yn cadw mewn cysylltiad gyda nhw yn dilyn hynny - yn son am gyfleoedd o fewn yr economi yng Nghymru. Mae degau o filoedd o gofnodion ar y bas data yma - sy'n dal i fodoli rhywle yn grombil Llywodraeth Cymru. Mae angen ail-sefydlu proses debyg er mwyn ceisio denu talent yn ôl i Gymru ac yn ôl i'r cadarnleoedd. Mae datblygiadau technolegol a'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol yn siŵr o fedru hwyluso'r broses a'i gwneud yn fwy effeithiol erbyn hyn.
- Datganoli staff mwy o gyrff cyhoeddus, mae dosraniad swyddi yn help mewn ardaloedd mwy gwledig
- Datblygu polisiau cynllunio sy'n ystyried lles yr iaith
- Sicrhau fod unrhyw grantiau yn cynnwys amodau ynghylch yr iaith Gymraeg
- Llunio polisiau tai fforddiadwy sy'n gydnaws gyda anghenion yr ardal
- Cefnogi defnydd o'r iaith tu allan i addysg yn enwedig yn gymdeithasol ac o fewn gweithleoedd
- Asesu gallu ieithyddol staff a darpar staff yn well. Mae anghysondeb yn narpariaeth cyrff cyhoeddus gan nad yw hyn yn digwydd
- Sicrhau fod modd i bobl gyfrannu mewn cyfarfodydd yn yr iaith o'u dewis

f. Awgrymiadau sut i hwyluso datblygiadau fyddai'n hyrwyddo datblygu economaidd a'r iaith Gymraeg Mae Menter a Busnes yn hollol argyhoeddedig nad yw potensial economaidd yr iaith Gymraeg yn cael ei wireddu ar hyn o bryd. Yn yr un modd fe alla'i datblygu economaidd gyfrannu mwy tuag at gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Credwn fod nifer o elfennau gwahanol alla'i gyfrannu yn gadarnhaol tuag at gynyddu cyfraniad yr iaith Gymraeg tuag at yr economi yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygiadau polisi (ar draws adrannau) - yn genedlaethol ac yn rhanbarthol
- Datblygu hyder emosiynol a seicolegol, hunanhyder a balchder mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg
- Cymorth penodol i fusnesau i'w cynorthwyo i weithredu fel busnesau dwyieithog ac fel gweithleoedd Cymreig
- Mesurau penodol yn ymwneud â thracio llwybrau gyrfa a denu talent gynhenid yn ôl i Gymru ac i'r cadarnleoedd ieithyddol
- Ymyrraeth fwriadol er mwyn hwyluso datblygiadau iaith-economi na fyddai'n digwydd fel arall, neu na fyddai'n digwydd yn ddigon buan (byddwn yn ymhelaethu ar y pwynt yma isod) Mae'r grŵp trafod iaith-economi a sefydlwyd yn 2004 dan oruchwyliaeth Andrew Davies y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, wedi dysgu nifer o wersi ynghylch y berthynas rhwng iaith ac economi, ac yn ddi-os fe fydd yr adolygiad yma yn cynnig dealltwriaeth ehangach. Fe ddaeth y grŵp trafod iaith-economi i ben yn 2011. Roedd teimlad ers peth amser fod y grŵp wedi cyflawni'r hyn alla'i gyflawni o fewn ei swyddogaeth wreiddiol. Y rhwystredigaeth deimla'i rhai ohonom ar y pryd oedd nad oedd gan y grŵp bwerau nac adnoddau i symbylu neu sbarduno gweithredu pellach yn y maes. Roedd Menter a Busnes yn gyfrifol am ddarparu gweinyddiaeth i'r grŵp iaith-economi. Tua diwedd oes y grŵp fe gomisiynwyd papur gan Adam Price yn dwyn y teitl 'Gwerth' oedd yn amlinellu cyfeiriadau posib o ran datblygu'r maes iaith-economi. Roedd y papur yn ei hanfod yn awgrymu fod angen endid i roi ystyriaeth i faterion polisi a materion eraill a bod hefyd angen endid ar wahân i sbarduno gweithgaredd. Mae'n deg dweud mai croeso llugoer gafodd y papur gan aelodaeth y grŵp ar y pryd, ond teimlwn fod rhinweddau pendant i rai o'r argymhellion ynghlwm â'i fodel - ac a fyddai'n ateb rhai o'r pwyntiau nodwyd uchod o leiaf. Y prif bwynt fyddem yn cydsynio gydag yw'r angen am beth mae Adam yn alw yn "labordy syniadau, deorfa a chyflymydd". Efallai mai gwendid papur 'Gwerth' yw nad yw'n ymhelaethu yn ddigonol ar sut gallai hyn gael ei gyflawni. Rhywbeth tebyg fyddai gennym ni mewn golwg pan yn son am ymyrraeth fwriadol fel y cyfeiriwyd ato uchod. Rydym o'r farn fod modd adnabod unigolion a chwmnïau alla'i ddatblygu busnesau newydd lle fyddai'r iaith yn greiddiol, busnesau fyddai'n gwneud cyfraniad pwysig i economi Cymru a busnesau fyddai hefyd yn gwneud cyfraniad at gynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg. Credwn fod modd i'r busnesau hyn ddeillio o'r sector gyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Wrth ystyried busnesau iaith-economi llwyddiannus ym mhob un o'r sectorau hyn mae ein profiad ni yn awgrymu fod rhai elfennau yn gyffredin:
 - Unigolyn/Arweinydd sy'n gadarn ei (d)daliadau ac sy'n arwain trwy esiampl (mae hefyd yn gymorth cael eraill o fewn yr un cwmni/sefydliad sydd yr un mor gadarn)
 - Fod y gwerthoedd ynghylch yr iaith Gymraeg yn dod yn rhan o werthoedd y cwmni – a'u bod yn cael eu rhannu a'u mabwysiadu gan y tîm cyfan

- Fod awydd o fewn yr unigolyn a'r cwmni i gyflawni mwy mewn perthynas â'r iaith a'r economi Pan mae'r elfennau hyn yn dod ynghyd mae cyfle i wireddu potensial cyfraniad yr iaith a'r economi i'w gilydd. Byddem yn ymwybodol iawn o gwmnïau a sefydliadau sy'n disgyn i'r category yma ond sydd efallai heb gyflawni'r potensial hyd yma am wahanol resymau e.e.
- Ffocysu ar y prif fusnes a heb ystyried beth fyddai'r dimensiwn ieithyddol yn medru ychwanegu at y busnes
- Ffocysu ar y dimensiwn ieithyddol/diwylliannol heb ystyried y potensial economaidd
- Diffyg adnoddau o ran staff neu amser neu gyllid i fynd ar ôl cyfleoedd sydd wedi cael eu hadnabod
- Diffyg sgiliau, cysylltiadau neu bartneriaid i wireddu cynlluniau newydd. Byddai hwyluswyr/mentoriaid busnes profiadol yn gweithio mewn dyfnder gyda'r cwmnïau yn medru darparu'r ymyrraeth fwriadol sydd ei angen i wireddu'r cyfleon.

Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar yr Iaith Gymraeg a Datblygu Economaidd

Galw am Dystiolaeth - Cwmni Theatr Arad Goch

Dim ond yn ddiweddar iawn ces i wybod am waith y grŵp gorchwyl hwn – arwydd, efallai, fod y diwydiannau creadigol i bobl ifanc, y tu hwnt i'r cyfryngau torfol, yn cael eu diystyried wrth drafod materion economaidd. Gwn fod y dyddiad cau ar gyfer anfon sylwadau wedi mynd heibio ond anfonaf yr ychydig sylwadau isod yn y gobaith y byddant o ddefnydd o hyd.

Cefndir

Cwmni cynhyrchu yw Cwmni Theatr Arad Goch sydd â'i bencadlys yn Aberystwyth. Mae Arad Goch yn arbenigo mewn creu theatr gyfoes a heriol i gynulleidfaoedd ifainc, plant a theuluoedd. Mae'r cwmni yn cynhyrchu gwaith ar raddfeydd bychan a chanolig ar gyfer ei wahanol gynulleidfaoedd ac ar gyfer gwahanol leoliadau: fe berfformir y cynyrchiadau mewn theatrau, canolfannau celfyddydol, canolfannau cymunedol neu ysgolion ledled Cymru. Cydweithia'r cwmni yn agos gyda chyrrff celfyddydol a mudiadau cymunedol ar draws Cymru i hyrwyddo ei waith.

Mae gan Arad Goch hanes o weithio'n llwyddiannus gyda chyrrff a mudiadau eraill; mae hyn yn cyfrannu at ariannu'r gwaith, at ei ddatblygiad ac at ei hygyrchedd i gynulleidfaoedd newydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r cwmni wedi cydweithio gydag Urdd Gobaith Cymru, Llenyddiaeth Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i greu cynyrchiadau newydd.

Yn ogystal â'r partneriaid yng Nghymru mae Arad Goch yn gweithio yn eang ar lefel ryngwladol. Mae'r cwmni wedi perfformio mewn nifer o wledydd tramor yn Ewrop, yr Amerig ac Asia; yn ddiweddar gwahoddwyr Arad Goch i berfformio mewn gŵyl yn Veliky Novgorod yn Rwsia a'r flwyddyn nesaf fe fydd yn perfformio yn Ne Corea. Mae Arad Goch yn cynnal yr ŵyl *AGOR DRYSAU-OPENING DOORS Wales International Festival of Performing Arts for Young Audiences* a gynhelir am-yn-ail flwyddyn yn Aberystwyth a threfi eraill yng Nghymru; gwahoddir rhai o perfformiadau gorau'r byd i Gymru; yn ogystal weithredu fel ffenest siop i hyrwyddo gwaith o Gymru yn ryngwladol gan y gwahoddir cyfarwyddwyr gwyliau a theatr o wledydd eraill. Mae'r cwmni wedi cyd-gynhyrchu gyda chynhyrchwyr o'r Iwerddon, Siapan ac Awstralia.

Yn 2008 agorwyd canolfan pwrpasol newydd y cwmni yng nghanol tref Aberystwyth a cheir yno ofodau ymarfer a pherfformio, adnoddau cynhyrchu a gweinyddol, archif, adnoddau cynhyrchu fideo a cherddoriaeth. Fe ddefnyddir y ganolfan yn helaeth gan y cwmni ei hun, gan artistiaid eraill, yn broffesiynol ac yn amatur, gan aelodau'r gymuned a gan busnesau a sefydliadau eraill. Yn ogystal â'r ganolfan hon mae'r cwmni yn berchen ar uned diwydiannol ar gyfer adnoddau 'caled', offer teithio, gweithdy, a storffeydd setiau, propiau a dillad.

Gweithreda'r cwmni nifer o gynlluniau cyfranogol i bobl ifanc gan gynnwys clybiau drama, cyrsiau fideo, gweithdai dawn. Defnyddir adnoddau'r ganolfan i annog a galluogi pobl ifanc i ddatblygu eu syniadau a'u gwaith eu hunain.

Defnyddir y ganolfan hefyd i gynnig cyfleodd i artistiaid proffesiynol eraill: yn 2011 dechreuwyd cynllun Artistiaid Preswyl newydd, gan wahodd tri artist ifanc i ddefnyddio'r ganolfan a'i hadnoddau, yn ogystal â gwybodaeth a phrofiad staff Arad Goch, i greu gwaith newydd i'w ddangos yn y ganolfan.

Gweithreda Arad Goch nifer o gynlluniau rhyngwladol; y pwysicaf o'r rhain yw AGOR DRYSAU – OPENING DOORS Wales International Festival of Performing Arts for Young Audiences a gynhelir am-yn-ail flwyddyn. Mae nod yr ŵyl yn driphlyg: (i) galluogi cynulleidfaoedd ifanc Cymru i weld rhai o gynyrchiadau gorau'r byd; (ii) cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol ymarferwyr theatr yng Nghymru a'u galluogi i ystyried eu gwaith o fewn cyd-destun ehangach yn ddaearyddol, ieithyddol a diwylliannol a (iii) gweithredu fel ffenest-siop ar gyfer gwaith a gynhyrchir yng Nghymru er mwyn ei allforio i wledydd eraill. Mae gan y cwmni rwydwaith eang o gysylltiadau gyda chynhyrchwyr ac artistiaid rhyngwladol.

Cyfanswm cynulleidfaoedd a chyfranogwyr Arad Goch yn 2011-12 oedd 24578. Y ffigwr cyfatebol yn 2010-12 oedd 23623; y ffigwr cyfatebol 4 blynedd yn gynharach, 2007-8, oedd 18179.

a) Sut gallai'r defnydd o'r Gymraeg a dwyieithrwydd helpu busnesau i dyfu a chefnogi datblygu economaidd?

Mae Cwmni Theatr Arad Goch yn gweithredu yn gyfangwbl drwy'r Gymraeg. Y Gymraeg yw iaith weithredol y cwmni Mae holl gynyrchiadau'r y cwmni yn cael ei greu yn y Gymraeg; trosir rhai ohonynt i'r Saesneg i sicrhau fod cynulleidfaoedd ifanc di-gymraeg yn cael mynediad i theatr Gymreig.

Mae'r cwmni wedi cyrchu at ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer theatr yn y Gymraeg ac mae wedi bod yn ymweld a lleoliadau penodol nad ydynt yn theatrau ymhell cyn bod y term 'site-specific' yn boblogaidd. Un o'r prif-ffactorau yn hyn o beth yw hanes y cwmni o weithio gyda mudiadau lleol – rhai ohonynt yn fudiadau gwirfoddol, eraill yn gyrrff a ariennir i y hyrwyddo'r Gymraeg fel y mentrau iaith.

Mae'n ddiddorol nodi y byddai'r cwmnïau theatr Cymraeg oedd yn teithio 'yn gymunedol' yn yr 80au yn dibynnu'n helaeth iawn ar wirfoddolwyr lleol i hyrwyddo digwyddiadau theatr proffesiynol. Er bod hynny'n digwydd o hyd, mae'n digwydd i raddau llai oherwydd, efallai, galwadau gyrrfaol. Mae'r mentrau iaith felly yn holl bwysig wrth hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol.

b) Sut gallai datblygu economaidd gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg?

c) Sut gallai'r sector cyhoeddus gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg drwy ei effaith ar yr economi leol?

Canolfan Arad Goch

Wrth sefydlu Canolfan Arad Goch yn 2008 (gyda grantiau sylweddol o dros £3miliwn o sawl ffynhonnell) y bwriad oedd datblygu canolfan Cymraeg ar gyfer y celfyddydau perfformio i gynulleidfaoedd ifanc – yr unig ganolfan bwrpasol o'i fath. Yn ogystal â darparu adnoddau cynhyrchu gwych i'r cwmni ei hun, fe ddarperir cyfleodd ac adnoddau i artistiaid proffesiynol eraill ac ar gyfer 'y gymuned' ac yn enwedig ar gyfer pobl ifanc.

Mae'r prif ffocws ar y Gymraeg fel iaith weithredol a chreadigol – gan anelu at roi statws ac hygredded i weithgareddau creadigol drwy'r Gymraeg.

Erbyn hyn mae gan y cwmni bolisi o wahodd 3 artist preswyl, sydd yn gweithio drwy'r Gymraeg, i ddefnyddio'r ganolfan yn rhad ac am ddim. Mae'r tri artist, sydd yn newid o bryd i'w gilydd, yn cyfrannu at ddeialog a gweithgareddau'r ganolfan tra bod y cwmni yn eu mentora mewn sgiliau hyrwyddo a datblygu proffesiynol, sut i weithio yn ymarferol a chreadigol gyda phobl ifanc a sut i ddatblygu cynulleidfaoedd ehangach i'w gwaith.

Trefnir nifer o weithgareddau creadigol i bobl ifanc yn y ganolfan. Mae sawl ffactor pwysig ynghlwm wrth hyn, wrth gwrs gan gynnwys galluogi pobl ifanc i ddefnyddio'r Cymraeg, neu i weithio a mwynhau o fewn awyrgylch Gymraeg y tu allan i fyd addysg; mae'r gweithgareddau yn cynnwys clybiau drama, gweithdai ffilm, fideo a recordio sain a gwaith celf a graffiti.

Defnyddir y ganolfan hefyd gan grwpiau o fyfyrwyr sydd yn astudio theatr a'r cyfryngau, drwy'r Saesneg, yn y brifysgol – llawer iawn ohonynt wedi cael eu hynysu o'r diwylliant a'r dwyieithrwydd sydd o'u cwmpas. Ar ôl cael cyfle i weithio mewn awyrgylch creadigol Gymraeg gydag aelodau Arad Goch mae nifer helaeth ohonynt yn dechrau defnyddio ychydig o Gymraeg ac ambell un yn mynd ati i ddysgu'r iaith at resymau proffesiynol. Mae darparu gweithle Cymraeg, felly, yn denu neu diddordeb cadarnhaol; mae hyn yn wir hefyd am rai o'r bobl ifanc sydd yn dod i'r ganolfan sydd wedi cefnu ar addysg uwchradd ffurfiol drwy'r Gymraeg ond sydd yn ail-gydio yn yr iaith oherwydd yr awyrgylch creadigol a chadarnhaol o'u cwmpas.

Tystiolaeth Gareth Wyn Jones, Ceir Cymru, Bethel, Gwynedd a Glasfryn, Conwy

Mae ein polisi (sydd ddim wedi ei roi ar bapur!) yn syml. Mae bob agwedd ar y busnes yn cael ei weinyddu a'i reoli drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni fyddwn yn cyflogi neb di-Gymraeg - byddai un allan o 15 o'r staff yn gallu difetha ethos a hwyl ieithyddol naturiol y gweithle. 'Rydym yn disgwyl i werthwyr a chynghorwyr ateb y ffôn a chyfarch cwsmeriaid yn Gymraeg, boed y rheiny yn Gymry ai pheidio. 'Rydym yn sicrhau fod hynny'n cael ei wneud yn gwrtais a hwyliog. Mae gennym bolisi o geisio helpu dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg gan fod 80% o bobl y cylch yn deal Cymraeg ac o leiaf 70% yn ei siarad yn naturiol. Gwnawn ein biliau mewn Cymraeg ond mae ambell fecanic/technegydd yn llunio rhai o'r biliau. Mae'n anodd yn rhyfedd iawn i'w cael nhw i sgwennu bil yn Gymraeg.

Er ein bod yn prynu llawer o gyflenwadau gan gwmnïau Seisnig 'rydym yn rhoi cyfle blaenoriaethol i gwmnïau Cymreig i roi prisiau cystadleuol i'w nwyddau.

Pam defnyddio'r Gymraeg?

Mae "dwyieithrwydd" yn codi safon a statws y busnes yng ngolwg "cwsmeriaid safonol", hynny yw cwsmeriaid sydd gan arian i'w wario! Mae'r hwyl gymdeithasol sydd i'w gael o ddefnyddio dwy iaith gyda chwsmeriaid yn allweddol. Mae mwynhau bob agwedd o fusnes yn holl bwysig ac yn gwella "morale" cwsmeriaid a staff a chyflenwyr.

Mae "cydwybod busnes" yn bwysig. Os yw plant i barhâi i gael addysg drwy'r Gymraeg yna rhaid i'r Cynulliad a busnesau o bob math argyhoeddi bob sector o fewn cymdeithas o'r ddyletswydd sydd gennym i gadw a defnyddio ein trysor mwyaf fel cenedl a chymdeithas - sef y Gymraeg. Mae angen hybu'r syniad o "gydwybod busnes" a'r hwyl a'r elw a all ddod gyda hwnnw. Dyma'r ateb felly i'r pedwerydd pwynt bwled o safbwynt cwmnïau nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg.

Mae defnyddio'r Gymraeg mewn busnes yn gwella ansawdd y cynnyrch a'r cyflenwad gan ei fod fel "packaging" ar nwyddau – mae'n rhoi sglein a statws i'r hyn sy'n cael ei werthu.

Mae boutiques dillad drud mewn dinasoedd mawr Ewropeaidd yn defnyddio tair iaith ar eu labeli yn aml. Gwelais siop ym Mharis yn ddiweddar yn defnyddio 5 iaith (!) ar labeli.

Pa wahaniaeth?

Mae defnyddio'r iaith yn cynyddu statws pob busnes- yn dangos nad ariangarwch yn unig sy'n cymell arweinwyr y busnes. Dros y blynyddoedd mae miloedd o Saeson

wedi prynu ceir gennym ac wedi rhyfeddu a dotio at ein defnydd o'r Gymraeg. Mae llawer hyd yn oed yn eiddigeddus o hyn ac yn ystrydebu eu colled gyda brawddegau fel "I wish I would have learnt Welsh at school/I wish I could speak Welsh".

Mae defnyddio'r Gymraeg hefyd yn rhoi "parch academaidd" i fusnes. Yn ein hachos ni mae'n un o'n prif allweddau i lwyddiant.